# Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cygnor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU | | AUDIT AND GOVERNANCE COMMITTEE |
| DYDD MAWRTH, 15 MAWRTH 2016 am 2.00 o'r gloch y prynhawn | | TUESDAY, 15 MARCH, 2016 at 2:00 p.m. |
| YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI | | COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI |
| Swyddog Pwyllgor | Ann Holmes<br>01248 752518 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**Annibynnol / Independent**

Jim Evans, Dafydd Rhys Thomas a Richard Owain Jones

**Plaid Cymru / The Party of Wales**

John Griffith (Is-Gadeirydd/Vice-Chair), Alun W Mummery a Nicola Roberts

**Grwp Chwyldroad/Revolutionist Group**

Sedd Wag/Vacant Seat

**Heb Ymaelodi/Unaffiliated**

R Ll Jones (Cadeirydd/Chair)

**ALEODAU LLEYG / LAY MEMBERS**

Mrs Sharon Warnes a Mr Richard Barker

# R H A G L E N

**1** **DATGAN DIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

**2** **COFNODION CYFARFOD 8 RHAGFYR, 2015** (Tudalennau 1 - 8)

Cyflwyno cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol -

- 8 Rhagfyr, 2015
- 18 Chwefror, 2016 (arbennig)

**3** **GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH: RÔL Y PWYLLGOR WRTH ADOLYGU PARTNERIAETHAU** (Tudalennau 9 - 20)

Cyflwyno adroddiad y Swyddog Effaith Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

**4** **LLYWODRAETHU GWYBODAETH** (Tudalennau 21 - 26)

Cyflwyno adroddiad Pennaeth Busnes y Cyngor.

**5** **ADFER AR ÔL TRYCHINEB A PHARHAD BUSNES TGCH**

Cyflwyno diweddariad ar lafar ynglyn ag Adfer ar ôl Trychineb a Pharad Busnes TGCh.

**6** **ARCHWILIO ALLANOL - DIWEDDARIAD RHAGLEN WAITH PERFFORMIAD** (Tudalennau 27 - 66)

- Cyflwyno diweddariad Archwilio Allanol ar y Rhaglen Waith Perfformiad.
- Cyflwyno Adroddiad Asesiad Cydnerthedd Ariannol Ynys Môn
- Cyflwyno adroddiad Ardystio Grantiau a Dychweliadau *(Adroddiad i ddilyn)*

**7** **ARCHWILIO GRANTIAU** (Tudalennau 67 - 70)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Adnoddau a Swyddog Adran 151.

**8** **ADRODDIAD CYNNYDD ARCHWILIO MEWNOL** (Tudalennau 71 - 118)

Cyflwyno adroddiad cynnydd Archwilio Mewnol.

**9** **CYNLLUN STRATEGOL ARCHWILIO MEWNOL 2016/17 - 2018/19 A CHYNLLUN BLYNYDDOL 2016/17** (Tudalennau 119 - 156)

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Archwilio Mewnol.

**10** **ADOLYGIAD RHEOLI TRYSORLYS CANOL BLWYDDYN 2015/16** (Tudalennau 157 - 174)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Adnoddau a Swyddog Adran 151.

**11** **ADRODDIAD BLYNYDDOL I'R CYNGOR** (Tudalennau 175 - 194)

Cyflwyno Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor am 2015/16 cyn ei gyflwyno i'r Cyngor Sir ym Mai, 2016.

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHIANT

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Rhagfyr, 2015

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd R. Llewelyn Jones (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd John Griffith (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Alun Mummery, Richard Owain Jones, Peter Rogers, Dafydd Rhys Thomas<br><br>Aelodau Lleyg: Mr Richard Barker, Mrs Sharon Warnes |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Prif Weithredwr (ar gyfer eitem 3)<br>Pennaeth Adnoddau a Swyddog Adran 151<br>Prif Swyddog Gwarchod y Cyhoedd (ar gyfer eitem 3)<br>Pennaeth Archwilio Mewnol (MH)<br>Rheolwr Archwilio (SP)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Mr Andy Bruce (SAC), Mr Martin George (PwC), Mrs Lynn Pamment (PwC) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd H. Eifion Jones (Aelod Portffolio Cyllid), Y Cynghorydd Richard Dew (Aelod Portffolio Cynllunio) |

---

### 1. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

### 2. COFNODION CYFARFOD 23 MEDI, 2015

Cyflwynwyd a chadarnhawyd fel rhai cywir, gofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant a gynhaliwyd ar 23 Medi, 2015.

Yn codi o’r cofnodion -

- Cadarnhaodd y Pennaeth Adnoddau a Swyddog Adran 151 bod y Pennaeth Adnoddau a Swyddog Adran 151 Dros Dro, cyn gadael ei swydd, wedi ysgrifennu at y Prif Gwnstabl i geisio sicrwydd bod yr ymchwiliad i ymgais i dwyllo Cyngor Sir Ynys Môn (ac eraill) yn mynd rhagddo. Cyfarfu Prif Arolygydd lleol gyda'r Pennaeth Adnoddau a'r Rheolwr Archwilio yr wythnos ddiwethaf i roi adroddiad llawn am yr hyn yr oedd yr ymchwiliad wedi ei olygu a chanlyniad hynny. Cafwyd adroddiad ar y manylion gan y Swyddog. I grynhoi, mae’r arian a gafwyd drwy dwyll (er, yn achos Ynys Môn, ni chollwyd unrhyw arian) fel arfer yn cael ei symud o gyfrif i gyfrif ac, yn y pen draw, allan o'r wlad. Gan fod awdurdodau lleol yn fwy effro i'r risg o achosion o dwyll fel hwn, mae'r troseddwyr yn targedu sefydliadau eraill. Oherwydd nad oedd y Cyngor wedi sôn am yr ymgais i dwyllo am ddau fis, roedd yr oedi yn lleihau’r tebygolrwydd o ganlyniad cadarnhaol o ran dod o hyd i’r twyllwyr a’u harestio. Yn y dyfodol, bydd gweithredoedd o'r fath yn cael eu hanfon at Action Fraud am sylw.

  Nododd y Pwyllgor y wybodaeth ac roedd yn derbyn bod yr Heddlu wedi gwneud cymaint â phosibl o dan yr amgylchiadau a bod angen i'r Awdurdod ddysgu gwersi o'r profiad yn enwedig o ran sicrhau

DRAFT

bod mesurau diogelu yn eu lle ac yn gadarn, cryfhau rheolaethau mewnol a gweithredu'n brydlon pan ddeuir o hyd i unrhyw beth o'i le.

- Mewn perthynas â'r cais a wnaed gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod blaenorol am restr o'r asedau sydd ar werth gan yr Awdurdod yn dilyn pryderon nad ydynt yn cael eu gwerthu yn ddigon cyflym, dywedodd y Pennaeth Adnoddau a'r Swyddog Adran 151 bod rhestr o'r fath ar gael ond mae'n ddogfen sylweddol a manwl iawn ac efallai na fydd yn cynnwys yr hyn y mae'r Pwyllgor yn chwilio amdano, sef gwybodaeth gryno am yr asedau sydd ar werth gan yr Awdurdod a marchnata'r asedau hynny. Cyfeiriodd y Swyddog y Pwyllgor at adroddiad a gyhoeddwyd gan y Panel Canlyniad Sgriwtini ar waredu asedau sydd i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith ar 14 Rhagfyr ac sy'n nodi canfyddiadau ac argymhellion y Panel yn dilyn ei ymchwiliad i'r modd y mae'r Awdurdod yn ymdrin â'i asedau, gan gynnwys y broses o'u gwerthu.

  Derbyniodd y Pwyllgor gyngor y Swyddog a chytunwyd y byddai ei Aelodau yn unigol yn cyfeirio at adroddiad y Panel Canlyniad Sgriwtini.

**3. ARCHWILIAD YR ASIANTAETH SAFONAU BWYD**

Cyflwynwyd er sylw'r Panel - adroddiad y Prif Swyddog Gwarchod y Cyhoedd yn ymgorffori adroddiad yr Asiantaeth Safonau Bwyd ar Wasanaeth Gorfodaeth Cyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid Ynys Môn yn dilyn archwiliad a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf, 2014. Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys y Cynllun Gweithredu a luniwyd i fynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, ynghyd â diweddariad ar y cynnydd a wnaed wrth weithredu'r argymhellion hynny.

Adroddodd y Prif Swyddog Gwarchod y Cyhoedd fod yr archwiliad yn cynnwys trefniadau Ynys Môn ar gyfer hylendid bwyd, safonau bwyd a gwasanaethau gorfodi cyfraith bwyd anifeiliaid, sef swyddogaethau sy'n cael eu darparu gan adain Gwarchod y Cyhoedd yn yr Adran Gynllunio a Gwarchod y Cyhoedd. Ar y pryd, roedd y gwaith yn cael ei wneud gan swyddogion yn y timau Iechyd yr Amgylchedd a Safonau Masnach. Derbyniwyd adroddiad ffurfiol yr ASB ar 21 Gorffennaf, 2015. Cyfeiriodd y Swyddog at ganfyddiadau'r archwiliad a'r argymhellion ynddo fel y cânt eu crynhoi dan baragraff 2.2 o'r adroddiad ac mae Cynllun Gweithredu manwl wedi cael ei lunio mewn ymateb (Atodiad A yr Adroddiad ASB). Dechreuwyd mynd i'r afael â'r argymhellion yn dilyn y sesiwn atborth anffurfiol a gynhaliwyd gan Archwilwyr ASB ar 18 Gorffennaf, 2014. Mae'r Cynllun Gweithredu wedi bod yn ddogfen fyw ac wedi cael ei diweddaru yn rheolaidd wrth i'r camau y cytunwyd arnynt gael eu cwblhau; gweler y fersiwn ddiweddaraf yn Atodiad 1.

Dywedodd y Swyddog wrth y Pwyllgor fod y rhan fwyaf o'r argymhellion a wnaed o natur weithdrefnol ac wedi cael sylw. Fodd bynnag, erys pryderon ynghylch digonolrwydd yr adnoddau staffio i gynnal archwiliadau Hylendid Bwyd, Safonau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid ac mae dadansoddiad cyfredol yn dangos bod yr adain yn brin o 2 swyddog. Mae'r gwasanaeth yn y broses o drawsnewid er mwyn rhoi sylw i heriau o'r fath; er gwaethaf hynny, mae'n debygol y bydd bwlch o hyd o ran adnoddau hyd yn oed gyda gweithlu sy'n fwy ystwyth, modern a hyblyg. Mae'r camau lliniaru'n ymwneud â sicrhau bod staff yn cael eu defnyddio yn unol â thystiolaeth dda a blaenoriaethau. Oherwydd nad yw'r dull symlach hwn eto wedi'i brofi a'r broses drawsnewid yn parhau i fod yn anghyflawn, yr ateb tymor byr yw cyflogi staff asiantaeth. Bydd yr ASB yn dychwelyd i asesu cynnydd yn erbyn yr adroddiad llawn yn ffurfiol cyn 31 Mawrth 2016.

Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad a chodwyd y materion canlynol ar hynny -

- O gymharu ag awdurdodau tebyg eraill, a yw'r sefyllfa staffio'n broblem benodol i'r awdurdod hwn ac a oes amserlen ar gyfer elwa o hyfforddiant sydd wedi'i gynllunio fel y gall swyddogion fod yn amlswyddogaethol. Dywedodd y Prif Swyddog Gwarchod y Cyhoedd bod staffio yn broblem gyffredinol. Bwriedir cwblhau'r ailstrwythuriad o'r gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd ym mis Ionawr, 2016 ac wedi hynny rhoddir sylw i hyfforddiant ac arferion gwaith. Un broblem o ran materion Hylendid Bwyd yw bod angen i swyddogion fod yn swyddogion iechyd yr amgylchedd cymwys a phrofi eu cymhwysedd yn barhaus, felly rhaid cael system hyfforddiant rheolaidd a bydd angen ymestyn hynny i aelodau eraill y tîm.

DRAFT

- A yw cydweithio yn ateb posibl i anawsterau staffio yn enwedig o ddefnyddio adnoddau i dalu am absenoldebau, ee absenoldeb mamolaeth. Dywedodd y Prif Swyddog Gwarchod y Cyhoedd y gellir darparu rhai agweddau ar orfodi a rheoleiddio ar draws ardal ehangach ond bod gwaith archwilio, yn arbennig o safbwynt Hylendid Bwyd yn tueddu i gael ei wneud yn lleol. Mae awdurdodiadau trawsffiniol wedi cael eu cyflwyno sy'n golygu y gall swyddogion i weithio yn unrhyw un o'r chwe awdurdod Gogledd Cymru. Fodd bynnag, o gofio bod cymhwysedd yn allweddol o ran Hylendid Bwyd, yr hyn sy'n cael ei ystyried yw'r posibilrwydd o gyfuno gwasanaethau arbenigol fel y gellir rhannu arbenigedd yn cael ei rannu a gofyn amdano pan fydd angen.
- Nododd y Pwyllgor gyda phryder bod y gwasanaeth yn cael ei lesteirio gan faterion sylfaenol sy'n ymwneud â chapasiti a graddfa'r gwaith a chan lefelau tâl anghystadleuol sy'n gwneud recriwtio yn fwy anodd. Gofynnodd y Pwyllgor am sicrwydd na fydd ailhyfforddi swyddogion i ymgymryd ag agweddau eraill ar y gwaith yn rhoi baich ychwanegol ar staff. Dywedodd y Prif Swyddog Gwarchod y Cyhoedd, er bod risgiau yn uchel o ran staff yn gadael, bod Gwarchod y Cyhoedd yn llwyddo'n dda i ddal gafael yn ei staff ac mae proses o ddatblygu staff a chynllunio olyniaeth ar gael. Mae anawsterau'n fwy tebygol o godi mewn amgylchiadau lle gallai staff efallai adael yn sydyn. O ran ymdrin ag ystod o ddyletswyddau, dywedodd y Swyddog y dylai rheoleiddiad un cyffyrddiad leihau'r pwysau o ran galw ac mae hefyd yn fater o flaenoriaethu llwyth gwaith i gyflawni yn unol â'r rheoliadau.
- Gofynnodd y Pwyllgor a oedd yr incwm o tua £ 12k a dderbyniondd y gwasanaeth gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd ar gyfer cynnal arolygiadau yn adlewyrchiad teg o'r costau dan sylw. Dywedodd y Prif Swyddog Gwarchod y Cyhoedd fod Hylendid Bwyd Anifeiliaid yn agwedd llawer llai o'r gwasanaeth na Hylendid Bwyd sy'n cynnwys oddeutu 500 o ymweliadau y flwyddyn (o gymharu â 100 ar gyfer Hylendid Bwyd Anifeiliaid). Mae'r cyntaf yn bwysig o ran cynnal cyfanrwydd y gadwyn fwyd. Fodd bynnag, nid ystyrir bod yr incwm sy'n deillio o'r gwaith arolygu yn ddigonol i adennill y costau y mae'r gwaith yn ei olygu.

**Penderfynwyd derbyn adroddiad Archwiliad yr Asiantaeth Safonau Bwyd a nodi ei gynnwys.**

**GWEITHREDU: Y Pwyllgor i gael diweddariad ar gynnydd yn erbyn y Cynllun Gweithredu.**

**4. ARCHWILIO ALLANOL - LLYTHYR ARCHWILIO BLYNYDDOL**

Cafodd y Llythyr Archwilio Blynyddol ar gyfer 2014/15 ei gyflwyno i'r Pwyllgor a'i nodi ganddo.

Cadarnhaodd y Llythyr Archwilio'r canlynol -

- Bod Cyngor Sir Ynys Môn yn cydymffurfio â'i gyfrifoldebau o ran cyflwyno adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau.
- Bod Archwilydd Cyffredinol Cymru yn fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y defnydd o adnoddau.
- Bod Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi cyhoeddi tystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau ar 30 Medi, 2015.
- Nid oedd y gwaith a wnaed hyd yn hyn ar ardystio hawliadau a ffurflenni grant wedi nodi materion o bwys a fyddai'n effeithio ar gyfrifon 2015/16 neu systemau ariannol allweddol.

**DIM GWEITHREDU PELLACH**

**5. ARCHWILIO ALLANOL - TYSTYSGRIF CYDYMFFURFIAETH**

- Cyflwynwyd a nodwyd gan y Pwyllgor - Tystysgrif Cydymffurfiaeth Swyddfa Archwilio Cymru yn cadarnhau bod Cyngor Sir Ynys Môn wedi cyflawni ei ddyletswyddau dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 i gyhoeddi asesiad o'i berfformiad am 2014/15 cyn 31 Hydref, 2015 yn y flwyddyn ariannol.

- Cyflwynwyd y diweddariad ar Raglen Waith Perfformiad Archwilio Allanol ac fe'i nodwyd.

**DIM GWEITHREDU PELLACH**

**6. ADRODDIAD CYNNYDD ARCHWILIO MEWNOL**

Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor - adroddiad yr Adain Archwilio Mewnol ar waith y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn ystod y cyfnod o 1 Ebrill i 31 Hydref, 2015.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y wybodaeth a thynnodd sylw at y materion canlynol -

- Gan gyfeirio at dargedau perfformiad, nododd y Pwyllgor fod cynnydd wedi'i lesteirio gan lefel uwch na'r disgwyl o salwch yn y gwasanaeth a bod swydd wag wedi bod yn y Tîm (sydd, ers hynny, wedi cael ei llenwi). Ceisiodd y Pwyllgor sicrwydd bod gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol adnoddau staffio digonol i allu cyflawni ei ddyletswyddau, gan gynnwys y gwaith o gyflawni'r Cynllun Archwilio'n effeithiol ac a fyddai'n bosib petai raid, yn y tymor byr, droi at swyddog archwilio yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy fel y corff sy'n darparu'r swyddogaeth rheoli archwilio mewnol yn Ynys Môn.

  Dywedodd y Pennaeth Archwilio Mewnol nad oes modd rhagweld absenoldeb salwch ac o'r herwydd, mae'n anodd cynllunio ar ei gyfer. Nid bwriad y trefniant gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy oedd dod â swyddog i mewn i bontio'r bwlch a bod yn rhaid i'r adnoddau sydd eisoes ar gael yn y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn Ynys Môn gael eu rheoli mor effeithiol ag sy'n bosibl. Y mater ar gyfer y Pennaeth Archwilio Mewnol a Phennaeth Adnoddau yw a yw'r swyddogaeth Archwilio Mewnol yn Ynys Môn yn cael ei gyfarparu'n ddigonol i roi digon o sylw i weithgareddau ar Ynys Môn i ddarparu'r lefel o sicrwydd y gofynnir amdani ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r gwasanaeth yn ceisio cwrdd â gofynion y Cynllun Archwilio yn unol â'r mandad ond gall y sefyllfa newid, er enghraifft, oherwydd gwaith ychwanegol heb ei gynllunio; mae'n rhan o rôl y Pennaeth Archwilio Mewnol i sicrhau bod y lefel o sylw archwilio erbyn diwedd y flwyddyn yn ddigonol i ddarparu sail gadarn ar gyfer y farn am y lefel o sicrwydd y mae Archwilio Mewnol yn ei ddarparu.

  Dywedodd y Pennaeth Adnoddau a Swyddog Adran 151 fod angen i'r Swyddog Adran 151 ac Archwilio Allanol fod yn fodlon bod yr Uned Archwilio Mewnol yn gallu rhoi iddynt y lefel angenrheidiol o sicrwydd, fel arall bydd raid ystyried rhoi adnoddau ychwanegol i Archwilio Mewnol. Nid yw'r pwynt hwn wedi ei gyrraedd eto. Mae'r Gwasanaeth Cyllid wedi cyflogi cyfrifydd dan hyfforddiant sy'n treulio cyfnodau o waith yn holl adeiniau'r Adran Gyllid ac a fydd, fel rhan o'r rhaglen hyfforddi, yn symud yn o fuan i'r Adain Archwilio Mewnol yn fuan a thrwy hynny yn rhoi gwasanaeth ychwanegol.

- Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch i ba raddau y mae gwaith archwilio heb ei gynllunio yn ei gael ar Cynllun Archwilio ac effaith hynny, yn arbennig mewn perthynas â gwaith grantiau a amlinellir yn Atodiad B a gofynnodd a ddylai'r grantiau hyn gael eu ffactora i mewn i'r Cynllun Archwilio oherwydd eu bod yn rhai parhaus y gwyddys amdanynt ac nid yn rhai ad-hoc. Dywedodd y Rheolwr Archwilio fod y gwaith grant yn cynnwys gwaith a wnaed yn flaenorol gan yr Archwilwyr Allanol a bod y ffi weinyddol wedi'i chynnwys yn y grant. Dywedodd y Pennaeth Adnoddau a Swyddog Adran 151 fod y gwaith yn annisgwyl o ran ei amseriad; awgrymodd y Swyddog bod y Pwyllgor yn derbyn adroddiad yn amlinellu'r broses ar gyfer archwilio grantiau a sut y bodlonir disgwyliadau Swyddfa Archwilio Cymru a chytunwyd i hynny.

- Cyfeiriodd y Pwyllgor at y crynodeb o argymhellion archwilio a lefelau sicrwydd fel y cânt eu hamlinellu yn Atodiad D a'r negeseuon allweddol yn codi o hynny a gofynnodd am eglurhad ar y sefyllfa mewn perthynas ag argymhellion sy'n sy'n parhau i fod heb eu gweithredu. Dywedodd y Pennaeth Adnoddau a Swyddog Adran 151, o ran argymhellion sy'n ymwneud â'r Gwasanaeth Cyllid a nodir fel rhai sydd heb eu gweithredu, y bydd yr archwiliadau dilynol yn dangos y bydd llawer o'r rhain wedi cael eu gweithredu naill ai'n unol â'r argymhelliad neu mewn ffyrdd eraill a fydd yn mynd i'r afael â'r gwendidau a nodwyd. Mewn perthynas â dyledwyr, mae llawer iawn o waith wedi cael ei wneud i fynd i'r afael â'r mater hwn ac i leihau balans y dyledion drwy adennill dyledion neu ddileu'r rhai nad oes modd eu hadennill. Mae gwasanaethau bellach â gwybodaeth gywirach o lawer ar lefel

DRAFT

y dyledion yn eu gwasanaethau ac mae systemau megis debyd uniongyrchol a rhagdaliadau yn hwyluso’r broses o gasglu incwm yn brydlon.

- Nododd y Pwyllgor yr ystyrir bod Adfer ar ôl Trychineb a Pharhad Busnes TGCh yn parhau i fod yn feysydd lle mae lefel sicrwydd yn gyfyngedig ac fe’u nodwyd gan y Pwyllgor fel materion sy’n achosi pryder dro ar ôl tro. Roedd y Pwyllgor o'r farn y dylai yn awr ddefnyddio’i awdurdod i ddal Rheolwyr i gyfrif am yr ymateb annigonol i argymhellion Archwilio Mewnol i wella'r system o reolaethau yn y ddau faes hyn ac oherwydd y risgiau sy'n gysylltiedig, dylent hefyd gael eu tynnu sylw at sylw’r Uwch Dîm Arweinyddiaeth fel materion sydd angen sylw. Dywedodd y Rheolwr Archwilio y byddai'n ymdrechu i gwblhau'r archwiliadau dilynol ar Adfer ar ôl Trychineb a Pharhad Busnes TGCh mewn pryd ar gyfer y cyfarfod nesaf o’r Pwyllgor Archwilio ym mis Chwefror, 2016.

- Nododd y Pwyllgor y bernir bod y lefel sicrwydd ar gyfer Llywodraethu Gwybodaeth yn ddigonol ond bod y negeseuon allweddol o'r Adolygiad Blynyddol o Gydymffurfiaeth yn parhau i fod yn negyddol i raddau helaeth. Hysbyswyd y Pwyllgor bod cwmpas yr adolygiadau a gynhaliwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn 2012 a 2013/14 mewn perthynas â Llywodraethu Diogelu Data a Rheoli Cofnodion yn wahanol i'r adolygiad a gynhaliwyd gan Archwilio Mewnol a oedd yn edrych ar gydymffurfiaeth gyda’r polisïau presennol. Cyhoeddwyd rhybudd gorfodaeth SCG ar ôl cyhoeddi’r adroddiad ar yr adolygiad drafft gan yr Uned Archwilio Mewnol. Mae’r gwaith ar lywodraethu gwybodaeth, gan gynnwys mynd i'r afael â’r argymhellion sy'n ymwneud â'r rhybudd gorfodaeth ac argymhellion yr adolygiad Archwilio Mewnol yn cael ei gyflawni dan oruchwyliaeth bwrdd. Awgrymwyd a chytunwyd y dylai'r Pwyllgor dderbyn diweddariad ar faterion cydymffurfiaeth gyda gofynion Llywodraethu Gwybodaeth yn ei gyfarfod nesaf fel ei bod yn glir ble mae'r Awdurdod yn hyn o beth.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad cynnydd a nodi ei gynnwys.**

**CAMAU GWEITHREDU YN CODI:**

- **Bod yr archwiliadau dilynol mewn perthynas ag Adfer ar ôl Trychineb a Pharhad Busnes TGCh yn cael eu cyflwyno i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant.**
- **Dylid gofyn i'r Rheolwr Trawsnewid Busnes TGCh fynychu'r cyfarfod nesaf i roi gwybod i'r Pwyllgor am y cynnydd hyd yma mewn perthynas â’r ddau faes uchod.**
- **Rhoi gwybod i’r Uwch Dîm Arweinyddiaeth am bryder parhaus y Pwyllgor mewn perthynas ag Adfer ar ôl Trychineb a Pharhad Busnes TGCh fel meysydd risg uchel sydd angen sylw.**
- **Y dylid gofyn i Bennaeth Busnes y Cyngor ddiweddaru’r Pwyllgor yn ei gyfarfod nesaf ar y sefyllfa o ran cydymffurfio gyda gofynion Llywodraethu Gwybodaeth.**
- **Bod y Pennaeth Adnoddau a Swyddog Adran 151 yn darparu adroddiad ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor ar y broses mewn perthynas ag archwilio grantiau a sut y bodlonir disgwyliadau Swyddfa Archwilio Cymru.**

**7. ADOLYGU’R PROTOCOL ARCHWILIO MEWNOL**

Cyflwynwyd er ystyriaeth a sylw’r Pwyllgor - Adroddiad y Pennaeth Archwilio Mewnol yn cynnwys Protocol Archwilio Mewnol diwygiedig.

Adroddodd y Rheolwr Archwilio na fedrir gwella’r fframwaith rheolaeth fewnol neu ostwng y risgiau cysylltiedig hyd oni fydd argymhellion wedi cael eu gweithredu’n llawn. Mae Proses Dilyn i Fyny a Monitro i roi sicrwydd bod yr argymhellion y cytunwyd arnynt yn cael eu gweithredu o fewn yr amserlenni a nodwyd yn y Cynllun Gweithredu yn yr Adroddiad Terfynol wedi ei hamlinellu ym mharagraffau 10 a 11 o'r Protocol Archwilio Mewnol fel y'i cyflwynwyd. Mae'r gweithdrefnau Dilyn i Fyny ar gyfer sefydliadau (Cartrefi Henoed a Phlant, Canolfannau Gofal Dydd, Canolfannau Hamdden, Llyfrgelloedd, Amgueddfeydd ac ati) yr un fath ar wahân i archwiliadau ysgol sy'n cael eu hegluro ym mharagraff 6, tudalen 13 o'r Protocol.

DRAFT

O ran gwaith yr Uned Archwilio Mewnol ac yn benodol y Cynllun Gwaith Archwilio, nododd y Pwyllgor y byddai'n ddefnyddiol, wrth gymeradwyo'r Cynllun Archwilio, pe bai'n cael y cyfle yn gynharach yn y broses i roi mewnbwn, sef yn ystod y cyfnod sgopio, fel y gall fodloni ei hun bod y meysydd a nodwyd fel rhai problemus neu lle mae'r canfyddiadau'n awgrymu y dylid monitro'n fanylach y system o reolaethau mewnol sydd ei hangen yn cael eu cynnwys yn y Cynllun ac yn mynd i'r afael â'r anghenion sy'n codi.  Ar hyn o bryd mae'r cynllun gwaith yn cael ei gyflwyno fel "fait accompli." Dywedodd y Rheolwr Archwilio nad oedd y Cynllun Gwaith yn sefydlog ac y byddai'n dod â'r Cynllun Archwilio Strategol i'r Pwyllgor nesaf.

**Penderfynwyd derbyn y Protocol Archwilio Mewnol fel y'i cyflwynwyd.**

**Dim gweithredu pellach.**

**Y Cynghorydd R. Llewelyn Jones**
**Cadeirydd**

DRAFFT

# PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHIANT

## Cofnodion y cyfarfod arbennig a gynhaliwyd ar 18 Chwefror, 2016

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd John Griffith (Is-Gadeirydd) (Yn y Gadair)<br><br>Cynghorwyr Jim Evans, Richard Owain Jones,<br>Alun W.Mummery, Peter Rogers, Dafydd Rhys Thomas.<br><br>Aelodau Lleyg: Mrs Sharon Warnes, Mr Richard Barker |
| **YN BRESENNOL:** | Pennaeth Adnoddau a Swyddog Adran 151<br>Cyfrifydd Cyfalaf a Rheoli'r Trysorlys (GR)<br>Pennaeth Archwilio a Chaffael (MH)<br>Rheolwr Archwilio (SP)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd R. Llewelyn Jones |

---

**1. DATGAN DIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

**2. DATGANIAD AR STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS 2016/17**

Cyflwynwyd er ystyriaeth a chymeradwyaeth y Pwyllgor - adroddiad y Pennaeth Adnoddau a'r Swyddog Adran 151 yn ymgorffori'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2016/17

Adroddodd y Pennaeth Adnoddau fod y Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys sy'n cynnwys y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol, y Datganiad Polisi ar y Ddarpariaeth Refeniw Isaf blynyddol, y Datganiad Polisi blynyddol ar Reoli'r Trysorlys a'r Cynllun Dirprwyo ar gyfer Rheoli'r Trysorlys Dirprwyo yn rhan annatod o'r gwaith papur sydd i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Sir fel rhan o'r broses o fabwysiadu Cyllideb 2016/17. Rhan allweddol o weithgaredd rheoli trysorlys yw sicrhau bod llif arian y Cyngor yn cael ei gynllunio yn ddigonol a bod arian parod ar gael pan fydd ei angen. Ail brif swyddogaeth y gwasanaeth rheoli'r trysorlys yw cyllido cynlluniau cyfalaf y Cyngor; mae'r rhain yn rhoi arwydd o'r swm y bydd angen i'r Cyngor ei fenthyca, sef, i bob pwrpas, cynllunio llif arian ar gyfer y tymor hwy i sicrhau bod y Cyngor yn gallu bodloni ei rwymedigaethau o safbwynt gwariant cyfalaf. (Roedd manylion cynlluniau gwariant cyfalaf y Cyngor ar gael dan y tabl ym mharagraff 2 yr adroddiad).

Dywedodd y Pennaeth Adnoddau wrth y Pwyllgor na fu unrhyw newidiadau sylweddol i'r polisïau sydd wedi'u cynnwys o fewn y Strategaeth o gymharu â'r rhai a gyflwynwyd yn y flwyddyn flaenorol. Mae ymgynghorwyr rheoli trysorlys allanol y Cyngor – Capita Asset Services - wedi cadarnhau bod y Datganiad ar y Strategaeth yn adlewyrchu sefyllfa'r Cyngor ac yn cydymffurfio â Chod Ymarfer CIPFA ar gyfer Rheoli Trysorlys. Yna, aeth y swyddogr hagddo i ymhelaethu ar yr elfennau allweddol canlynol yn y Strategaeth, eu harwyddocâd a dull gweithredu'r Cyngor mewn perthynas â phob un -

- Y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys (sut bydd y buddsoddiadau a'r benthyciadau yn cael eu trefnu) gan gynnwys dangosyddion rheoli'r trysorlys;
- Strategaeth Fuddsoddi (y paramedrau o ran sut y bydd buddsoddiadau'n cael eu rheoli)

- Polisi ar y Ddarpariaeth Refeniw Isaf (MRP) (sut mae gwariant cyfalaf gweddilliol yn cael ei godi ar refeniw dros gyfnod o amser)
- Datganiad Polisi Rheoli Trysorlys (diffiniad o bolisïau ac amcanion y swyddogaeth rheoli trysorlys)
- y cynlluniau cyfalaf (gan gynnwys y dangosyddion darbodus cysylltiedig)

Cafodd y Pwyllgor gyfle i ofyn cwestiynau i'r Swyddog mewn perthynas â'r Strategaeth a gofynnodd am eglurhad ar bwyntiau penodol gan gynnwys darpariaethau o fewn cynlluniau gwariant cyfalaf y Cyngor a'u goblygiadau refeniw. Yn seiliedig ar yr adroddiad ysgrifenedig a chyflwyniad llafar y Swyddog, nododd y Pwyllgor y canlynol:

- Bod rhaglenni cyfalaf cyffredinol y Cyngor yn cael eu cyfyngu i'r hyn sy'n fforddiadwy, a hynny o ran gwariant gwirioneddol a goblygiadau refeniw.
- O ran benthyca, mae'r Cyngor yn cymryd ymagwedd ddarbodus ac ar hyn o bryd mewn sefyllfa o dan-fenthyca.
- Na fydd y Cyngor yn benthyca mwy nag sydd ei angen nac ychwaith yn benthyca cyn i'r angen godi dim ond er mwyn elwa o fuddsoddi'r symiau ychwanegol a fenthycwyd.
- O ran y potensial i gynhyrchu arbedion drwy newid o ddyledion tymor hir i ddyledion tymor byr, mae adolygiad diweddar o aildrefnu dyled wedi dangos y byddai'n costio mwy i'r Cyngor aildrefnu dyledion nag y byddai'n ei arbed mewn llog sy'n ddyledus oherwydd y premiymau mawr y mae BBGC yn eu codi am ad-dalu dyledion yn gynnar.
- Bod polisi buddsoddiad y Cyngor yn cymryd i ystyriaeth y canllawiau perthnasol a'i flaenoriaethau buddsoddi fydd diogelwch yn gyntaf, hylifedd yn ail ac yna dychweliadau.
- Nid oes gan yr Awdurdod ar hyn o bryd Arferion Rheoli Trysorlys (TMPs) ar bapur. Mae'r Pwyllgor yn argymell, felly, fod y mater hwn yn cael ei ddatrys yn ystod 2016/17 er mwyn sicrhau bod yr Awdurdod yn cydymffurfio gyda'r ymarfer a argymhellir gan CIPFA o ran Rheoli'r Trysorlys.

  Derbyniodd y Pwyllgor y Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r polisïau a gyflwynwyd fel rhai sy'n adlewyrchu sefyllfa'r Cyngor ac fel rhai sy'n cynrychioli ymagwedd ddoeth i'r sefyllfa a'r rhagolygon economaidd ehangach.

**Penderfynwyd -**

- **Nodi cynnwys yr adroddiad eglurhaol.**
- **Cymeradwyo'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys (gan gynnwys y Dangosyddion Darbodus a Rheoli'r Trysorlys) [Atodiad A] ar gyfer 2016/17.**
- **Argymell i'r Pwyllgor Gwaith bod camau'n cael eu cymryd i sicrhau bod Arferion Rheoli Trysorlys yr Awdurdod yn cael eu dogfennu yn unol â'r ymarfer a argymhellir gan CIPFA o safbwynt Rheoli Trysorlys ac yn cael eu cyflwyno ar y cyfle cyntaf i'r pwyllgorau perthnasol yn unol â'r Cynllun Dirprwyo arfaethedig ar gyfer Rheoli Trysorlys yn 2016 / 17.**

**DIM CAMAU PELLACH YN CODI**

**Y Cynghorydd John Griffith**
**(Cadeirydd)**

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU** |
| **Dyddiad:** | **15 Mawrth, 2016** |
| **Pwnc:** | **GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH – Rôl y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu wrth adolygu partneriaethau** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cyng Alwyn Rowlands, Aelod Portffolio (Trawsnewid, Perfformiad, Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau Dynol)** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Annwen Morgan, Prif Weithredwr Cynorthwyol** |
| **Awduron yr Adroddiad:**<br>Ffôn:<br>E-bost: | **Anwen Davies, Swyddog Effaith Iechyd a Gofal Cymdeithasol**<br>**AnwenDavies@ynysmon.gov.uk (01248 752578)**<br>**Julie Jones, Rheolydd Risg**<br>**JulieJones@ynysmon.gov.uk (01248 752609)** |
| **Aelodau Lleol:** | **Ddim yn Berthnasol** |

**A – Argymhelliad / Argymhellion a Rheswm / Rhesymau**

**1. CEFNDIR/CYD-DESTUN**

**1.1** Mae gweithio mewn partneriaeth wedi dod yn rhan annatod o arferion gwaith Awdurdodau Lleol ac mae tystiolaeth bod hyn wedi arwain at ddatblygu perthynas o ymddiriedaeth a galluogi datblygu fframweithiau cadarn i sicrhau canlyniadau cadarn ar gyfer ein cwsmeriaid, dinasyddion a chymunedau. Er y gall gweithio mewn partneriaeth ddod â manteision sylweddol, yn gallu ymateb i heriau cymhleth ac yn darparu hyblygrwydd, arloesedd ac adnoddau ychwanegol wrth ddarparu gwasanaethau, nid yw'n hawdd ac yn gallu cario risgiau sylweddol (yn gysylltiedig yn aml â chymhlethdod ac amwysedd) oni bai y cyflawnir hwy drwy fframwaith llywodraethu cadarn;

**1.2** Gwelwyd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2014/15[1] yn crynhoi ein trefniadau llywodraethu partneriaethol fel **mater llywodraethu sylweddol**:

*"…. Nid oes gan y Cyngor Fframwaith Partneriaeth ffurfiol yn ei le i roi sicrwydd bod gan yr holl bartneriaethau drefniadau llywodraethu, rheoli a pherfformiad yn eu lle i gwrdd â'u hamcanion datganedig a'u bod yn rhoi gwerth am arian mewn perthynas ag adnoddau ariannol ac eraill y Cyngor y buddsoddwyd ynddynt…."*

Bu i Swyddfa Archwilio Cymru ddod i gasgliad yn yr Adroddiad Asesiad Corfforaethol[2] bod y Cyngor yn chwarae rôl amlwg mewn gweithgarwch ar y cyd ac yn cyfrannu'n dda at waith partneriaethol. Mae cydweithio a gweithio mewn partneriaeth ar bob lefel (lleol i ryngwladol) yn hanfodol i alluogi'r Cyngor i gyflawni

[1] Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2014/15 (dyddiedig Mai, 2015)
[2] Adroddiad Gwella Blynyddol 2014/15 (cynnwys Adroddiad Asesu Corfforaethol 2015), Swyddfa Archwilio Cymru Rhagfyr, 2015

ar ei fuddsoddiad uchelgeisiol a chreu swyddi newydd;

**1.3** Cwblhawyd adroddiad yn ddiweddar gan yr Uned Archwilio Mewnol ar drefniadau llywodraethu ein gwaith partneriaethol[3] sy'n cynnig gyrrwr i symud ymlaen ar rai meysydd datblygu allweddol. Bydd hyn felly'n galluogi'r Cyngor i ddatblygu ymhellach ar ei ymagwedd gorfforaethol at bartneriaethau (strategol a gweithredol, mewnol ac allanol). 'Roedd 6 argymhelliad yn gynwysiedig yn yr adroddiad awdit sydd wedi'u crynhoi ym mharagraff 3 isod.

**2. ALINIAD GYDA BLAENORIAETHAU STRATEGOL Y CYNGOR**

**2.1** Manylir ar gynlluniau gwella'r Awdurdod dros dymor y Cyngor presennol hyd at 2017 yn ein Cynllun Corfforaethol[4] a'r Cynllun Trawsnewid[5] cysylltiedig. Un o brif amcanion y Cyngor ydy ymrwymo i ddatblygu partneriaethau er mwyn darparu gwasanaethau effeithiol ac effeithlon sydd o ansawdd da ac yn cael eu gwerthfawrogi;

**2.2** Mae ein Hunan Asesiad[6] yn datgan i bartneriaeth a chydweithio fod yn rhan annatod o'r ffordd mae'r Cyngor yn ceisio cyflawni ei uchelgais a'i raglen drawsnewid. Ar gyfer Cyngor o'r maint, mae'n ffordd bwysig o adeiladu capasiti ac yn syflaenol i'n dulliau o gyflawni ar gyd flaenoriaethau. 'Rydym yn credu bod gweithio mewn partneriaeth llwyddiannus yn hanfodol i ddarparu gwasanaethau gwell i'n cwsmeriaid a hefyd i Ynys Môn llwyddiannus. Yn gynyddol, bydd ein llwyddiant fel Cyngor yn cael ei werthuso ar sail pa mor dda'r ydym yn gweithio gydag eraill i wella llesiant ein dinasyddion.

Mae ein gwaith trawsnewid dros y 2 flynedd diwethaf wedi gwella ein statws o fewn y teulu Cynghorau yng Nghymru ac 'rydym bellach yn chwarae rhan lawn mewn gwaith partneriaethol oddi mewn i'r fframwaith hwnnw.

**3. SGÔP Y FFRYDIAU GWAITH PARTNERIAETHOL**

Bydd ein ffrydiau gwaith partneriaethol yn cwmpasu'r elfennau a ganlyn:

**3.1** Datblygu dogfen bolisi partneriaethau [**polisi**]

**3.2** Datblygu teclyn partneriaethau fydd yn cynnig canllawiau ar gyfer sefydlu a datblygu partneriaethau [**teclyn**]

**3.3** Llinio cofrestr gorfforaethol, ganolog o bartneriaethau [**cofrestr**]

**3.4** Datblygu trefniadau monitro ar gyfer partneriaethau er mwyn cadw golwg ar ddeilliannau a materion cyllidol [**monitro ac adrodd ar berfformiad**]

**3.5** Sefydlu rôl y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu mewn perthynas ag adolygu trefniadau llywodraethu partneriaethau gan gynnwys cadw golwg ar gofrestrau risg [**sicrwydd a rheoli risgiau**]

**3.6** Cynnal adolygiad blynyddol o'r partneriaethau allweddol [**adolygiad blynyddol**].

[3] Adroddiad Archwilio Mewnol : Partneriaethau – Trefniadau Llywodraethu 003.15/16 (Chwefror, 2016)

[4] Cynllun Corfforaethol Cyngor Sir Ynys Môn 2013-2017

[5] Cynllun Trawsnewid Cyngor Sir Ynys Môn

[6] Adroddiad Hunan Asesiad Cyngor Sir Ynys Môn Ionawr, 2015

## 4. DOGFEN BOLISI – GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH

**4.1** Mae gan y Cyngor brofiad helaeth o weithio mewn partneriaeth boed hynny'n lleol, rhanbarthol neu genedlaethol[7].

**4.2** Mae'r ddogfen bolisi (**ATODIAD 1**)[8] yn crynhoi gweledigaeth y Cyngor ar gyfer gweithio mewn partneriaeth ac yn canolbwyntio ar bartneriaethau ble mae'r Cyngor yn dewis cydweithio gyda chyrff eraill yn y sectorau preifat, cyhoeddus neu wirfoddol. Nid yw'n ystyried y cysylltiadau a wneir drwy'r broses gaffael. Mae'r polisi'n ychwanegu at y datganiadau partneriaethau unigol sydd eisoes mewn bodolaeth ee Compact Ynys Môn (cytundeb partneriaeth gyda'r Sector Gwirfoddol), Siarter Gymunedol ar y cyd gyda'r Cynghorau Tref a Chymuned ar Ynys Môn.

## 5. RÔL Y PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU

**5.1** Mae un o'r ffrydiau gwaith partneriaethol yn cynnwys sefydlu rôl y Pwyllgor hwn wrth adolygu trefniadau llywodraethu partneriaethau – hyn i gynnwys trosolwg o gofrestrau risg yn gysylltiedig â'r prif bartneriaethau allweddol;

**5.2** Mae paragraff 3.4.8.3 o Gyfansoddiad y Cyngor yn diffinio cyfrifoldeb y Pwyllgor hwn am adolygu trefniadau rheoli risg yr Awdurdod gyda pharagraff 3.4.8.3.4 yn nodi'n benodol:

*"Adolygu proffîl risg y Cyngor a'r sicrwydd bod camau'n cael eu cymryd ar faterion yn gysylltiedig â risg, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â phartneriaethau arwyddocaol."*

Nid yw rôl y Pwyllgor hwn felly'n cynnwys adolygu cyfraniad a deilliannau'r partneriaethau ond yn hytrach sicrhau bod partneriaethau allweddol yn rheoli risg yn ddigonol;

**5.3** Wrth weithio mewn partneriaeth mae yna risgau i'r Cyngor a'i wasanaethau ac mae'n hanfodol bod y Cofrestrau Risg Gwasanaeth a hefyd y Gofrestr Risg Gorfforaethol yn ystyried ac yn nodi'r risgiau rheiny;

**5.4** Yn ogystal, bydd gan bartneriaethau unigol risigau eu hunain. Mae'n hanfodol bod trefniadau llywodraethu'r bartneriaeth yn nodi sut bydd unrhyw risgiau'n cael eu nodi a'u hadrodd i'r Cyngor ac i aelodau eraill y bartneriaeth. Tra bydd y teclyn partneriaethol yn argymell i bartneriaethau ddefnyddio ffurf cofrestr risg a system sgorio'r Cyngor, nid yw'n bosibl gorfodi hyn gan fydd gan aelodau eraill y bartneriaeth drefniadau eu hunain;

**5.5 Camau Nesaf**: y bwriad wrth symud ymlaen felly fydd dilyn y camau canlynol:

- Adnabod y partneriaethau sy'n allweddol i'r Cyngor;
- Sicrhau bod y risgiau i'r Cyngor o fod ynghlwm wrth bartneriaeth wedi'u cynnwys yn ein cofrestrau risg gwasanaeth a chorfforaethol;
- Bod cofrestr risg addas mewn lle ar gyfer pob un o'r partneriaethau allweddol;
- Sicrhau bod y risgiau sylweddol a'r rheolaeth ohonynt yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor hwn.

[7] Adroddiad Gwella Blynyddol 2014/15 (cynnwys Adroddiad Asesu Corfforaethol 2015), Swyddfa Archwilio Cymru Rhagfyr, 2015
[8] I'w mabwysiadu gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 14/03/16

Bwriedir adrodd ar y risgiau i'r Cyngor o fod yn rhan o'r partneriaethau i'r Pwyllgor hwn a hynny fel rhan o'r drefn gyfredol o adrodd a rheoli risg. Mae'r drefn gyfredol yn cynnwys un adroddiad ar y broses risg ar gychwyn pob blwyddyn a dau adroddiad pellach yn ystod y flwyddyn ar y risgiau corfforaethol. Cynigir felly i'r adroddiad blynyddol gynnwys rhan benodol ar y broses ynghylch partneriaethau a bod adroddiad penodol ar risgiau i'r partneriaethau'n cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor hwn cyn diwedd bob blwyddyn ariannol.

**6. ARGYMHELLION**

Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu dderbyn y:

**6.1** Cyfrifoldeb mewn perthynas â risg yn gysylltiedig â'r prif bartneriaethau allweddol;
**6.2** Drefn ac amserlen o adrodd i'r Pwyllgor ar risg yn gysylltiedig â'r prif bartneriaethau allweddol.

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a / neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Ddim yn Berthnasol. |

| **C – Pam mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Ddim yn Berthnasol. |

| **CH – A ydy'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydy. |
| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
| Dim yn hysbys. |

| **DD – Pwy wnaethoch chi ymgynghori â nhw?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (gorfodol) | Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn ei gyfarfod ar 22/02/16 ac mae'r sylwadau wedi'u ymgorffori yn y fersiwn derfynol. |
| **2** | **Cyllid / Adain 151** (gorfodol) | Cyfranodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog A151 fel aelod o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth. |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (gorfodol) | |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Sgriwtini** | Bydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac |

| | | |
|---|---|---|
| | | Adfywio (12/04/16) yn ystyried cadernid y Ddogfen Bolisi ynghyd â rôl gan Sgriwtini wrth fonitro partneriaethau. |
| **8** | **Aelodau Lleol** | Ddim yn Berthnasol |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / arall / eraill** | |

| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldeb** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

| **F – Atodiadau:** |
|---|
| Dogfen Bolisi – Gweithio mewn Partneriaeth (**Atodiad 1**) |

| **FF – Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awduron yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| Anwen Davies, Swyddog Effaith Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Julie Jones, Rheolydd Risg, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni.  LL77 7TW |

# GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH

# DOGFEN BOLISI

Lluniwyd y polisi hwn o fewn cyd-destun y dogfennau canlynol gan Gyngor Sir Ynys Môn:

1. Teclyn partneriaethau (yn cynnig canllawiau ar gyfer sefydlu a datblygu partneriaethau)
2. Cofrestr gorfforaethol, ganolog o bartneriaethau
3. Trefniadau monitro partneriaethau (er mwyn cadw golwg ar ddeilliannau a materion cyllidol)
4. Trefniadau adolygu blynyddol o bartneriaethau allweddol.

Ionawr, 2016
[Fersiwn 6, 24/02/16]

# Cynnwys


| | Tudalen |
|---|---|
| **1. Cyflwyniad a chyd-destun** | **3** |
| **2. Diffiniad o bartneriaeth** | **3** |
| **3. Pam gweithio mewn partneriaeth?** | **4** |
| **4. Meini prawf ar gyfer dewis partneriaethau** | **4** |
| **5. Cadw at bolisiau'r Cyngor** | **5** |
| **6. Trefniadau llywodraethu a rheoli perfformiad** | **5** |

**ATODIAD**

| | |
|---|---|
| Cynllun Corfforaethol: themau a blaenoriaethau | **Atodiad 1** |

## 1. Cyflwyniad a chyd-destun

Mae gan Gyngor Sir Ynys Môn brofiad helaeth o weithio mewn partneriaeth boed hynny'n lleol, rhanbarthol neu'n genedlaethol[1]. Gyda phwysau cynyddol ar arian cyhoeddus, mae'n hanfodol fod y Cyngor yn sicrhau bod canllawiau clir mewn lle ar gyfer penderfynu pa bryd y dylid sefydlu partneriaeth, pa wasanaeth(au) a deilliannau y disgwylir o unrhyw bartneriaeth a bod rheolaeth gadarn o'r berthynas er mwyn:

- ein galluogi i gyflawni ar ein Cynllun Corfforaethol a blaenoriaethau strategol **(Atodiad1)**. Hefyd, i wella'r profiad a chanlyniadau i unigolion sy'n defnyddio ein gwasanaethau
- tystioli gwerth am arian neu gost effeithlonrwydd yn ein buddsoddiadau i'r dyfodol a sicrhau deilliannau clir a mesuradwy
- ymateb i risgiau partneriaethol a sicrhau bod meysydd datblygu'n cael sylw
- cael eglurder ynghylch atebolrwydd a threfniadau monitro
- adnabod unrhyw sgôp i resymoli partneriaethau a bod trefn glir ar gyfer dod ag unrhyw drefniadau i ben.

Mae'r ddogfen hon yn canolbwyntio ar bartneriaethau ble mae'r Cyngor yn dewis cydweithio gyda chyrff eraill yn y sectorau preifat, cyhoeddus neu wirfoddol. Nid yw'n ystyried y cysylltiadau a wneir drwy'r broses gaffael[2].

Mae'r polisi hwn felly'n crynhoi gweledigaeth y Cyngor ar gyfer gweithio mewn partneriaeth ac yn ychwanegu at y datganiadau partneriaethau unigol sydd eioses mewn bodolaeth ee Compact Ynys Môn (cytundeb partneriaeth â'r Sector Gwirfoddol), Siarter Gymunedol ar y cyd gyda'r Cynghorau Tref a Chymuned ar Ynys Môn.

## 2. Diffiniad o bartneriaeth

Mae'r term partneriaeth yn cael ei ddefnyddio fwyfwy yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol ac felly iddo lawer o ddiffiniadau. Yng nghyswllt y ddogfen bolisi hon, diffinir partneriaeth fel:

**Trefniant cydweithio lle mae'r partneriaid yn gyrff annibynnol, yn cytuno i gydweithio i gyrraedd nod cyffredin o wydnwch cymunedol ac i gyflawni hynny, yn creu strwythur neu broses sefydliadol a rhaglen y cytunwyd arni.**

Felly, bydd partneriaeth yn drefniant o gydweithio a all gynnwys unrhyw un neu fwy o'r elfennau canlynol ble mae partneriaid yn:

- cytuno i gydweithio er mwyn cyflawni amcanion a deilliannau cyffredin i'r gymuned
- sefydlu strwythur newydd i gyflawni amcanion a deilliannau, a rheiny ar wahân i'w sefydliad eu hunain os oes angen
- cynllunio a gweithredu rhaglen a gytunwyd ar y cyd, yn aml gyda staff a/neu adnoddau ar y cyd
- rhannu atebolrwydd, gwybodaeth, risgiau a manteision
- o bosibl yn ofynnol gan statud i ddod at ei gilydd i ddibenion cydweithio.

Mae cydweithio'n disgrifio'r broses o greu perthynas gyda chyflenwr(wyr) yn y sectorau cyhoeddus, preifat, gwirfoddol neu fenter cymdeithasol er mwyn darparu gwasanaethau, cynnal prosiectau neu sicrhau cyflenwadau ac offer. Mae'r manteision yn cynnwys cynllunio gwell, gwasanaethau integredig ar gyfer cwsmeriaid, mynediad at sgiliau prin neu newydd, arbedion maint, manteision cymunedol neu fanteision drwy fuddsoddiad ar y cyd er enghraiffit creu swyddi neu effeithiau cadarnhaol eraill ar yr economi leol.

Ar sail y diffiniad hwn o bartneriaeth, rhestrir y partneriaethau allweddol y mae'r Cyngor yn rhan ohonynt mewn cofrestr gorfforaethol, ganolog ac adolygir y gofrestr honno'n flynyddol **(mae'r Gofrestr gyfredol ar safle We'r Cyngor).**

[1] Adroddiad Gwella Blynyddol 2014/15 (cynnwys Adroddiad Asesu Corfforaethol 2015), Swyddfa Archwilio Cymru Rhagfyr, 2015

[2] Amgylchiadau ble byddai'r Cyngor yn cynnig cyfle i ystod o gyrff neu unigolion ddarparu eu gwasanaeth ar gyfer pwrpas penodol drwy broses gystadleuol gyda'r Cyngor yn dewis un darparwr ac yn cadarnhau'r trefniadau drwy gytundeb

**3. Pam gweithio mewn partneriaeth?**

Mae angen bod yn hollol glir o dan ba amgylchiadau mae'n briodol i'r Cyngor weithio mewn partneriaeth ag eraill a bod hynny'n cael ei ystyried mewn modd gwbl dryloyw – drwy ei fesur yn erbyn nifer o feini prawf.

Mae yna nifer o resymau pam fod gweithio mewn partneriaeth o fantais i'r Cyngor a chymunedau Môn:

I. **Cynllunio'n strategol** – mae rhai meysydd yn ymestyn y tu hwnt i ffiniau cynghorau lleol unigol a gall fod yn fanteisiol i nifer o gynghorau (ac o bosibl cyrff eraill hefyd) gydweithio er mwyn cael mwy o ddylanwad. Er enghraifft:
- Cynghorau Gogledd Cymru'n cydweithio gyda'r Colegau Addysg Bellach oherwydd bod eu talgylchoedd hwy yn llawer ehangach nag unrhyw gyngor unigol
- Cynghorau'r Gogledd yn cydweithio gyda phartneriaid strategol i sicrhau twf economaidd drwy ganolbwyntio ar isadeiladwaith, addysg a sgiliau a'r gadwyn gyflenwi (Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru)
- Cynghorau Sir Ynys Môn a Gwynedd yn cydweithio i sefydlu bwrdd gwasanaethau lleol ac uned bartneriaeth ar gyfer y Gogledd Orllewin er mwyn darparu cefnogaeth strategol ar draws nifer o bartneriaethau.

II. **Rhannu adnoddau ac arbenigedd** – mae rhai meysydd yn arbenigol ac yn fanteisiol i gyrff cyhoeddus weithio ar y cyd a rhannu adnoddau ac arbenigedd yn hytrach na gweithio ar wahân. Er enghraifft:
- Mae codi safonau yn ein hysgolion yn gofyn am gymorth arbenigol ac yn faes anodd i'r Cyngor gyfiawnhau creu adnodd penodol ar ei gyfer oherwydd bod natur y gwaith yn newid yn gyson gyda gwahanol ysgolion angen cymorth gwahanol yn achlysurol. Gweler awdurdodau lleol y Gogledd felly'n derbyn gwasanaeth arbenigol gan wasanaeth rhanbarthol[3]
- Mae rhai agweddau yn y maes Cynllunio[4] ble mae'n briodol i rannu adnoddau gyda chynghorau cyfagos. O ganlyniad, mae uned bolisi cynllunio ar y cyd wedi'i datblygu gyda Chyngor Gwynedd i gyflawni ar y dyletswyddau hyn.

III. **Gweithio ar draws sectorau** – mae'n hanfodol bod y Cyngor yn gweithio'n effeithiol ar y cyd gyda phartneriaid er mwyn darparu gwasanaeth o safon uchel i drigolion yr Ynys. Er enghraifft:
- Gwasanaethau wedi'u cynllunio ar y cyd yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol. I'r diben hwn, mae'r Cyngor yn cydweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr er mwyn sicrhau gofal cydlynus i unigolion sydd angen cefnogaeth.

IV. **Cyd-weithio'n lleol** – mae yna gyrff cenedlaethol sydd â chyfrifoldebau ar Ynys Môn megis Cyfoeth Naturiol Cymru, Gwasanaeth Prawf Cymru. Yn ogystal, mae yna gydweithio lleol eisoes yn digwydd drwy nifer o rwydweithiau fel Pwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol, Bwrdd Ymgysylltu ac Ymgynghori a'r Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned. Ble mae ein diddordebau'n cyd-fynd a ble mae cyfleoedd i gyd-weithio, mae'n gwneud synnwyr i ni weithio gyda'n gilydd er mwyn gwneud y defnydd gorau o gyllid cyhoeddus.

**4. Meini prawf ar gyfer dewis partneriaethau**

Wrth ystyried a ydym am weithio mewn partneriaeth gyda chyrff eraill, mae'n bwysig ein bod yn ystyried pob cais neu gyfle a hynny'n erbyn nifer o feini prawf. Gyda'r cyfyngiadau a phwysau ar gyllid cyhoeddus yn dwyshau, ni ddylid parhau gyda phartneriaethau oherwydd eu bod wedi bodoli'n hanesyddol. Rhaid bod yn glir pam 'rydym am barhau gydag unrhyw bartneriaeth gan sicrhau ein bod yn gweithio gyda'r cyrff mwyaf briodol. Felly, dylid mesur unrhyw bartneriaeth yn erbyn cyfres o Feini Prawf:

[3] GwE- Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Gogledd Cymru
[4] Er engraifft creu Cynllun Datblygu Lleol

A. **Nod** - rhaid bod yn glir beth ydy pwrpas unrhyw bartneriaeth. Dylid sicrhau bod unrhyw weithgaredd yn cyd-fynd â chyfeiriad Cynllun Corfforaethol y Cyngor gan gyfrannu at y blaenoriaethau sydd wedi'u hadnabod a'u cadarnhau gan y Cyngor Sir.

B. **Gwerth am Arian** – yn faincnod pwysig o ran sefydlu neu benderfynu i barhau gyda'r rhan fwyaf o bartneriaethau. Fodd bynnag, bydd rhai amgylchiadau ble bydd meini prawf eraill yn bwysicach er enghraifft sicrhau gwydnwch cymunedol. Mewn amgylchiadau fel hyn, dylid egluro hynny'n glir yn y dogfennau sy'n gofyn am ganiatâd i sefydlu partneriaeth.

C. **Gwydnwch** – mae'n hanfodol bwysig fod gwasanaethau yn wydn yn enwedig felly os ydynt yn cynnig gwasanaethau i'r cyhoedd. Dylai unrhyw bartneriaeth felly sicrhau bod eu cyfraniad yn cael ei gyflawni mewn modd sy'n cryfhau gallu'r Cyngor i gynnig gwasanaethau o ansawdd ac mewn modd dibynadwy i ddefnyddwyr gwasasnaethau.

D. **Cael mynediad at grantiau** – mae nifer cynyddol o grantiau erbyn hyn yn ei gwneud hi'n hanfodol i gyrff weithio mewn partneriaeth, er engrhaifft Llywodraeth Cymru, Ewrop a chyrff eraill. Fodd bynnag, nid yw'r ffaith fod yna grant ar gael bob tro'n reswm digonol ar ei ben ei hunan i sefydlu neu ymrwymo i bartneriaeth. Yn aml, mae yna oblygiadau hir dymor i dderbyn grantiau megis – yr angen am adnoddau i gynnal y buddsoddiad gwreiddiol, oblygiadau i'r gweithlu sy'n ymwneud yn uniongyrchol â chynllun wedi'i ariannu drwy grant. Mae'n hanfodol bwysig felly bod unrhyw bartneriaeth o'r fath yn gallu tystioli sut y mae'n cyfrannu at y meini prawf eraill sef nôd, gwerth am arian a gwydnwch.

E. **Gwerth ychwanegol** - mae yna fanteision ehangach hefyd i weithio mewn partneriaeth drwy ddod ynghyd yr wybodaeth ac arbenigedd lleol, defnyddio dulliau newydd o weithio a rhannu adnoddau ac arferion da er mwyn cael y gwerth gorau o'r arian 'rydym yn wario. Mae'n bwysig ein bod yn annog mudiadau i edrych ar beth mae cyrff eraill yn eu cynnig ac adnabod ffyrdd i gydweithio'n y ffordd fwyaf effeithlon er mwyn datblygu gwydnwch cymunedol.

## 5. Cadw at bolisiau'r Cyngor

Dylid sicrhau bod unrhyw bartneriaeth naill ai'n mabwysiadu polisïau'r Cyngor, yn mabwysiadu polisïau cyffelyb gan bartneriaid eraill neu'n datblygu polisïau sydd yn gydnaws â rhai'r Cyngor Sir. Yn arbennig, dylid sicrhau bod unrhyw bartneriaeth yn glynu wrth y polisïau canlynol:

- Strategaeth Gydraddoldeb
- Safonau'r Gymraeg
- Iechyd a Diogelwch
- Llywodraethu Gwybodaeth
- Diogelu
- Gweithlu
- Datganiad Llesiant[5]

## 6. Trefniadau llywodraethu a rheoli perfformiad

Unwaith mae'r Cyngor wedi penderfynu sefydlu neu barhau mewn partneriaeth, gan ddangos yn glir sut mae'r meini prawf wedi'u hystyried, rhaid sicrhau bod trefniadau Llywodraethu a Rheoli Perfformiad yn gadarn yn eu lle a hynny cyn i'r gwaith gychwyn neu mewn amgylchiadau arbennig, o fewn 2 fis i bartneriaeth gael ei ffurfio.

Dylid sicrhau bod yr elfennau canlynol yn eu lle:

**I.** **Cytundeb** – rhaid cael dogfen sy'n amlinellu'n glir yr holl bartneriaid, beth yw nôd y bartneriaeth a pha wasanaeth(au) sy'n cael eu cynnig. Gall hyn fod yn Gytundeb,

[5] Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Cytundeb Lefel Gwasanaeth neu Femorandwm o Gyd-ddealltwriaeth yn ddibynnol ar natur y bartneriaeth.

**II.** **Deilliannau clir a mesuradwy** – dylid bod yn glir o'r cychwyn pa ddeilliannau dylid eu disgwyl o waith unrhyw bartneriaeth. Ar gyfer partneriaethau sy'n bwydo mewn i Ddeilliannau Perfformiad y Cyngor neu rai a gesglir yn genedlaethol, dylid sicrhau bod y geiriad a'r modd o gasglu'r data'n gyson â'r canllawiau sydd ar gael ar gyfer y math yma o weithgaredd.

**III.** **Adnoddau ac ariannu** – fel rheol, bydd disgwyliad ar y Cyngor i gyfrannu at bartneriaeth boed hynny drwy staff, cyfraniad ariannol neu drwy fynychu cyfarfodydd i roi mewnbwn i'r gwaith. Dylid gosod y disgwyliadau hyn yn hollol glir cyn cytuno i gymryd rhan mewn unrhyw bartneriaeth. Mae'n bosib gall disgwyliadau partneriaeth newid dros amser ac bydd angen adolygu trefniadau'r bartneriaeth pe bai hynny'n digwydd, er mwyn cytuno i unrhyw newidiadau.

**IV.** **Llywodraethiant** – bydd angen trefniadau llywodraethu clir a chadarn ar gyfer unrhyw bartneriaeth. Bydd y trefniadau rheiny'n amrywio yn dibynnu ar natur y bartneriaeth a'r adnoddau bydd y Cyngor yn eu cyfrannu. Beth bynnag fo natur y bartneriaeth, dylid cael trefniadau clir i reoli'r gwaith a sicrhau y glynir wrth y cytundeb gwreiddiol. Dylid sicrhau bod yna brosesau yn eu lle i sicrhau bod y rhaglen waith yn cael ei gweithredu, bod proses glir o adnabod a lliniaru unrhyw risgiau, materion uniondeb, priodoldeb a gwerth am arian.

**V.** **Adroddiadau** – disgwylir derbyn adroddiad blynyddol yn egluro sut mae'r bartneriaeth wedi cyflawni yn erbyn y nôd a'r rhaglen waith a gytunwyd arni. Dylai'r adroddiad blynyddol fod yn gymesur â natur y bartneriaeth – er enghraifft gall adroddiad un neu ddwy dudalen fod yn ddigon ar gyfer rhai partneriaethau ond byddai disgwyl adroddiad trylwyr mewn achosion eraill. Dylid cytuno ar hyn wrth sefydlu'r bartneriaeth.

**VI.** **Adolygiadau** – dylid adolygu'r gwerth mae'r Cyngor yn ei gael o bob un o'r partneriaethau yn achlysurol. Bydd yr adolygiad hwn yn amrywio o bartneriaeth i bartneriaeth ac yn ddibynnol ar natur y gwaith a chyfraniad y Cyngor. Dylid adolygu pob partneriaeth o leiaf unwaith bob tair blynedd a dylid cytuno ar amlder hyn gyda'r partneriaid eraill wrth sefydlu'r bartneriaeth.

**ATODIAD 1**

## CYNLLUN CORFFORAETHOL 2014-2017

**Themau Allweddol:**

**THEMA 1**: yn broffesiynol ac yn cael ei redeg yn dda

**THEMA 2**: arloesol, yn uchelgeisiol ac yn eangfrydig

**THEMA 3**: canolbwyntio ar y Cwsmer, y Dinasydd a'r Gymuned

**THEMA 4**: yn gwerthfawrogi ac yn datblygu ein Pobl

**THEMA 5**: ymrwymo i Bartneriaeth

**THEMA 6**: cyflawni

**Blaenoriaethau:**

1. Trawsnewid Gofal Cymdeithasol i Oedolion Hŷn
2. Adfywio ein Cymunedau a Datblygu'r Economi
3. Gwella Addysg, Sgiliau a Moderneiddio ein Ysgolion
4. Cynyddu ein Hopsiynau Tai a Lleihau Tlodi
5. Trawsnewid ein Darpariaeth Hamdden a Llyfrgelloedd
6. Canolbwyntio ar Gwsmeriaid, Dinasyddion a Bro
7. Trawsnewid ein Technolegau Gwybodaeth a Chyfathrebu

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN** | |
|---|---|
| **Adroddiad i** | **Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant** |
| **Dyddiad** | **15 Mawrth, 2016 am 2pm** |
| **Pwnc** | **Llywodraethu Gwybodaeth – Rhybudd Gorfodaeth gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG)** |
| **Swyddog Arweiniol** | **Lynn Ball, Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro** |
| **Swyddog Cyswllt** | **Lynn Ball, Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@anglesey.gov.uk**<br>**01248 752586** |
| **Natur a rheswm am adrodd - Ar gais y Pwyllgor** | |

**Cyflwyniad**

Mae awdurdodau cyhoeddus yn dal cryn dipyn o wybodaeth am unigolion. Mae'r modd yr ydym yn defnyddio'r wybodaeth honno, a'n rhwymedigaethau i gadw'r wybodaeth honno'n ddiogel, yn creu risgiau. Y prif yrrwr statudol yw Deddf Diogelu Data 1998, a gall torri'r ddeddf mewn modd sylweddol neu dorri'r Ddeddf dro ar ôl tro ar lefel is, arwain at gosb ariannol sylweddol, hyd at uchafswm o £ 500k. Yn ogystal, os yw data am unigolion yn cael ei rannu neu ei ddatgelu mewn modd anghywir gan achosi niwed iddynt, mae ganddynt hawl i gael iawndal; gyda'r potensial o swm sylweddol gan ddibynnu ar y lefel o niwed a gofid a achoswyd.

Ers 2013, mae'r Cyngor wedi buddsoddi'n sylweddol er mwyn gwella ei gydymffurfiad gyda'r Ddeddf Diogelu Data ac mae ganddo bolisïau a gweithdrefnau perthnasol i gefnogi cydymffurfiaeth â'r Ddeddf trwy reoli'r risgiau cynhenid o ran creu, storio a defnyddio gwybodaeth am unigolion byw. Mae trefniadau ar waith i sicrhau bod yr holl staff yn cael eu hyfforddi'n briodol a bod cydymffurfiad yn cael ei fonitro; er bod y ddau faes hyn angen eu gwreiddio ymhellach.

**Cefndir**

Roedd yn ofynnol i'r Cyngor lofnodi Ymgymeriadau ffurfiol gyda'r Comisiynydd Gwybodaeth, rheoleiddiwr y DU ar gyfer y Ddeddf Diogelu Data ym mis Ionawr 2011 a

Rhagfyr 2012. Yn dilyn nifer sylweddol o ddigwyddiadau yn ymwneud â diogelwch data, o fewn amser byr, cynhaliodd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), archwiliad cydsyniol o drefniadau'r Cyngor ar gyfer diogelu data yn 2012. Cyhoeddodd SCG ei adroddiad yn 2013 a oedd yn cynnwys nifer o argymhellion. Sefydlodd y Cyngor Fwrdd Prosiect Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol i lunio a chyflwyno Cynllun Gweithredu i weithredu'r gwelliannau gofynnol. Cafodd hyn ei gytuno gyda SCG.

Roedd bron i 100 o amcanion y cytunwyd arnynt wedi cael eu gwireddu'n llawn erbyn adeg yr ail-archwiliad gan SCG yn 2014. Yn yr ail archwiliad hwn, cydnabuwyd bod gwelliannau wedi eu gwneud o gymharu â'r canfyddiadau cynharach ond roedd SCG am weld 66 o weithgareddau ychwanegol ac roedd y mwyafrif helaeth ohonynt yn argymhellion ychwanegol ar ben y rhai a gyflawnwyd yn dilyn yr archwiliad gwreiddiol yn 2013.

Wedi i'r Prosiect ddod i ben ym mis Tachwedd 2014, sefydlodd y Cyngor Fwrdd Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol (BLlGG), wedi ei gadeirio gan yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO), fel cyfrwng i gyflawni Cynllun Gweithredu newydd yn codi o'r ail-archwiliad. Roedd y rhain yn cynnwys amcanion ar gyfer y tymor byr a'r tymor canol ac yna goruchwylio a bod â chyfrifoldeb parhaus am gydymffurfio a rheolau diogelu data.

Er gwaethaf tystiolaeth o gynnydd clir o ran cyflawni'r amcanion newydd, cyflwynodd SCG Rybudd Gorfodaeth i'r Cyngor ym mis Hydref 2015. Digwyddodd hyn er bod y Cyngor wedi gallu darparu tystiolaeth sylweddol i ddangos ei fod wedi defnyddio amser ac adnoddau i weithredu'r newidiadau yr oedd SCG yn mynnu arnynt, fel y nodwyd yn y ddau archwiliad.

Mae'r materion a amlygwyd yn naw argymhelliad y Rhybudd Gorfodaeth bellach yn destun trydydd Cynllun Gweithredu, a ddyfeisiwyd gan y BLlGG, ac sy'n cael ei weithredu gan is-grŵp o'r BLlGG. Bu'n rhaid ailflaenoriaethu gwaith ac adnoddau i sicrhau bod y gweithgareddau a fyddai'n rhoi'r amddiffyniad gorau i'r Cyngor mewn achos pellach o dorri rheoliadau diogelwch data, yn cael eu cwblhau yn gyntaf.

**Cynnydd**

Mae Cynllun Gweithredu'r Rhybudd Gorfodaeth yn cynnwys 41 o gamau gweithredu y mae eu hangen i weithredu'r naw argymhelliad. Mae SCG wedi gofyn i'r Cyngor weithredu'r argymhellion o fewn 3 mis, fodd bynnag, mewn rhai achosion, roedd hyn yn amhosibl. Serch hynny, mae'r Cyngor wedi anfon copi o'r Cynllun Gweithredu at SCG, yn dangos statws pob gweithred, a'r sefyllfa bresennol. Mae crynodeb ar gael fel **Atodiad 1** i'r adroddiad hwn.

Nid oes angen cyfeirio at  holl ganlyniadau'r Rhybudd Gorfodi, fodd bynnag, er mwyn dangos sut mae gallu’r Cyngor o ran darparu sicrwydd wedi gwella, dygir sylw at dri mater.

**Digwyddiadau Diogelwch Data - Cydymffurfio Gyda Pholisi**

Roedd gan y Cyngor eisoes fecanweithiau cadarn ac aeddfed ar gyfer nodi, atal ac adrodd am achosion diogelwch data, ynghyd â sgorio difrifoldeb y digwyddiadau hynny. Caiff cydymffurfiaeth â Pholisi’r Cyngor ar Ddigwyddiadau’n ymwneud â Diogelwch ei monitro. Mae hyn yn bodloni’r argymhelliad cyntaf yn y Rhybudd Gorfodaeth.

**Rheoli Polisi a Chydymffurfiaeth**

Cafodd system addas ar gyfer sicrhau bod polisïau sy’n ymwneud â Llywodraethu Gwybodaeth yn gyfredol, yn cael ei ddiweddaru, ar gael yn rhwydd, ac yn gallu darparu adroddiadau corfforaethol addas, ei nodi gan y SCG yn 2011 fel maes yr oedd angen ei wella.  Yn 2015, rhyddhaodd y Cyngor gyllid ar gyfer caffael system o'r fath.

Mae'r broses gaffael wedi ei chwblhau ac mae'r Cyngor bellach wedi llofnodi Cytundeb Trwydded Meddalwedd i gaffael system briodol, ynghyd â chyfleoedd e-ddysgu. Mae Cynllun Gweithredu’n cael ei ddyfeisio ar hyn o bryd.

Bydd cynllun peilot yn cael ei sefydlu ar gyfer nifer o wasanaethau corfforaethol er mwyn sicrhau bod yr holl bolisïau allweddol yn cael eu diweddaru, ar dempled y cytunwyd arno, a bod crynodebau gweithredol hefyd yn cael eu dyfeisio. Bydd hwn ar gael i bob aelod o staff (ac Aelodau), gyda'r Gwasanaethau unigol (ac unigolion a enwir) yn gyfrifol am ddiweddaru polisïau ar adegau allweddol penodol.

Ni fydd y cysyniad o "cliciwch i dderbyn" (yn cadarnhau bod polisi wedi ei ddarllen a'i deall) ond yn cael ei ddefnyddio ar gyfer rhai polisïau allweddol.

Mae'r BLlGG yn gobeithio y bydd y system hon yn cael ei hystyried fel storfa ddefnyddiol i staff gael at y polisïau diweddaraf ar draws yr holl wasanaethau corfforaethol yn hytrach na fel offeryn gorfodaeth yn unig. Bydd cyfleoedd i ymestyn y system yn y dyfodol, o fewn y Gwasanaethau, a thimau unigol, i rannu dogfennau allweddol sy'n berthnasol i'w gwaith.

**Archwiliadau Desg Glir**

Mae'n bwysig nad yw gwybodaeth am bobl y mae angen i staff y Cyngor ei defnyddio yn ystod eu dyletswyddau yn cael ei gadael o gwmpas pan nad yw'n cael ei defnyddio, oherwydd gallai hynny arwain at fynediad amhriodol. Bellach, mae gan y Cyngor bolisi desg glir a sgrin glir, sy'n cael ei fonitro gan y Penaethiaid Gwasanaeth a fydd yn

cerdded o gwmpas i gynnal archwiliadau’n ddirybudd;  ynghyd â nifer o ddangosyddion perfformiad eraill sy'n berthnasol i lywodraethu gwybodaeth.

I gloi, bydd y BLlGG yn parhau i fonitro'r camau sydd ar y gweill mewn perthynas â’r Cynllun Gweithredu cyfredol, hyd nes iddynt gael eu cwblhau.  Ar ôl hynny, bydd y gwaith yn cael ei ailflaenoriaethu. Tan hynny, y System Rheoli Polisïau yw'r flaenoriaeth. Rydym yn gweld hyn fel y gonglfaen ar gyfer amddiffyn y Cyngor mewn achos pellach o dorri rheolau data y mae’n rhaid rhoi gwybod amdano. Enw’r system newydd fydd y Porth Polisi.

| | |
|---|---|
| **1. Bod DPA a mesurau diogelu data yn cael eu monitro a'u gweithredu (gan gynnwys nifer a natur y digwyddiadau'n ymwneud â diogelwch gwybodaeth)** | Dangosyddion Perfformiad Allweddol bellach wedi eu sefydlu ac yn cael eu hadrodd arnynt. |
| **2. Bod rhaglen hyfforddi orfodol ar ddiogelu data i'r holl staff (gan gynnwys dechreuwyr newydd) a hyfforddiant gloywi blynyddol** | Mae rhaglen hyfforddiant gorfodol ar ddiogelu data wedi cael ei sefydlu ac mae'r Cyngor yn ystyried datblygu pecyn e-ddysgu. |
| **3. Bod cwblhau unrhyw hyfforddiant o'r fath yn cael ei fonitro a'i gofnodi'n briodol** | Mae cwblhau'r hyfforddiant yn cael ei fonitro yn awr a'i gofnodi'n gywir. Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn trafod system derbyn polisïau gyda'i ddarparwr gwasanaeth. |
| **4. Bod staff yn darllen, yn deall ac yn cydymffurfio gyda pholisïau (gan gynnwys Polisi Rheoli Cofnodion)** | Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor wrthi'n trafod system derbyn polisïau gyda'i ddarparwr gwasanaeth ac, yn ogystal, mae wedi cynnal proses gofrestru â llaw er mwyn darparu sicrwydd. |
| **5. Bod copïau wrth gefn o wybodaeth yn cael eu rhoi ar weinydd allanol o ddydd i ddydd** | Mae hyn wedi ei wneud. |
| **6. Bod y copïau wrth gefn yn cael eu profi o bryd i'w gilydd er mwyn sicrhau nad ydynt yn dirywio a bod modd adfer y wybodaeth** | Mae hyn wedi ei wneud. |
| **7. Bod hawliau mynediad ffisegol corfforol yn cael eu diddymu ar unwaith pan fo staff yn gadael a'u hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod rheolaeth briodol.** | Mae'r mater hawliau mynediad yn cael ei ystyried fel rhan o ad-drefnu'r broses ar gyfer staff sy'n cychwyn ac yn gadael ac yn cael ei wneud er mwyn rhoi sicrwydd yn y maes hwn. |
| **8. Bod y diffyg o ran lle storio digonol ar gyfer cofnodiadau papur yn cael** | Mae hyn bellach wedi cael sylw a bydd Bwrdd Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol y Cyngor yn cadw trosolwg |

| | |
|---|---|
| **sylw** | o gynlluniau gweithredu'r adrannau o ran cofnodiadau. |
| **9. Bod gwaith cyson a rheolaidd yn cael ei wneud i orfodi'r polisi desg glir** | Mae hyn bellach wedi cael sylw ac yn cael ei fonitro gan ddangosydd perfformiad. |

CC-17095-LB / 303,260

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Cyngor Sir Ynys Môn – Diweddariad ar raglen waith perfformiad ar gyfer Pwyllgor Archwilio 15 Mawrth 2016

## Astudiaethau Llywodraeth Leol – Diweddariad Awst 2015

Mae’r rhan hon o’r briffio yn darparu diweddariad ar gyflenwi rhaglen astudiaethau Llywodraeth Leol Cymru Gyfan a phrosiectau eraill a reolir yn ganolog. Mae pob astudiaeth yn ymwneud â llywodraeth leol yn unig oni bai bod y sylwebaeth isod yn cyfeirio’n benodol at waith ar Barciau Cenedlaethol a/neu Awdurdodau Tân ac Achub.

### 1. Astudiaethau Llywodraeth Leol 2014-15

#### Annibyniaeth pobl hŷn

Cyhoeddwyd yr adroddiad ar 15 Hydref 2015. Mae’r adroddiad ar gael ar ein gwefan.

#### Cyflawni â Llai – Hamdden

Cyhoeddwyd yr adroddiad 3 Ragfyr 2015. Mae’r adroddiad ar gael ar ein gwefan.

## 2. Astudiaethau Llywodraeth Leol 2015-16

### Diogelwch Cymunedol

Mae’r adroddiad cenedlaethol yn mynd trwy’r broses drafftio, gyda dyddiad cyhoeddi arfaethedig ar ôl i’r embargo cyn etholiad dod i ben ar 6 Mai 2016.

### Agwedd strategol cynghorau at gynhyrchu incwm a chodi tâl

Cyflawnir yr astudiaeth hon dan ein rhaglen flynyddol “cyflawni â llai”, a bydd yr astudiaeth yn cynnwys archwiliad o agwedd strategol cynghorau at godi tâl, y broses gymeradwyo ar gyfer pennu ac adolygu taliadau mewn cyngor; effaith codi tâl ar wasanaethau a defnyddwyr gwasanaeth; a’r sail ddeddfwriaethol ar gyfer codi tâl.

Mae’r astudiaeth yn mynd rhagddo:

i. Mae gwaith maes safleoedd Sir Fynwy, Gwynedd, Merthyr, Powys, Caerffili a Chasnewydd yn gyflawn.

ii. Fe fydd yr holl arolygon wedi’u cwblhau erbyn Chwefror 2016.

iii. Mae’r proffilau incwm ar gyfer holl gynhorau Cymru yn cael eu cwblhau, gan ddefnyddio gwybodaeth o ddata cyhoeddedig, ac mae gwaith i gymharu perfformiad cynghorau yn Lloegr a’r Alban yn cael ei drefnu ar gyfer cam nesaf y prosiect hwn.

iv. Mae nodyn cryno ar y sail gyfreithiol o godi tâl yn cael ei gynhyrchu ac mae hwn yn ei ail rifyn ar hyn o bryd.

Dylai’r astudiaeth cael ei gwblhau erbyn dechrau mis Ebrill pan fydd drafftio’r adroddiad yn cychwyn.

Nid yw Môn yn safle gwaith maes ond mae’r Cyngor wedi cyfrannu gyda data ynghyd â’r holl gynghorau eraill.

### Ariannu gwasanaethau trydydd sector gan gynghorau

Hefyd, dan y themâu cyflawni â llai, bydd yr astudiaeth hon yn edrych ar lefel y buddsoddiad yng ngwasanaethau’r sector gwirfoddol, er mwyn meincnodi’r canfyddiadau yn unol ag adolygiadau Uned Data Llywodraeth Leol a gynhaliwyd ar ran Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru sy’n dyddio o 2001 i 2002. Bydd yr adolygiad yn cynnwys y camau a ddefnyddir i asesu effeithiolrwydd ariannu mewn ardal olrhain, a chytunir ar hyn gyda Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru; adolygu prosesau gwneud penderfyniadau i benderfynu pa un a ddilynir egwyddorion llywodraethu da ar gyfer cyllido gwasanaethau’r trydydd sector. Mae’r prosiect yn mynd rhagddo gyda gwaith maes yn digwydd yng nghynghorau penodol ac arolwg. Nid yw Môn yn safle gwaith maes.

## 3. Astudiaethau Llywodraeth Leol 2016-17

Mae ymgynghoriad ar y rhestr o bynciau astudio posibl ar gyfer y tair blynedd nesaf wedi cau ac mae adroddiad yn cael ei ddrafftio ar y rhaglen yn y dyfodol.

## 4. Gwaith asesu archwilio gwelliant ar gyfer 2015-16

Mae'r rhan hon o'r briffio yn darparu diweddariad ar y cynnydd ynghylch cyflenwi'r gwaith archwilio ac asesu yn Ynys Môn (bydd rhai astudiaethau hefyd yn cynnwys cynghorau eraill gogledd Cymru a Chymru).

### Archwiliad o asesiad o berfformiad

Cafodd y dystysgrif ei gyhoeddi ym mis Tachwedd ac mae Adroddiad Perfformiad y Cyngor yn cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru a'r Mesur LlL.

### Adolygiad cydnerthedd ariannol

Mae'r adolygiad wedi'i gwblhau, a chyhoeddwyd yr adroddiad lleol i'r Cyngor ym mis Ionawr 2016. Cynhyrchir crynodeb cenedlaethol yn ystod gwanwyn 2016.

### Adolygiad o lywodraethu

Bydd y gwaith hwn yn canolbwyntio ar feysydd y nodir bod angen eu gwella yn yr adroddiad Asesu Corfforaethol. Amserlen – mis Rhagfyr 2015 i fis Mawrth 2016.

I'w gadarnhau.

### Adolygiad rheoli perfformiad

Astudiaeth ar draws pob un o chwe chyngor gogledd Cymru ar feincnodi costau gwasanaethau cymdeithasol o'i gymharu â pherfformiad. Mae'r astudiaeth yn cynnwys cyfranogiad AGGCC a thrafodaethau gyda staff cyngor. Amserlen - mis Medi i fis Rhagfyr 2015. Cafodd cyfarfod rhwng SAC, swyddogion arweiniol y Cyngor ac AGGCC ei gynnal ar 21 Rhagfyr 2015 i drafod canlyniadau posibl o ddadansoddiad o'r dangosyddion. Mae crynodeb o'r dadansoddiad wedi cael ei cynhyrchu a'i anfon i'r holl gynghorau a gymerodd ran, ac fel y cytunwyd, bydd yn cael ei ddefnyddio ar gwybodaeth y Cyngor yn unig.

### Adroddiad Gwella Blynyddol

Crynodeb ac asesiad blynyddol gan yr Archwilydd Cyffredinol a rheoleiddwyr eraill. Amserlen – Erbyn diwedd Mawrth 2016.

## 5. Gwaith asesu archwilio gwelliant ar gyfer 2014-15

### Asesiad corfforaethol

Cyhoeddwyd yr adroddiad terfynol ar 2 Rhagfyr ac fe fydd yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor ar 9 Rhagfyr 2015.

## 6. Gwaith ddilynol ar argymhellion cenedlaethol

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn gweithredu ar argymhellion a wnaed mewn adroddiadau astudiaethau cenedlaethol yn ystod 2014-15 trwy gyflawni arolwg i bob cyngor yn yr hydref o 2015. Fe fydd hwn yn galluogi gwerthuso cynnydd ar argymhellion ym mhob cyngor, llywio gwaith cynllunio lleol ar gyfer 2016-17, a rhoi darlun cenedlaethol o weithrediad ar argymhellion SAC. Bydd crynodeb yn cael ei gynnwys yn Adroddiad Gwella Blynyddol y Cyngor ar gyfer 2016.

## 7. Astudiaethau Cenedlaethol Gwerth am Arian

Mae tabl ar wahân wedi ei gynhyrchu sy’n nodi’r astudiaethau cenedlaethol a luniwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru neu y mae’n eu cynllunio trwy'r cyfnod 2015-16.

Mae’r tabl canlynol yn rhoi diweddariad ar astudiaethau eraill sy’n ymwneud â Llywodraeth Leol.

| Astudiaeth Llywodraeth Leol | Allbwn | Cwblhau | Statws | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| Diwygiadau Lles | Ymchwiliad | Gorffennaf-15 | Wedi cyhoeddi | Cyhoeddwyd yr adroddiad ar 8.1.15<br>Ymholiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus wedi’i cwblhau a chyhoeddwyd yr adroddiad. |
| Diogelu | Adroddiad | Gorffennaf-15 | Wedi cyhoeddi | Cyhoeddwyd yr adroddiad ar 21.7.15 |
| Annibynniaeth pobl hŷn | Adroddiad | Medi-15 | Wedi cyhoeddi | Cyhoeddwyd yr adroddiad ar 15.10.15 |
| Cyflawni â Llai: Hamdden | Adroddiad | Awst-15 | Wedi cyhoeddi | Cyhoeddwyd yr adroddiad ar 3.12.15 |
| Diogelwch Cymdeithasol | Adroddiad | Mehefin-16 | Yn dod i gasgliadau | Disgwylir cyfnod drafftio a chyhoeddiad ar ôl yr embargo cyn etholiad. |
| Dull strategol o gynhyrchu incwm a chodi tâl | Adroddiad | Gorffennaf-16 | Gwaith maes | Yn dod i gasgliadau |
| Y modd y mae cynghorau’n ariannu gwasanaethau’r trydydd sector | Adroddiad | Awst-16 | Wedi sefydlu’r prosiect | Gwaith maes |

# WAO Regulatory Work Activity - VFM Studies update

| Study | Output | Completion | Status | Comments/relevance to LG |
|---|---|---|---|---|
| **WG investment in next generation broadband infrastructure** | Report | May 2015 | Published | Views invited from Councils and half responded. Third party clearance is including extracts relating to some named councils. |
| **Governance in NHS Wales** | Memorandum for PAC | May 2015 | Published | |
| **GP prescribing** | Memorandum for PAC | May 2015 | Published | |
| **Regional Education Consortia** | Report | June 2015 | Published | Fieldwork included interviews with consortia officers and leaders and representatives of other councils including Chief Execs, Members, Audit Chairs and monitoring officers. The report contained recommendations for the Welsh Government and the individual regional consortia. Evidence collected in the course of the study will also be made available to inform annual improvement reports in local government. |
| **Orthopaedic services** | Report | June 2015 | Published | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Regeneration Investment Fund for Wales** | Report | July 2015 | Published | Reactive investigation in response to concerns raised with the AGW. PAC inquiry on-going. |

| Study | Output | Completion | Status | Comments/relevance to LG |
|---|---|---|---|---|
| **Financial Management and Governance in Community and Town Councils 2013-14** | Report | September 2015 | Published 16 Sept 2015 | This report considers the progress made by local councils to address these weaknesses and highlights areas the Auditor General will focus on for the audit of the 2015-16 accounts |
| **Picture of Public Services** | Report | December 2015 | Published 17 December 2015 | Public Service Leaders Survey: Summary Report published 28 Jan 2016. |
| **WG acquisition and ownership of Cardiff Airport** | Report | Jan 2016 | Published 27 Jan 2016 | Views invited from Cardiff, Vale of Glamorgan and WLGA as part of the fieldwork. |
| **Development of Natural Resources Wales** | Report | | Published 4 Feb 2016 | The study team will draw on stakeholder views expressed as part of a recent consultation by the National Assembly's Environment and Sustainability Committee. |
| **Operating theatres** | Report | Feb 2016 | Clearance | |
| **NHS waiting lists and private practice** | Report | | Published 11 Feb 2016 | |
| **Wales Life Sciences Investment Fund** | Report | March 2016 | Clearance | Reactive examination in response to concerns raised with the AGW. |
| **Welsh Government responses to audit recommendations** | Memorandum for PAC | Spring 2016 | Drafting | The output from this work is now likely to take the form of a memorandum for PAC to support PAC's own legacy reporting in March 2016. |

| Study | Output | Completion | Status | Comments/relevance to LG |
|---|---|---|---|---|
| **Rail services** | Report | Spring 2016 | Drafting | |
| **Coastal flood and erosion risk management** | Report | Spring 2016 | Drafting | Has included some evidence gathering across LG, including a survey of coastal authorities and some follow up enquiries with a selection of councils. (Pembrokeshire; Monmouthshire; Swansea; Gwynedd; Ceredigion; Newport). |
| **Governance of the National Library of Wales** | Report | Spring 2016 | Fieldwork | Reactive examination in response to concerns raised with the AGW. |
| **Welsh Government oversight of further education institutions' finances and delivery** | Report | Autumn 2016 | Fieldwork | New value for money study. |
| **Public procurement (including development of the National Procurement Service)** | Report | Winter 2016 | Scoping stage | Likely to include some evidence gathering across LG. Details are to be confirmed. |

| Study | Output | Completion | Status | Comments/relevance to LG |
|---|---|---|---|---|
| **Early intervention and public behaviour change** | Report | Spring/Summer 2017 | Fieldwork | Our programme of good practice work includes a project that will aim to explore the range of behaviour change work across Welsh public services and opportunities to improve practice, deliver better outcomes for citizens, and achieve better value for money. The project will include a range of engagement events and the development of a community of practice to share learning and experience. We anticipate that the information and evidence gathered through this work will support the production of a report on this topic, although this is unlikely to be a traditional audit report and it would not be prepared until the first half of 2017. This work will invite input and participation from across Welsh public services. |
| **WG interventions in local government** | To be confirmed | To be confirmed | Scoping | Plans for this work are being revisited in light of the Welsh Government commissioned review of the Anglesey intervention by the Public Policy Institute for Wales, and also to consider the implications for the work of plans for local government reform. |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| **Dyddiad:** | **15 Mawrth 2016** |
| **Pwnc:** | **ASESIAD O GYDNERTHEDD ARIANNOL - CYNGOR SIR YNYS MÔN (SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU - Medi 2016)** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y CYNGHORYDD HYWEL EIFION JONES** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **MARC JONES** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **GETHIN MORGAN**<br>01248 752111<br>GethinMorgan@ynysmono.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | **d/b** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**1.1** Cynhaliodd Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) asesiad yn ystod y cyfnod Mai-Hydref 2015, gan ddilyn i fyny materion amlygwyd yn y gwaith ar y sefyllfa ariannol 2014-15. Roedd ffocws y gwaith ar gyflawni cynlluniau arbedion 2014-15, a'r cyfnod cynllunio ariannol 2015-16.

**1.2** Roedd y gwaith yn canolbwyntio ar ateb y cwestiwn canlynol: A yw Cyngor Sir Ynys Môn yn rheoli gostyngiadau cyllidebol yn effeithiol i sicrhau cydnerthedd ariannol? Yn yr adroddiad roeddent hefyd yn ystyried a yw:

- trefniadau cynllunio ariannol yn cefnogi gydnerthedd ariannol yn effeithiol;
- rheolaeth ariannol effeithiol yn cefnogi gydnerthedd ariannol; ac
- llywodraethu ariannol effeithiol yn cefnogi gydnerthedd ariannol.

**1.3** Daeth yr asesiad i'r casgliad, ac er bod y Cyngor yn wynebu rhai heriau ariannol sylweddol, fod ein trefniadau presennol ar gyfer cyflawni gydnerthedd ariannol yn briodol ac yn parhau i wella.

**1.4** Daeth Swyddfa Archwilio Cymru i'r casgliad hwn yn seiliedig ar eu canfyddiadau mewn perthynas â chynllunio ariannol, rheolaeth ariannol, a threfniadau llywodraethu ariannol.

**1.5** Fe aseswyd SAC y risg i ddarpariaeth y Cyngor ar ei gynllun ariannol ar gyfer pob un o'r elfennau hyn fel a ganlyn:

- Cynllunio ariannol - Risg isel
- rheolaeth ariannol - Risg isel
- llywodraethu ariannol - Risg isel

| | |
|---|---|
| **1.6** | Fel y cyfryw, nid oedd unrhyw argymhellion neu gynigion ar gyfer gwella gan i'r adroddiad ddod i'r casgliad bod y Cyngor yn ymwybodol o'r angen i gryfhau rhai o'i drefniadau ac ein bod wedi gwneud hynny eisoes mewn sawl maes. |
| **ARGYMHELLION** | |
| **1.7** | Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn canfyddiadau'r adroddiad asesiad gydnerthedd ariannol a nodi'r gasgliad ynghylch risgiau isel sydd i'r cyngor ar y cyfan, yn ogystal â chydnabod bod y cyngor yn parhau i fynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwella a gynhwysir yn yr adolygiad lleol o drefniadau rheoli ariannol fel adroddwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru ym Chwefror 2015. |

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| d/b |
| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
| Mae'r mater hwn yn un a ddirprwyir i'r Pwyllgor Gwaith. |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydi. |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Ydi. |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |
| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |

| | | |
|---|---|---|
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| **• Asesiad o Gydnerthedd Ariannol - Cyngor Sir Ynys Môn (Ionawr 2016)** |

**FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

- **Trefniadau Rheoli Ariannol Cyngor Sir Ynys Môn – Swyddfa Archwilio Cymru (Chwefror 2015)**
- **'Gydnerthedd Ariannol Cynghorau yng Nghymru' - Swyddfa Archwilio Cymru (Ebrill 2015)**

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Asesiad o Gydnerthedd Ariannol

## Cyngor Sir Ynys Môn

**Blwyddyn yr archwiliad:** 2015-16

**Cyflwynwyd:** Ionawr 2016

**Cyfeirnod dogfen: 100A2016**

# Statws yr adroddiad

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol.
Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Fflur Jones ac Andy Bruce oedd y tîm a gyflawnodd y gwaith.

# Cynnwys

**Er bod y Cyngor yn wynebu rhai heriau ariannol sylweddol, mae ei drefniadau presennol ar gyfer cyflawni cydnerthedd ariannol yn briodol ac yn parhau i wella**


| | |
|---|---|
| Adroddiad cryno | |
| Crynodeb | 4 |
| Argymhellion/cynigion ar gyfer gwella | 6 |
| Adroddiad manwl | |
| **Cynllunio ariannol**<br>Mae’r Cyngor wedi datblygu fframwaith corfforaethol priodol ar gyfer cynllunio ariannol, ond gallai wella'r cysylltiadau rhwng ei Gynllun Corfforaethol a'i Gynllun Ariannol Tymor Canolig | 7 |
| **Rheolaeth ariannol**<br>Mae gan y Cyngor fwy o sefydlogrwydd o fewn ei adran gyllid, ac mae ei drefniadau ar gyfer rheolaeth ariannol wedi gwella, gan gynnwys prosesau ar gyfer pennu cyllidebau ac ymgynghori â gwasanaethau, cynghorwyr a'r cyhoedd | 9 |
| **Llywodraethu ariannol**<br>Mae’r Cyngor wedi cryfhau ei drefniadau llywodraethu drwy ddal gwasanaethau'n atebol am unrhyw amrywiaeth o ran perfformiad ariannol, ac mae'r Pwyllgor Archwilio'n gynyddol effeithiol o ran herio swyddogion i ddarparu diweddariadau rheolaidd ynglŷn â'u cynnydd | 10 |
| Atodiadau | |
| Perfformiad yn erbyn dangosyddion ariannol allweddol | 12 |
| Nodweddion allweddol | 23 |

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

1. Mae rheolaeth ariannol dda yn hanfodol ar gyfer stiwardio cyllid cyhoeddus mewn modd effeithiol a darparu gwasanaethau cyhoeddus effeithlon. Mae rheolaeth ariannol dda:
   - yn helpu awdurdodau i wneud y penderfyniadau cywir yn y tymor byr, canolig a hir;
   - yn helpu awdurdodau i ddarparu gwasanaethau sy'n bodloni eu dyletswyddau statudol ac anghenion cymunedau lleol;
   - yn hanfodol er mwyn sicrhau trefn lywodraethol gorfforaethol dda;
   - yn ymwneud â rheoli perfformiad a chyflawni amcanion strategol gymaint ag y mae'n ymwneud â rheoli arian;
   - yn tanategu ansawdd a gwella gwasanaethau;
   - yn sail ar gyfer atebolrwydd i randdeiliaid ar gyfer stiwardio a defnyddio adnoddau; ac
   - yn ddisgyblaeth allweddol ym maes rheoli.
2. Nid yw rheolaeth ariannol hirdymor yn ymwneud â rhagweld y dyfodol; mae'n ymwneud â pharatoi ar ei gyfer. Mae'n rhaid i awdurdodau ddeall galw yn y dyfodol, asesu effaith newidiadau tebygol, adolygu'r bwlch rhwng anghenion cyllid a'r incwm posibl, a datblygu strategaethau cynilo priodol.
3. Gall strategaethau ariannol hirdymor tra ystyriol a manwl sicrhau bod blaenoriaethau strategol yn cael eu cyflawni drwy alluogi dewisiadau ariannol priodol.
   Mewn cyferbyniad â hynny, mae gwaith cynllunio cyllidebol blynyddol tymor byr yn annog dull cynyddol sy'n cael ei ysgogi gan brosesau, a gall hwn fod yn aneffeithiol mewn cyfnod o newidiadau allanol cyflym.
4. Ceir cydnerthedd ariannol pan fydd gan awdurdod systemau a phrosesau cadarn ar waith i reoli ei risgiau a chyfleoedd ariannol mewn modd effeithiol, ac er mwyn sicrhau sefyllfa ariannol sefydlog.
5. O ystyried y pwysau parhaus ar gyllid, yn yr adolygiad hwn rydym wedi ystyried p'un a oes gan yr awdurdod drefniadau priodol i gynllunio i ddiogelu a chynnal ei gydnerthedd ariannol yn y tymor canolig (fel arfer rhwng y tair a phum mlynedd sydd i ddod). Er y gallai'r awdurdod fod yn fwy sicr dros gylchred flynyddol, mae pwysau ariannol yn cael effaith y tu hwnt i gyfnod y setliad presennol. Rydym wedi ystyried tystiolaeth o ddull yr awdurdod o reoli ei gyllid yn y gorffennol agos, a thros y tymor canolig, wrth ddod i'n casgliad ynglŷn â chydnerthedd ariannol yr awdurdod.
6. Gwnaethom gynnal ein hasesiad yn y cyfnod rhwng mis Mai a mis Hydref 2015, a gwnaethom ragor o waith ynghylch materion y tynnwyd sylw atynt yn y gwaith ynglŷn â'r sefyllfa ariannol yn 2014-15. Roedd pwyslais y gwaith yn ymwneud â chyflawni cynlluniau arbedion 2014-15, a chyfnod cynllunio ariannol 2015-16.

7. Canolbwyntiodd y gwaith ar ateb y cwestiwn canlynol: **A yw Cyngor Sir Ynys Môn yn rheoli gostyngiadau cyllidebol mewn modd effeithiol er mwyn sicrhau cydnerthedd ariannol?** Yn yr adroddiad hwn, rydym hefyd yn ystyried:

- **p'un a yw trefniadau cynllunio ariannol yn cefnogi cydnerthedd ariannol mewn modd effeithiol;**
- **p'un a yw rheolaeth ariannol yn cefnogi cydnerthedd ariannol mewn modd effeithiol; a**
- **ph'un a yw llywodraethu ariannol yn cefnogi cydnerthedd ariannol mewn modd effeithiol.**

8. Yn gyffredinol, daethom i'r casgliad bod **trefniadau presennol y Cyngor ar gyfer cyflawni cydnerthedd ariannol yn briodol ac yn parhau i wella, er bod y Cyngor yn wynebu rhai heriau ariannol sylweddol.** Daethom i'r casgliad hwn yn seiliedig ar ein canfyddiadau yng nghyswllt trefniadau cynllunio ariannol, rheolaeth ariannol a llywodraethu ariannol.

9. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi sgôr risg ar gyfer pob elfen: cynllunio ariannol, rheolaeth ariannol a llywodraethu ariannol. Mae disgrifiadau'r sgoriau risg wedi eu hamlinellu isod:

| | |
|---|---|
| **Risg isel** | Mae'r trefniadau'n ddigonol (neu'n well) a phrin yw diffygion systemau, prosesau neu wybodaeth. Gall yr effaith ar allu'r awdurdod i gyflawni ei gynllun ariannol fod yn fach iawn. |
| **Risg canolig** | Mae gan systemau, prosesau neu wybodaeth rai diffygion a allai effeithio ar allu'r awdurdod i gyflawni canlyniadau a ddymunir yn ei gynllun ariannol. |
| **Risg uchel** | Mae gan systemau, prosesau neu wybodaeth ddiffygion sylweddol a/neu mae risg gwirioneddol na fydd cynllun ariannol yr awdurdod lleol yn cyflawni'r canlyniadau a ddymunir. |

10. Rydym yn graddio'r risg i allu'r Cyngor i gyflawni ei gynllun ariannol ar gyfer pob un o'r elfennau hyn fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| **Risg isel** | Cynllunio ariannol |
| **Risg isel** | Rheolaeth ariannol |
| **Risg isel** | Llywodraethu ariannol |

11. Yn ogystal â dod i gasgliadau ynglŷn â chynllunio, rheoli a llywodraethu ariannol, mae Atodiad 1 yn amlinellu perfformiad yr awdurdod yn erbyn dangosyddion ariannol allweddol. Ni fwriedir y dylid dod i gasgliad ar sail y dangosyddion hyn, ond maent yn elfen bwysig y dylid ei hystyried yng nghyswllt strategaeth ariannol a chynllunio ariannol, ac maent yn rhoi cyd-destun defnyddiol. Y dangosyddion ariannol allweddol yw:

- **perfformiad cyllidebol** – adolygu hanes gwariant yn erbyn cyllidebau refeniw ac asesiad o p'un a yw'r fantolen wedi aros mewn cyflwr iach;

- lefel y **cronfeydd** defnyddiadwy sy'n darparu digon o gyflenwad ar gyfer unrhyw lithriant o ran gwariant refeniw, a ph'un a yw balansau ysgolion yn cael eu cynnal a diffygion ariannol mewn unrhyw gyllidebau ysgolion yn cael eu rheoli;
- gerio – mae **benthyca** tymor hir yn gysylltiedig â gwerth cyfarpar ac offer sy'n eiddo;
- **hylifedd** – dadansoddiad o p'un a oes digon o asedau ar gael ar hyn o bryd i dalu am ddyledion tymor byr a gofynion cyfalaf gweithio, a ph'un a yw'r sefyllfa hylifedd wedi dirywio o ganlyniad i fabwysiadu'r polisi gerio; a
- data **gweithlu** megis niferoedd staff, defnydd a chost staff asiantaeth, a pherfformiad absenoldeb salwch.

**12.** Roedd ein hadroddiad cenedlaethol ym mis Ebrill 2015, ‘Cydnerthedd ariannol cynghorau yng Nghymru’, wedi'i seilio ar waith maes a gynhaliwyd ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru. O'r gwaith hwn, ac o ddeunydd arall sydd ar gael sy'n ymwneud ag agweddau ar reolaeth ariannol, rydym wedi llunio nodweddion allweddol arferion da er mwyn helpu ymarferwyr i ddatblygu eu trefniadau. Mae'r nodweddion hyn ar gael yn Atodiad 2.

## Argymhellion/cynigion ar gyfer gwella

Nid oes argymhellion na chynigion ar gyfer gwella, oherwydd mae’r Cyngor yn ymwybodol o'r angen i gryfhau rhai o'i drefniadau ac mae eisoes wedi gwneud hyn mewn sawl maes. Roedd ein hadolygiad lleol o drefniadau rheolaeth ariannol, y lluniwyd adroddiad arnynt ym mis Chwefror 2015, yn cynnwys pedwar cynnig ynglŷn â sut i wella, ac mae’r Cyngor yn parhau i fynd i'r afael â’r rhain, ac yn gwella ei drefniadau.

# Adroddiad manwl

## Er bod y Cyngor yn wynebu rhai heriau ariannol sylweddol, mae ei drefniadau presennol ar gyfer cyflawni cydnerthedd ariannol yn briodol ac yn parhau i wella

### Cynllunio ariannol

Mae’r Cyngor wedi datblygu fframwaith corfforaethol priodol ar gyfer cynllunio ariannol, ond gallai wella'r cysylltiadau rhwng ei Gynllun Corfforaethol a'i Gynllun Ariannol Tymor Canolig

**13.** Bu gwelliannau sylweddol ym mlynyddoedd diweddar o ran sut mae’r Cyngor yn rheoli ei waith rheolaeth ariannol ar lefel gorfforaethol ac ar lefel gwasanaethau.

**14.** Mae gweledigaeth y Cyngor wedi'i fynegi'n glir yn ei Gynllun Corfforaethol 2013-17 a'i Gynllun Trawsnewid 2013-16. Mae fframwaith i gyflawni amcanion y Cyngor ar gyfer gwella, ac mae'r rhain yn gysylltiedig â'r cynlluniau darparu gwasanaethau a chynlluniau ariannol.

**15.** Caiff Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor ei ddiweddaru'n flynyddol, ac mae'n darparu gwybodaeth helaeth ynglŷn â strategaeth cynllunio ariannol y Cyngor. Er bod gan y Cyngor sawl polisi sy'n cefnogi ei drefniadau cynllunio ariannol, nid yw Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor yn cysylltu'n uniongyrchol â chyflawni ei gynllun corfforaethol a'i nodau, ac nid yw'n cynnwys unrhyw ddangosyddion perfformiad allweddol penodol ychwaith.

**16.** Mae gofyn i bob un o wasanaethau’r Cyngor gynhyrchu cynllun darparu gwasanaeth blynyddol, yn seiliedig ar ddadansoddiad o'i berfformiad, ei rôl o ran cyfrannu at y Cynllun Corfforaethol, a dadansoddiad o unrhyw risgiau posibl. Fodd bynnag, gall ansawdd cynlluniau darparu gwasanaethau amrywio, ac mae’r Cyngor yn cydnabod bod angen dull mwy cyson i gyfrannu at y broses gynllunio ariannol. I wella cysondeb, mae’r Cyngor wedi mabwysiadu dull newydd, lle bydd yn rhaid i benaethiaid gwasanaethau alinio blaenoriaethau eu gwasanaethau gydag amcanion corfforaethol, a'u gwaith cynllunio darparu gwasanaeth i'r broses o bennu'r gyllideb.

**17.** Mae gofyn i wasanaethau’r Cyngor gynnal dau adolygiad hunanasesiad blynyddol. Mae'r cyntaf yn canolbwyntio ar eu sefyllfa ariannol, sy'n helpu i lywio’r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a'r broses o bennu'r gyllideb. Mae'r ail adolygiad yn canolbwyntio ar berfformiad blynyddol y gwasanaeth, sy'n helpu i lywio'r blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn ganlynol. Caiff pob hunanasesiad adolygu gwasanaeth ei herio gan grŵp priodol o swyddogion ac aelodau, gan gynnwys Arweinydd y Cyngor, ac aelodau perthnasol o'r Cabinet, y Cabinet Cysgodol a'r Pwyllgor Craffu.

**18.** Yn hanesyddol, mae gan y Cyngor hanes gweddol dda o gyflawni ei dargedau cyllidebol. Llwyddodd i danwario gan £1.1 miliwn a £1.2 miliwn yn 2012-13 a 2013-14 yn y drefn honno, ond nid yw gwasanaethau unigol bob amser wedi cyflawni'r arbedion maent wedi cynllunio eu gwneud. Lleihawyd diffygion mewn arbedion er mwyn cyflawni'r canlyniad terfynol ar gyfer y flwyddyn drwy wneud arbedion mewn meysydd eraill y tu hwnt i'r arbedion a nodwyd yn y cynlluniau arbedion. Eto, llwyddodd y Cyngor i danwario ychydig ar ei gyllideb o £0.6 miliwn yn 2014-15, ac mae hyn yn cynrychioli tua 0.5 y cant o'r gyllideb.

**19.** Roedd y gyllideb derfynol ar gyfer 2015-16 a gyflwynwyd i'r Cyngor yn cynnwys £4.3 miliwn o arbedion i lenwi'r bwlch yn y gyllideb refeniw ar gyfer 2015-16. Gwnaeth yr Adran Gyllid, fel rhan o'r broses o herio gwasanaethau, graffu ar berfformiad hanesyddol gwasanaethau o ran cydymffurfio â'u cyllidebau, gan herio cynlluniau gwario'r rhai oedd â hanes o wario'n llai na'u cyllideb. Tynnwyd cronfeydd ariannol wrth gefn o gyllidebau gwasanaethau unigol, ac fe'u canolwyd i'w defnyddio pe bai angen.

**20.** Yn wahanol i flynyddoedd blaenorol, ni fydd gwasanaethau'n cael newid eu cynlluniau arbedion oni bai eu bod yn defnyddio proses ailgyllido ffurfiol. Bydd hyn yn helpu i roi mwy o eglurder ynglŷn â ph'un a yw'r Cyngor yn llwyddiannus o ran cyflawni ei gynlluniau arbedion, yn hytrach na dod o hyd i arbedion mewn meysydd nad oedd wedi eu rhagweld, fel y digwyddodd yn y gorffennol. Lle nad yw cynlluniau arbedion yn eitemau syml unigol, bydd gofyn i reolwyr cyllidebau gydymffurfio ag egwyddorion rheoli prosiectau, er mwyn sicrhau bod arbedion yn cael eu hymgorffori'n fwy cadarn bob blwyddyn.

**21.** Er gwaethaf setliad grant heriol gan Lywodraeth Cymru, pennwyd cyllideb gytbwys gan y Cyngor ar gyfer 2015-16 drwy ddod o hyd i £4.3 miliwn o arbedion yn ei wasanaethau, ynghyd â chynnydd o 4.5 y cant yn y dreth gyngor.

**22.** Mae cyllideb 2015-16 y Cyngor yn rhoi ystyriaeth briodol a pherthnasol i'r pwysau ariannol y mae'r Cyngor yn eu hwynebu at y dyfodol. Roedd y rhagdybiaethau a wnaed gan y Cyngor o ran nodi diffygion yn gynhwysfawr, yn rhesymol, ac wedi eu hategu gan ddata cadarn.

**23.** Mae'r Cyngor yn dal i fod o dan bwysau ariannol sylweddol, ac mae'n ymwybodol y gall llithriant yn erbyn cyllidebau presennol a rhai yn y dyfodol ei roi o dan bwysau i ddod o hyd i arbedion ychwanegol. Mae angen tua £10 miliwn o arbedion ychwanegol ar gyfer cyllidebau 2016-17 a 2017-18, ac mae'r Cyngor yn cyrraedd terfyn yr arbedion y gellir eu cyflawni drwy ddefnyddio proses gynyddol o leihau costau heb effeithio ar ei allu i ddarparu'r gwasanaethau presennol mewn modd effeithiol. Bydd angen gwneud penderfyniadau anodd er mwyn llwyddo i gyflawni'r arbedion sydd eu hangen i aros o fewn cyllidebau blynyddol y dyfodol.

## Rheolaeth ariannol

Mae gan y Cyngor mwy o sefydlogrwydd o fewn ei adran gyllid, ac mae ei drefniadau ar gyfer rheolaeth ariannol wedi gwella, gan gynnwys prosesau ar gyfer pennu cyllidebau, ac ymgynghori â gwasanaethau, cynghorwyr a'r cyhoedd

**24.** Fel y nodwyd gennym yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol 2014, roedd proses pennu cyllidebau'r Cyngor wedi newid yn sylweddol ar gyfer ei gyllideb yn 2015-16. Symudwyd i ffwrdd o dargedau arbedion dan arweiniad yr Adran Gyllid, ac at broses fwy cynhwysfawr a oedd yn cynnwys ymgynghori â gwasanaethau, cynghorwyr a'r cyhoedd. Roedd swyddogion ac aelodau at ei gilydd yn gefnogol iawn o'r newidiadau hyn, a'r ffordd roeddent wedi gwella cyd-ddealltwriaeth a chydberchnogaeth yn y broses pennu cyllidebau.

**25.** Cyflwynwyd rhagor o newidiadau ar gyfer proses pennu cyllidebau 2016-17, o'r enw 'Cyllid Môn 2016-17'. Mae'r newidiadau'n cynnwys herio pob llinell wariant ynglŷn â'i hanghenion a'i hamcangyfrifon, yn seiliedig ar p'un a yw'r gwasanaeth yn statudol neu'n anstatudol. At hynny, caiff gwasanaethau eu herio i ystyried ffyrdd newydd o ddarparu'r hyn a ddarperir. Dechreuodd y broses yn ystod haf 2015, pan ofynnwyd i wasanaethau gyflwyno ceisiadau ffurfiol gydag arbedion effeithlonrwydd, a fyddai, yn eu tro, yn destun heriau gwasanaethau ac asesiadau o'u dichonoldeb gan gyfrifwyr gwasanaethau. Ers hynny, cyflwynwyd y cynigion i weithdai aelodau ac i ymgynghoriadau â'r cyhoedd.

**26.** Mae'r Cyngor wedi rhoi nifer o bolisïau ar waith i helpu i reoli ei gyllid, ac maent yn amlinellu manylion y cyfrifoldebau, yr amserlenni a'r canllawiau'n glir. Cyflwynwyd rhai mentrau yn ystod 2014-15, megis gwneud gwasanaethau'n atebol am eu cynlluniau arbedion, a chanoli cronfeydd wrth gefn gwasanaethau unigol er mwyn eu defnyddio pan fo angen, yn dilyn cymeradwyaeth gan yr Adran Gyllid. Mae ail-lansio system cyfeirlyfr cyffredinol y Cyngor, Civica, ar ôl blwyddyn gyntaf anodd o ran gweithredu'r system, wedi bod yn llwyddiannus, ac mae mwy o hyder bellach yn y wybodaeth ariannol sydd ar gael i wasanaethau'r Cyngor.

**27.** Yn ddiweddar, cymerwyd camau i fynd i'r afael â phroblemau o ran diffyg cysondeb ymhlith gwasanaethau unigol sy'n gweithredu polisi'r Cyngor ynglŷn â chynhyrchu incwm a chodi tâl, sydd ar waith ledled yr awdurdod. Mae'r weithdrefn newydd ar gyfer codi tâl yn sicrhau bod rhestr o holl ffioedd a thaliadau'r Cyngor yn cael ei chynnwys a'i hadolygu fel rhan o'r broses o bennu'r gyllideb. Caiff y rhestr ei rheoli gan yr Adran Gyllid er mwyn sicrhau bod rheolaethau'n cael eu cynnal mewn modd effeithiol a chyson.

**28.** Mae'r Cyngor yn rheoli ei gronfeydd defnyddiadwy mewn modd darbodus, ac mae'n cymryd camau adeiladol i sicrhau bod cronfeydd a balansau ysgolion yn cael eu cynnal, a bod unrhyw ddyledion ysgolion yn cael eu rheoli. Mae'r polisi cronfeydd yn glir ac yn gynhwysfawr, ac fe'i hadolygwyd ddiwethaf gan y weithrediaeth ym mis Tachwedd 2014.

29. Dros y pum mlynedd ddiwethaf, roedd Adran Gyllid y Cyngor dan arweiniad pedwar unigolyn gwahanol, a phenodwyd dau ohonynt i weithio dros dro. Yn hanesyddol, roedd swyddi allweddol yn yr adran wedi cael eu llenwi dros dro neu drwy ddefnyddio asiantaeth, oherwydd trosiant staff uchel ac anawsterau o ran recriwtio. Mae statws staff yr Adran Gyllid fel gweithwyr dros dro wedi cael effaith negyddol ar allu'r Cyngor i ddatblygu arbenigedd rheolaeth ariannol ymhlith rheolwyr ei wasanaethau, ac ar ei allu i gyflawni ei nod o 'ddatblygu ei rai ei hun'.

30. Fodd bynnag, yn ystod 2015, mae'r Cyngor wedi cymryd camau cadarnhaol i leihau dibyniaeth yr Adran Gyllid ar staff asiantaeth drwy recriwtio Swyddog Adran 151 parhaol, a thrwy ddefnyddio staff asiantaeth i helpu i gynorthwyo a mentora staff cyllid y Cyngor sydd mewn swyddi allweddol. Mae'r Cyngor hefyd wedi recriwtio dau hyfforddai cyllid i ddechrau'r broses o gynyddu gwybodaeth a phrofiad yn yr adran drwy ddefnyddio staff lleol, ac i gynyddu ei gydnerthedd yn wyneb newidiadau i'r staff.

31. Mae cynlluniau arbedion effeithlonrwydd y Cyngor ar gyfer 2015-16 yn cael eu rheoli mewn modd effeithiol ac mae'n debygol y byddant yn cael eu cyflawni. Cafodd y cynlluniau eu datblygu ar draws yr holl wasanaethau ac adrannau, a phrofwyd eu dichonoldeb drwy herio trwyadl gan adrannau unigol, cyfrifwyr gwasanaethau, rheolwyr cyllid, a'r Swyddog Adran 151. Mae'r cynlluniau'n disgrifio'n glir lle y bydd arbedion yn cael eu gwneud, gan gynnwys rhagdybiaethau realistig ar gyfer rhannau o'r flwyddyn, costau, ac arbedion o ganlyniad i newidiadau trawsffurfio. Bydd y cynlluniau'n cael eu monitro yn ystod 2015-16 gan Banel Canlyniadau'r Pwyllgor Craffu corfforaethol, er mwyn asesu'r cynnydd a wnaed ac unrhyw resymau dros lithriant neu golli targedau.

## Llywodraethu ariannol

Mae'r Cyngor wedi cryfhau ei drefniadau llywodraethu drwy ddwyn gwasanaethau i gyfrif am unrhyw amrywiaeth o ran perfformiad ariannol, ac mae'r Pwyllgor Archwilio'n gynyddol effeithiol o ran herio swyddogion i ddarparu diweddariadau rheolaidd ynglŷn â'u cynnydd

32. Mae'r Cyngor wedi gwella ei drefniadau ar gyfer adrodd ac adolygu perfformiad ariannol, ac mae ganddo systemau ar waith i sicrhau atebolrwydd ar gyfer tanberfformiad. Cyflwynir adroddiadau cyllid chwarterol i'r weithrediaeth a'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol ynglŷn â pherfformiad cyllidebol y Cyngor.

33. Nod y Cyngor yw mynnu bod gwasanaethau'n fwy atebol am eu cynlluniau arbedion yn 2015-16 nag yr oeddent ym mlynyddoedd blaenorol. Bydd yn rhaid i wasanaethau lunio adroddiadau ynglŷn â chynnydd yn erbyn eu cynlluniau arbedion i'r tîm cyllid ac i'r tîm o uwch reolwyr, a byddant yn atebol am unrhyw wahaniaethau sylweddol.

34. Mae uwch reolwyr, aelodau o'r weithrediaeth a chynrychiolwyr y Pwyllgor Craffu yn cymryd rhan mewn gwaith herio gwasanaethau'n rheolaidd, gan adolygu perfformiad pob gwasanaeth yn erbyn ei gynlluniau busnes a chynlluniau ariannol a chan sicrhau atebolrwydd penaethiaid gwasanaethau.

**35.** Gwnaethom hefyd nodi bod cynnydd o ran gweithredu rhai argymhellion archwilio mewnol wedi bod yn araf, a bod ôl-groniad o argymhellion a raddiwyd yn risg uchel neu ganolig nad ydynt wedi cael eu gweithredu ers 2012. Mae Pwyllgor Archwilio'r Cyngor yn gynyddol ymwybodol o'r mater hwn, ac yn herio swyddogion yn rheolaidd i roi sylw i argymhellion mewn da bryd, ac i roi diweddariadau rheolaidd ynglŷn â chynnydd.

**36.** Nid oes gan y Cyngor system i gofnodi bod y staff wedi darllen, deall a chydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau. Cafwyd enghreifftiau o ddiffyg cydymffurfiaeth mewn meysydd pwysig megis caffael corfforaethol a diogelwch gwybodaeth, er bod adroddiadau mewnol ac allanol wedi tynnu sylw at broblemau o ran cydymffurfiaeth ers 2011. Heb gofnodion o gydymffurfiaeth, mae'n anodd dangos bod y polisïau perthnasol wedi cael eu dosbarthu neu eu deall gan y staff. Mae'r Cyngor yn ymwybodol o'r mater hwn, ac yn ystyried opsiynau o ran cyflwyno system electronig i roi diweddariad i'r staff ynglŷn â pholisïau corfforaethol, i gadarnhau eu bod wedi eu deall gweithdrefnau a'u bod yn eu gweithredu, ac i ddarparu cyfleuster e-ddysgu. Mae'r Cyngor hefyd wedi ailstrwythuro ei dîm a'i brosesau caffael er mwyn mynd i'r afael â materion y tynnwyd sylw atynt mewn adroddiadau blaenorol.

**37.** Roedd gwaith Archwilio Mewnol y Cyngor yn cael ei reoli'n fewnol gan gontractwr allanol tan fis Mawrth 2015, pan ddaeth y contract i ben. Ar ôl hynny, adolygodd y Cyngor nifer o opsiynau, gan gaffael trefniadau gwasanaeth newydd gan gyngor cyfagos. O dan y trefniadau newydd, bydd y tîm Archwilio Mewnol yn parhau i gyflwyno adroddiadau cynnydd i'r Pwyllgor Archwilio, ond bydd hefyd yn hysbysu tîm uwch arweinwyr y Cyngor am unrhyw risgiau lefel uchel posibl y mae angen rhoi sylw iddynt.

# Atodiad 1

## Perfformiad yn erbyn dangosyddion ariannol allweddol


**38.** Mae defnyddio dangosyddion ariannol allweddol mewn cynlluniau ariannol tymor canolig yn rhoi mewnwelediad i effeithiolrwydd trefniadau rheoli ariannol a chydnerthedd ariannol, yn enwedig ar gyfer materion pwysig megis hylifedd, gerio, enillion ar fuddsoddiadau, a lefelau benthyca. Fel rhan o'n gwaith cydnerthedd ariannol, rydym wedi casglu data at ei gilydd o ddatganiad o gyfrifon y Cyngor, ac rydym hefyd wedi defnyddio data gan Lywodraeth Cymru.

### Perfformiad yn erbyn cyllideb

**39.** Gwnaethom edrych ar hanes tanwariant neu orwariant yn erbyn cyllidebau refeniw a pherfformiad ar alldro gwariant refeniw net. Mae hyn yn helpu i gadarnhau cryfder y trefniadau cynllunio ac effeithiolrwydd y trefniadau rheoli arian. Mae hanes da o sicrhau bod gwariant ac arbedion yn unol â'r gyllideb y cytunwyd arno yn arwydd cryf o p'un a fydd modd cyflawni cynlluniau ariannol yn y dyfodol, gan gynnwys arbedion mawr.

**40.** Bydd cynghorau sy'n parhau i orwario ar eu cyllideb refeniw mewn gwasanaethau sy'n seiliedig ar alw, megis gofal cymdeithasol oedolion a phlant, yn debygol o wynebu anawsterau ariannol yn y dyfodol. Mae cynghorau sy'n sicrhau bod eu diffyg cyllidebol net mor isel â phosibl (neu rai sydd ag ychydig o arian dros ben), ac sydd mewn sefyllfa alldro net ffafriol, yn perfformio'n dda. Mae'r dangosyddion canlynol yn ddefnyddiol er mwyn deall perfformiad:


Atodiad 1, Delwedd 1: Net (gwarged)/diffyg ar incwm a gwariant




| | 2008/09 | 2009/10 | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| YM | 31.574 | -4.219 | -106.374 | 25.557 | 13.135 | -1.613 | 2.762 |
| Cyfartaledd Cymru | 84.525 | 54.55 | -41.608 | 46.083 | 47.495 | -60.869 | 35.983 |

## Atodiad 1, Delwedd 2: Gwerth cyfanswm arbedion refeniw


Dangosir tanwariant fel swm negyddol; dangosir gorwariant fel swm positif




## Hylifedd (asedau cyfredol byrdymor wedi eu rhannu gan rhwymedigaethau cyfredol byrdymor


**41.** Mae'r dangosydd hwn yn nodi p'un a oes digon o asedau i dalu am rhwymedigaethau tymor byr. Mae'r 'gymhareb gyfredol' o asedau (asedau y gellir eu trosi i arian parod) i rhwymedigaethau (rhwymedigaethau tymor byr y mae angen eu talu'n brydlon) yn dangos hylifedd. Mae hylifedd yn bwysig am ei fod yn dangos pa mor hawdd ydyw i drosi asedau i arian parod mewn cyfnod byr, sy'n rhoi mwy o ryddid ariannol i berchennog yr ased.

Atodiad 1, Delwedd 3: Asedau cyfredol byrdymor mewn £Miliynau




| | 2008/09 | 2009/10 | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| YM | 45.0 | 51.3 | 55.1 | 39.4 | 38.9 | 32.6 | 36.3 |
| Cyfartaledd Cymru | 76.7 | 71.3 | 79.9 | 78.7 | 75.9 | 72.9 | 78.1 |


Atodiad 1, Delwedd 4: Rhwymedigaethau cyfredol byrdymor mewn £Miliynau




| | 2008/09 | 2009/10 | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| YM | 25.11 | 23.62 | 32.23 | 25.24 | 30.93 | 23.98 | 24.47 |
| Cyfartaledd Cymru | 46.37 | 44.39 | 49.27 | 53.84 | 54.48 | 53.48 | 56.70 |

**42.** Cyfrifir y gymhareb cyfalaf gweithio drwy rannu'r asedau cyfredol tymor byr â'r rhwymedigaethau presennol tymor byr. Mae unrhyw gymhareb o dan 1:1 yn wael iawn, ac yn ddelfrydol dylai fod yn uwch na 1.5 er mwyn sicrhau bod cyfalaf clustogi ar gyfer anghenion cyfalaf gweithio. Mae cymhareb cyfalaf gweithio sy'n llai na 1:1 yn awgrymu y bydd gan y Cyngor broblemau yn y dyfodol, tra bod cymhareb o tua 1:5 neu'n uwch yn dangos hylifedd tymor byr da.

Atodiad 1, Delwedd 5: Cymhareb cyfalaf gweithio





| | 2008/09 | 2009/10 | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| YM | 1.79 | 2.17 | 1.71 | 1.56 | 1.26 | 1.36 | 1.48 |
| Cyfartaledd Cymru | 1.8 | 1.69 | 1.63 | 1.48 | 1.42 | 1.4 | 1.45 |

## Benthyca

**43.** Mae'r dangosydd hwn yn edrych ar fenthyca tymor hir (Delwedd 7) fel cyfran o asedau tymor hir (Delwedd 8). Adwaenir hyn fel y 'gymhareb gerio'.


**44.** Mae cymhareb gerio isel yn dangos bod cyngor yn sefydlog yn ariannol a bod ganddo fwy o ryddid i fenthyca, oherwydd bydd mewn sefyllfa well i dalu'r llog na'r rhai sydd â chymarebau uwch. Mae gerio, felly, yn fodd defnyddiol o fesur iechyd ariannol corfforaethol am ei fod yn galluogi cymhariaeth rhwng cronfeydd y Cyngor a 'dyledion' a fenthycwyd. Yn gyffredinol, dylai gerio fod o gwmpas 25 y cant, oni bai bod hylifedd (a ddangosir yn Nelwedd 5) yn gryf iawn.

Atodiad 1, Delwedd 6: Cymhareb gerio, benthyca hirdymor dros asedau hirdymor





| | 2008/09 | 2009/10 | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| YM | 29.1 | 31.9 | 30.7 | 30.9 | 28.4 | 27.4 | 25.2 |
| Cyfartaledd Cymru | 25.3 | 23.9 | 23.9 | 23.1 | 23.4 | 23.9 | 24.1 |

Atodiad 1, Delwedd 7: Benthyca hirdymor mewn £Miliynau




| | 2008/09 | 2009/10 | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| YM | 90.1 | 97.6 | 96.1 | 96.1 | 89.6 | 89.6 | 89.6 |
| Cyfartaledd Cymru | 159.4 | 154.8 | 150.3 | 150.0 | 151.3 | 152.4 | 159.4 |

Atodiad 1, Delwedd 8: Asedau anghyfredol hirdymor mewn £Miliynau





| | 2008/09 | 2009/10 | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| YM | 309.20 | 306.27 | 313.34 | 311.39 | 315.48 | 326.93 | 355.20 |
| Cyfartaledd Cymru | 693.19 | 705.24 | 677.25 | 689.41 | 686.82 | 678.41 | 704.97 |

## Cronfeydd

### Asedau/rhwymedigaethau net

**45.** Mae'r dangosydd hwn yn archwilio sefyllfa net cyfanswm yr asedau a chyfanswm yr rhwymedigaethau, ac yn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â chyfanswm y cronfeydd. Mae rhwymedigaeth net yn arwydd o sefyllfa ariannol wael iawn. Mae cyfanswm asedau net yn cynnwys: asedau tymor byr cyfredol, asedau tymor hir anghyfredol, rhwymedigaethau tymor byr cyfredol, benthyca tymor hir, ac rhwymedigaethau tymor hir anghyfredol eraill.


Atodiad 1, Delwedd 9: Cyfanswm asedau net mewn £Miliynau




| | 2008/09 | 2009/10 | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| YM | 96.881 | 34.182 | 189.153 | 163.596 | 150.461 | 152.072 | 149.31 |
| Cyfartaledd Cymru | 261.842 | 225.2 | 343.366 | 293.34 | 244.806 | 304.82 | 271.497 |

**46.** Mae cyfanswm cronfeydd yn cynnwys: Cronfa Gyffredinol, cronfeydd a glustnodwyd, balansau ysgolion, cronfeydd defnyddiadwy eraill, a chronfeydd annefnyddadwy.

Atodiad 1, Delwedd 10: Cyfanswm cronfeydd wrth gefn mewn £Miliynau





| | 2008/09 | 2009/10 | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| YM | 96.881 | 34.182 | 189.153 | 163.596 | 150.461 | 152.072 | 149.310 |
| Cyfartaledd Cymru | 261.842 | 225.200 | 343.366 | 293.340 | 244.806 | 304.817 | 271.498 |

## Balansau ysgolion (ysgolion sy'n cael eu rhedeg gan y Cyngor yn unig)

**47.** Mae'r dangosydd hwn yn archwilio p'un a yw balansau net ysgolion yn cael eu cynnal â diffygion. Mae balansau ysgolion yn ffurfio rhan o gronfeydd defnyddiadwy a glustnodwyd ar y daenlen, ac fe'u tynnwyd o'r nodiadau i'r cyfrifon, sy'n dangos y newidiadau yn ystod y flwyddyn.

### Atodiad 1, Delwedd 11: Cronfeydd balansau ysgolion mewn £Miliynau





| | 2008/09 | 2009/10 | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| YM | 3.25 | 3.15 | 2.25 | 1.25 | 1.18 | 1.52 | 2.44 |
| Cyfartaledd Cymru | 3.63 | 3.56 | 3.87 | 3.58 | 3.60 | 2.77 | 3.11 |

## Cronfeydd defnyddiadwy


**48.** Y dangosydd a ddefnyddir yma yw 'cyfanswm y cronfeydd defnyddiadwy fel canran o wariant refeniw crynswth'. Mae hyn yn cynnwys 'Cronfa Gyffredinol' a chronfeydd a glustnodwyd. Mae cyfanswm y cronfeydd defnyddiadwy wedi'i rannu gan gyfanswm gwariant crynswth, ac mae'n rhoi cymhareb sy'n dangos y swm clustogi sydd ar gael ar gyfer gwariant yn y dyfodol. Mae unrhyw beth dros 10 y cant yn ddangosydd da o ran pa mor gryf yw'r gronfa. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu bod lefelau sy'n llai na hyn yn golygu gwendid ychwaith. Dylai cynghorau ystyried a chytuno ar lefel briodol ar gyfer cronfeydd ar gyfer eu hamgylchiadau eu hunain, yn seiliedig ar argymhelliad gan Swyddog Adran 151.

Atodiad 1, Delwedd 12: Cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy dros wariant refeniw




| | 2008/09 | 2009/10 | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| YM | 7 | 9.5 | 10.7 | 9.4 | 11.1 | 11.3 | 11.4 |
| Cyfartaledd Cymru | 8.2 | 9.1 | 11.1 | 10.7 | 10.9 | 11.4 | 11.4 |

Atodiad 1, Delwedd 13: Cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy eraill mewn £Miliynau




| | 2008/09 | 2009/10 | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| YM | 3.495 | 5.301 | 0.255 | 0.247 | 1.774 | 2.73 | 3.837 |
| Cyfartaledd Cymru | 10.38 | 12.147 | 15.213 | 15.006 | 14.09 | 13.676 | 15.13 |

# Nodweddion allweddol

| Nodweddion allweddol cynllunio ariannol da |
|---|
| Caiff cyllideb yr awdurdod ei phennu yng nghyd-destun strategaeth ariannol tymor hir a chynllun ariannol tymor canolig sy'n ymdrin â chyfnod rhwng tair a phum mlynedd. |
| Mae'r awdurdod wedi nodi'n glir yr arbedion y mae'n bwriadu eu gwneud dros gyfnod rhwng tair a phum mlynedd. Mae'r cynllun arbedion wedi'i danategu gan wybodaeth fanwl ynglŷn â chostau a chynlluniau ar gyfer arbedion unigol (gan gynnwys arbedion trawsnewid/newid). |
| Mae gan yr awdurdod hanes da o gydymffurfio â'i gynlluniau arbedion. |
| Mae'r awdurdod yn rhoi'r sylw sydd ei angen i'w allu i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol wrth ystyried ei gynlluniau ariannol ar gyfer y tymor byr, canolig a hir. |
| Mae gwaith cynllunio ariannol tymor canolig a chyllidebau blynyddol yn adlewyrchu amcanion a blaenoriaethau strategol yr awdurdod ar gyfer y flwyddyn a thros y tymor hwy. |
| Mae rhagdybiaethau ynglŷn â chwyddiant, lefelau incwm, demograffeg, galw am wasanaethau yn y dyfodol, a chostau darparu gwasanaethau wedi eu modelu, ac maent yn seiliedig ar ragfynegiadau rhesymol. |
| Mae'r awdurdod yn deall ei ffynonellau incwm a'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r rhain, ac mae wedi adolygu ei ymagwedd at ffioedd a thaliadau er mwyn sicrhau ei fod yn cael gwerth am arian. |
| Mae prosesau cynllunio ariannol a chorfforaethol wedi eu hintegreiddio, maent yn gysylltiedig â threfniadau rheoli risg, ac maent yn ymgorffori gwaith cynllunio strategol ar gyfer adnoddau eraill, gan gynnwys y rhaglen gyfalaf a'r gwaith o gynllunio'r gweithlu. |
| Mae'r awdurdod yn defnyddio modelau ariannol i asesu'r effeithiau tebygol ar gynlluniau ariannol a'r arbedion sydd eu hangen ar gyfer gwahanol sefyllfaoedd, ac i helpu i sicrhau nad yw datrysiadau tymor byr yn cael eu ffafrio dros gynaliadwyedd yn y tymor hir. |
| Mae'r awdurdod yn modelu ffactorau allweddol sy'n ysgogi gwariant (er enghraifft, newidiadau yn y boblogaeth a galw am wasanaethau), ffynonellau incwm (er enghraifft, incwm a rhagolygon grantiau gan y llywodraeth), canlyniadau cyfalaf ar refeniw, ac anghenion a balansau o ran adnoddau. |
| Mae'r awdurdod yn gweithredu o fewn lefel o gronfeydd a balansau (gan gynnwys cronfeydd a glustnodwyd a balans y gronfa gyffredinol) sydd wedi ei chymeradwyo gan aelodau, ac sy'n briodol ar gyfer y risgiau strategol, gweithredol ac ariannol sy'n ei wynebu. |
| Os nad yw'r awdurdod yn cyrraedd ei lefel darged ar gyfer balansau, mae cynlluniau gweithredu ar waith er mwyn cyflawni hyn, gan ystyried unrhyw risgiau cysylltiedig i sefyllfa ariannol y sefydliad a'i allu i gyflawni ei flaenoriaethau. |

| Nodweddion allweddol rheolaeth ariannol dda |
| --- |
| Mae gan yr awdurdod bolisi priodol ac effeithiol ar gyfer rheoli cyllidebau, sy'n amlinellu swyddogaethau, cyfrifoldebau, ac atebolrwydd yn eglur. Mae'r cynllun dirprwyo'n glir, ac mae prosesau wedi eu hamlinellu i reoli achosion o danwario neu orwario yn y gyllideb. |
| Mae'r gwaith rhagweld a monitro ariannol yn addas i'r diben ac yn seiliedig ar groniadau, gan helpu i sicrhau bod cyswllt clir rhwng y gyllideb, rhagolygon yn ystod y flwyddyn, a'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn. |
| Mae'r awdurdod yn dadansoddi ac yn cyfrifo tueddiadau perthnasol, ac yn ystyried eu heffaith ar yr alldro terfynol rhagamcanol. |
| Mae'r awdurdod yn cymryd camau amserol i fynd i'r afael ag unrhyw bwysau cyllidebol, er enghraifft, trwy gymryd camau unioni i reoli newidiadau anffafriol neu drwy ailystyried blaenoriaethau corfforaethol. |
| Mae gan yr awdurdod hanes da yn ddiweddar o weithredu o fewn ei gyllideb, heb unrhyw achosion o orwario sylweddol. |
| Mae'r awdurdod wedi cytuno ar bolisi clir ynglŷn â defnyddio ei gronfeydd. Mae'n glir bod lefel isaf gyfiawn ar gyfer balans ei 'gronfa gyffredinol'. Mae sail resymegol glir i esbonio'r trosglwyddiad o gronfeydd wrth gefn, neu rhyngddynt. Mae protocolau clir yn esbonio sut a phryd y dylid defnyddio pob cronfa wrth gefn. Mae penderfyniadau ynglŷn â chronfeydd wrth gefn wedi eu tanategu gan asesiad cynhwysfawr o'r risg ac o'r perfformiad presennol. |
| Mae aelodau wedi cytuno ar y polisi cronfeydd wrth gefn, ac mae'r polisi'n destun mesurau craffu. |
| Mae gan yr awdurdod bolisi clir ynglŷn â chynhyrchu incwm/codi tâl. Mae cofrestr taliadau ledled ei wasanaethau er mwyn helpu i reoli taliadau'n gyson. Mae gan yr awdurdod ganllawiau corfforaethol ynglŷn â sut y dylai consesiynau gael eu gweithredu. Caiff taliadau eu hadolygu'n rheolaidd a chaiff y polisi ei ddiweddaru. |
| Mae'r awdurdod yn pennu ac yn monitro targedau heriol ar gyfer casglu categorïau incwm ac ôl-ddyledion perthnasol yn seiliedig ar ba mor hen yw dyledion. Lle nad yw targedau'n cael eu cyrraedd, cymerir camau unioni priodol yn ystod y flwyddyn i gyflawni'r targedau. |
| Nid yw'r awdurdod yn dileu lefelau sylweddol o ddyledion fel dyledion nad oes modd eu casglu. |
| Mae'r awdurdod yn monitro ei gymarebau ariannol allweddol, yn eu meincnodi yn erbyn cyrff tebyg, ac yn gweithredu fel y bo'n briodol. |
| Mae'r datganiad llywodraethiant blynyddol yn rhoi darlun cywir o'r awdurdod. |

| Nodweddion allweddol llywodraethiant ariannol da |
| --- |
| Mae'r tîm arweinyddiaeth yn deall yn glir yr heriau rheolaeth ariannol sylweddol sy'n newid yn gyflym y mae'r sefydliad yn eu hwynebu, ac mae'n cymryd camau gweithredu priodol i sicrhau sefyllfa ariannol sefydlog. |
| Mae'r prif swyddog ariannol yn aelod allweddol o'r tîm arweinyddiaeth, ac mae'n chwarae rhan weithredol ym mhob penderfyniad busnes, ac yn hyrwyddo ac yn darparu rheolaeth ariannol dda. |
| Mae'r tîm arweinyddiaeth yn meithrin amgylchedd lle ceir dealltwriaeth dda a heriau rheolaidd o ragdybiaethau a pherfformiad ariannol, a diwylliant o dryloywder ynglŷn â'r sefyllfa ariannol. |
| Mae'r tîm arweinyddiaeth yn ystyried y sgiliau ariannol sydd eu hangen ar gyfer gwahanol haenau'r rheolwyr a'r staff drwy'r sefydliad, ac mae'n weithredol o ran datblygu llythrennedd ariannol a sgiliau ariannol. |
| Mae'r tîm arweinyddiaeth yn darparu mesurau craffu a heriau adeiladol ynglŷn â materion ariannol, er mwyn sicrhau bod trefniadau'n parhau i fod yn gadarn ac yn addas i'r diben. |
| Mae trefniadau rheolaidd a thryloyw ar gyfer cyflwyno adroddiadau i'r aelodau. Mae adroddiadau'n cynnwys manylion gwaith cynllunio gweithredoedd a dadansoddiadau amrywiant. |
| Mae aelodau'n craffu ac yn herio perfformiad ariannol mewn modd effeithiol, gan fynnu bod swyddogion yn atebol. |
| Mae gan yr awdurdod bwyllgor archwilio gwrthrychol, deallus ac effeithiol sy'n herio gwahanol rannau o'r awdurdod, ac mae sicrwydd ynglŷn â'r trefniadau ar gyfer rheoli risg, cynnal rheolaeth fewnol effeithiol, a llunio adroddiadau ynglŷn â pherfformiad ariannol a pherfformiad ym meysydd eraill. |
| Caiff argymhellion archwiliadau mewnol ac allanol eu trin mewn modd effeithiol a phrydlon. |
| Ymgysylltir â rhanddeiliaid ynglŷn â materion cyllidebol mewn modd effeithiol, gan gynnwys ymgynghoriadau cyhoeddus. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHIANT** |
| **DYDDIAD:** | **15 MAWRTH 2016** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **ARCHWILIO GRANTIAU** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **ER GWYBODAETH** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **MARC JONES - PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151** |
| **GWEITHREDU:** | **ER GWYBODAETH** |

## 1. RHAGARWEINIAD

**1.1** Mae'r adroddiad hwn yn nodi manylion y grantiau y mae angen i'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol eu hardystio ac y mae gofyn i Archwilwyr Allanol eu hadolygu. Mae'n rhoi manylion am y gwaith y mae gofyn i'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol ei wneud fel bod modd i grantiau gael eu hardystio.

## 2. CEFNDIR

**2.1** Mae nifer o grantiau yn dod i mewn i'r Awdurdod bob blwyddyn gan nifer o gyrff cyllido gwahanol. Mae nifer y grantiau hyn y mae gofyn cynnal archwiliad allanol arnynt yn gostwng. Mae'r nifer wedi gostwng o 22 yn 2013/14 i 15 yn 2014/15. Mae'r gostyngiad yn y niferoedd yn adlewyrchu nid yn unig y ffaith fod rhai ffynonellau arian grant wedi dod i ben ond hefyd y ffaith nad oes raid cynnal Archwiliad Allanol ar gymaint o grantiau.

**2.2** Mae Llywodraeth Cymru (LlC) yn ceisio symleiddio'r broses o archwilio grantiau ac yn rhoi mwy o bwyslais ar y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn ardystio gwariant.

## 3. RHAGLEN ARCHWILIO GRANTIAU

**3.1** Yn y mwyafrif o achosion, caiff y grantiau eu cyflwyno i'w harchwilio'n allanol yn ystod y 6 mis yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol. Yna mae'r gwaith archwilio'n cael ei wneud rhwng mis Medi a mis Rhagfyr y flwyddyn honno.

**3.2** Mae Atodiad 1 yn dangos rhestr o grantiau 2014/15 a gafodd eu cyflwyno i'w harchwilio yn ystod 2015/16.

**3.3** Mae cwmpas y gwaith archwilio ar draws y grantiau yn debyg iawn. Fel arfer, bydd archwilwyr yn cynnal prawf ar :-

- Sampl o tua 20 o anfonebau i sicrhau bod TAW wedi cael ei drin yn gywir yn y cyfriflyfr a'r hawliad;
- Yr anfonebau ar gyfer nwyddau / gwasanaethau a ddarparwyd er mwyn sicrhau mai dim ond gwariant cymwys o fewn y cyfnod sydd wedi'i gynnwys yn yr hawliad. Yn achos arian Ewropeaidd rhaid dangos y gwariant o'r cyfrif banc hefyd ar ffurf datganiadau banc;
- Y tâl a godir yn fewnol er mwyn sicrhau bod yr Awdurdod yn codi'r un gyfradd dâl ar brosiectau a gyllidir gan grant ag a godir ar gynlluniau nad ydynt yn cael eu cyllido â grant;
- Y Gofrestr Asedau os yw'r grant naill ai wedi creu neu wella ased cyfalaf i sicrhau bod yr addasiad cywir wedi cael ei wneud;
- Incwm a dderbyniwyd o'r adeg pan wnaed y taliad hyd at y datganiadau banc;

- Trosglwyddiadau cyllidebol a ph’un a oes angen cymeradwyaeth ymlaen llaw gan y corff cyllido, ac os oes, a gafwyd y fath gymeradwyaeth;
- Tystiolaeth o fonitro gwariant trydydd parti;
- Tystiolaeth bod Contractau Trydydd Parti / Cytundebau Lefel Gwasanaeth wedi eu sefydlu;
- Gwirio cyfraddau fesul awr ar gyfer staff, gan edrych ar y taflenni amser a’r costau cyflogres gwirioneddol a gafwyd;
- Gwirio’r broses gaffael gan sicrhau cydymffurfiaeth â Rheolau Sefydlog yr Awdurdod;
- Cysoni’r cyfanswm gwariant gyda’r cyfriflyfr;
- Yr amgylchedd rheoli ar gyfer llunio'r cais a phrofiad y staff dan sylw;
- Dyblygu gwariant posibl gyda chynlluniau eraill a ariennir gan grant;
- Unrhyw amodau grant penodol.

**3.4** Yn hanesyddol, mae archwiliad grant yn cymryd tua wythnos i’w gwblhau ar yr amod bod yr holl wybodaeth wedi cael ei darparu’n brydlon i'r archwiliwr ond gall yr amser a dreulir ar archwiliad amrywio. Bydd hyn yn dibynnu ar gymhlethdod y grant, nifer a math y trafodion dan sylw a safon y papurau gwaith.

**3.5** Bydd telerau ac amodau'r grant yn y Llythyr Cynnig yn dweud a oes gofyn cynnal archwiliad allanol o’r grant. Fodd bynnag, roedd yna rai newidiadau yn ystod 2015/16 yn dilyn trafodaethau rhwng Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) a LlC. Arweiniodd hynny at reidrwydd i archwilio rhai o grantiau 2014/15 yn fewnol yn hytrach nag yn allanol yn ystod blwyddyn archwilio 2015/16. Gwnaed y penderfyniad hwn ar ôl i Gynllun Archwilio Mewnol 2015/16 gael ei gymeradwyo ac, o ganlyniad, fe gafodd y gwaith archwilio ychwanegol ei gategoreiddio fel gwaith nad oedd wedi ei gynllunio yn ystod 2015/16. Mae Cynllun Archwilio Mewnol 2016/17 yn cymryd y gwaith ychwanegol hwn i ystyriaeth ac felly bydd gwaith ardystio grantiau yn cael ei gategoreiddio fel gwaith a gynlluniwyd o hyn ymlaen.

**3.6** Roedd y grantiau hyn yn cynnwys Llwybrau Dysgu 14-19, y Grant Effeithlonrwydd Ysgolion (GEY) a'r Grant y Gymraeg mewn Addysg – cafodd pob un ohonynt eu harchwilio’n allanol yn y flwyddyn flaenorol. Gwnaed y newidiadau wrth symud drosodd i’r Grant Gwella Addysg (GGA) sydd wedi cyfuno 11 o grantiau addysg i greu un grant cyfun yn 2015/16. Cadarnhawyd y newid i'r Awdurdod ym mis Mehefin gyda’r gwaith i'w gwblhau gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol erbyn mis Rhagfyr.

**3.7** Roedd Grant Llwybrau Dysgu 4-19 a'r Grant Effeithlonrwydd Ysgolion (GEY) yn grantiau cymhleth lle'r oedd rhaid cael samplau o drafodion o nifer o ysgolion, a oedd yn cynnwys cofnodion taflenni amser. Roedd ansawdd y cofnodion hyn yn amrywio o ysgol i ysgol ac oherwydd hynny, a’r ffaith mai hwn oedd y tro cyntaf i’r grantiau hyn gael eu harchwilio gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol, bu angen mwy o amser i gwblhau'r archwiliadau i'r safon ofynnol.

**3.8** Mae archwiliad 2015/16 o'r GGA wedi’i gynnwys yn y Cynllun Archwilio i’r dyfodol.

**3.9** Yn ystod y misoedd nesaf cytunir ar Raglen Archwilio Grantiau 2015/16 gyda’r Archwilwyr Allanol newydd.

Hawliadau hwyr a/ neu hawliadau a ardystiwyd yn amodol

| Grantiau 2014/15 | Dyddiad Cau ar gyfer Archwilio | Cyflawnwyd | Amodol | Archwilio Mewnol neu Allanol yn 2015/16 |
|---|---|---|---|---|
| Rhaglen Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol | 29.01.16 | 21.12.15 | Na | Allanol |
| Craidd Cymunedau'n Gyntaf | 31.12.15 | 27.11.15 | Na | Allanol |
| Teuluoedd yn Gyntaf | 31.12.15 | 21.12.15 | Na | Allanol |
| Dechrau'n Deg - Refeniw | 31.12.15 | 21.12.15 | Na | Allanol |
| Dechrau'n Deg - Cyfalaf | 31.12.15 | 21.12.15 | Na | Wedi dod i ben |
| Rheoli Gwastraff Cynaliadwy (Grant Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy yn y dyfodol) | 31.12.15 | 21.12.15 | Na | |
| Cronfa Cludiant Lleol | 31.12.15 | 21.12.15 | Na | Allanol |
| Teithio am Ddim | 31.12.15 | 21.12.15 | Na | Allanol |
| Trethi Annomestig | 27.11.15 | 15.12.15 | Na | Allanol |
| Pensiynau Athrawon | 30.11.15 | 15.12.15 | Ia | Allanol |
| Cymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai | 31.12.15 | 20.01.16 | Na | D/B |
| Cymhorthdal Budd-dal Tai a Budd-dal y Dreth Gyngor | 30.11.15 | Yn parhau | | Allanol |
| Grant Cydgyfeiriant - Arfordir Ynys Môn - Terfynol 30.06.15 | 11.08.15 | 11.08.15 | Ia | Wedi dod i ben |
| Safleoedd ac Adeiladau Strategol – Terfynol 30.06.15 | 11.08.15 | 10.08.15 | Na | Wedi dod i ben |
| Grant Cydgyfeiriant – Cronfa Fuddsoddi Leol - Terfynol 30.06.15 | 11.08.15 | 18.08.15 | Ia | Wedi dod i ben |
| Grant Amddifadedd Disgyblion | 31.12.15 | 04.09.15 | Na | Mewnol |
| Llwybrau Dysgu 14-19 * | 31.12.15 | 18.11.15 | Na | Mewnol |
| Grant y Gymraeg mewn Addysg* | 30.10.15 | 24.09.15 | Na | Mewnol |
| Grant Effeithiolrwydd Ysgolion* | 30.10.15 | 24.09.15 | Na | Mewnol |
| Bwrdd Gwasanaeth Lleol ESF* | 15.05.15 | 12.05.15 | Na | Wedi dod i ben |

* Wedi eu cyfuno yn 2015/16 i greu un grant, sef y Grant Gwella Addysg

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHIANT** |
| **DYDDIAD:** | **15 MAWRTH 2016** |
| **PWNC:** | **ADRODDIAD CYNNYDD AR ARCHWILIO MEWNOL 1 EBRILL – 31 RHAGFYR 2015** |
| **SWYDDOG ARWEINIOL:** | **PENNAETH ARCHWILIO MEWNOL – MIKE HALSTEAD** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **RHEOLWR ARCHWILIO – SIONED PARRY** |

**Natur a rheswm am adrodd –** i gydymffurfio â gofynion Safonau Archwilio Mewnol Sector Cyhoeddus y DU a Safonau DU CIPFA a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2013, lle mae gofyn i'r Pennaeth Archwilio adrodd yn gyfnodol i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant ar berfformiad y Gwasanaeth Archwilio Mewnol mewn perthynas â Chynllun Archwilio 2015/16 ac ystyried mesurau perfformiad Archwilio Mewnol yn chwarterol.

**1. CYFLWYNIAD**

1.1 Cynhyrchir yr adroddiad hwn i gydymffurfio â Chylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant, sy'n gofyn i'r Pwyllgor adolygu cynnydd wrth gyflawni'r Cynllun Archwilio Mewnol a'r Strategaeth Archwilio Mewnol trwy dderbyn ac ystyried adroddiadau cynnydd chwarterol.

1.2 Mae'r adroddiad yn dadansoddi perfformiad y Gwasanaeth Archwilio Mewnol am y cyfnod 1 Ebrill 2015 hyd at 31 Rhagfyr 2015 a chaiff ei gefnogi gan **Atodiadau A i G** sy'n rhoi manylion am y cynnydd yn erbyn targedau perfformiad ar gyfer 2015/16 a'r gwaith a wnaed gan y Gwasanaeth yn ystod y cyfnod hwn.

1.3 Cyflwynwyd Cynllun Strategol diwygiedig am y cyfnod 3 blynedd 2015/16 hyd at 2017/18 i gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant ar 27 Gorffennaf 2015 ac fe'i cymeradwywyd ganddo. Mae Cynllun Gweithredol 2015/16 sy'n deillio o hynny yn darparu cynllun mwy cytbwys; sy'n galluogi medru archwilio'n ehangach ac archwilio nifer o feysydd nad ydynt wedi bod yn destun adolygiad archwilio yn y blynyddoedd diweddar.

**2. ARGYMHELLIAD**

2.1 Gofynnir i'r Aelodau ystyried a darparu sylwadau ar y sicrwydd a ddarperir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant yn yr adroddiad hwn yng nghyswllt y prosesau rheolaethau mewnol, rheoli risg a llywodraethu corfforaethol sydd ar waith i gyflawni amcanion yr Awdurdod.

**3. GWYBODAETH GEFNDIROL**

**3.1 Perfformiad Archwilio Mewnol 1/4/15 hyd at 31/12/15**

3.1.1 Cwblhawyd dadansoddiad o waith a pherfformiad y Gwasanaeth Archwilio Mewnol am y cyfnod 1/4/15 hyd at 31/12/15. Roedd 10 o brosiectau archwilio oedd yn amrywio o ran

cymhlethdod ar gyfer 2014/15 nad oedd wedi'u cyflawni na'u cyflwyno erbyn 31/03/15, sy'n golygu bod gwaith yn mynd rhagddo arnynt fel a ganlyn:

- System Derbynebau Arian
- Treth Gyngor
- Budd-daliadau Tai
- Rhenti Tai
- Y Brif System Gyfrifo
- NNDR
- Y Gyflogres
- Mân-ddyledion
- Rheoli'r Trysorlys
- Gwirio Stoc DLO

3.1.2 Treuliwyd 5.5 diwrnod ar waith oedd yn mynd rhagddo yn ystod 2015/16 hyd at ddiwedd mis Awst, ac fe ddaw'r dyddiau hyn o'r ddarpariaeth oedd yn weddill ar gyfer gwaith o'r fath yn y flwyddyn flaenorol.

3.1.3 Mae atodlen o dargedau perfformiad am y cyfnod a ddaeth i ben ar 31/12/15 ynghlwm yn **Atodiad A.** Dylid nodi bod y dangosydd perfformiad yng nghyswllt archwiliadau a wnaed yn ystod y cyfnod hwn wedi cael ei ostwng oherwydd yr angen i'r Gwasanaeth ganolbwyntio ar gwblhau'r holl waith oedd yn mynd rhagddo yn 2014/15. Mae'r cynnydd hefyd wedi dioddef oherwydd lefel salwch uwch na'r disgwyl o fewn y Tîm Archwilio a'r ffaith y bu swydd wag o fewn y tîm hyd 31 Hydref 2015.

### 3.2 Gwaith Ychwanegol heb ei Gynllunio

3.2.1 Ni chynhaliwyd unrhyw archwiliad ychwanegol oedd heb ei gynllunio yn ystod y cyfnod 1/11/15 hyd at 31/12/15. Ceir manylion am yr archwiliadau heb eu cynllunio a gynhaliwyd cyn y cyfnod hwn yn **Atodiad B.** Rydym hefyd wedi gwneud gwaith heb ei gynllunio ar ardystio grantiau – archwilio allanol oedd yn gwneud hyn yn flaenorol, ac roedd yn cyfateb i 34 diwrnod o waith.

### 3.3 Llithriad yn y Cynllun Blynyddol

3.3.1 Mae un archwiliad yn cael ei gategoreiddio fel un sydd wedi llithro hyd at 31 Rhagfyr 2015 sy'n cyfrif am 10 niwrnod o waith – ceir manylion yn **Atodiad C** sydd ynghlwm. Cytunwyd gyda'r rheolwyr y byddai'r archwiliad ar y Gwasanaethau Adeiladu a Rheoli'n cael ei gario drosodd i 2016/17 oherwydd problemau staffio yn yr Adain Rheoli Adeiladu.

### 3.4.1 Datganiad o Sicrwydd

3.4.1 Mae gofyn i'r Pennaeth Archwilio ddarparu barn i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant ar ba mor ddigonol ac effeithiol yw systemau llywodraethiant a rheoli risg yr Awdurdod ar y cyfan ynghyd â'i amgylchedd rheolaethau mewnol. Mae hyn yn cydymffurfio â gofynion Safonau Archwilio Mewnol Sector Cyhoeddus a Nodyn Cymhwyso Llywodraeth Leol CIPFA. Y farn gyffredinol yw un o'r mesurau sicrwydd a ddefnyddir gan yr Awdurdod wrth baratoi'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol sy'n ofynnol dan y Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio.

3.4.2 Mae'r barnau archwilio ar bob un o'r aseiniadau a wnaed yn ystod y flwyddyn hyd yma wedi cael eu categoreiddio fel a ganlyn:

- Sicrwydd Sylweddol
- Sicrwydd Rhesymol
- Sicrwydd Cyfyngedig
- Sicrwydd Isel Iawn

3.4.3. I gefnogi'r farn archwilio, mae'r argymhellion a wnaed yn ystod y flwyddyn wedi cael eu categoreiddio fel rhai blaenoriaeth Uchel, Canolig ac Isel, fel y cawsant eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant ar 27 Gorffennaf 2015. Mae diffiniadau o gyfraddau risg yr argymhellion a'r farn archwilio ynghlwm yn **Atodiad D.** Rhoddir ystyriaeth i gysoni cyfraddau risg yr argymhellion gan Archwilio Mewnol gyda Matrics Rheoli Risg yr Awdurdod gan felly gyfnerthu'r broses rheoli risg ymhellach yn yr Awdurdod. Byddwn yn ceisio cymeradwyaeth y Pwyllgor yn hwyrach ymlaen.

3.4.4 Mae crynodeb o'r holl asesiadau archwilio a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn hyd yma gan gynnwys gwaith sy'n mynd rhagddo o 2014/15 ynghlwm yn **Atodiad E.** Mae'r atodlen yn crynhoi'r farn archwilio a'r argymhellion yng nghyswllt pob un maes a adolygwyd a bydd yn ffurfio'r sail ar gyfer y farn yn y Datganiad Sicrwydd Blynyddol ynglŷn â pha mor ddigonol ac effeithiol yw fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaethau mewnol yr Awdurdod ar y cyfan ar gyfer 2015/16. Ers 1 Ebrill 2015, mae 10 adroddiad terfynol wedi cael eu cyflwyno o Gynllun Gweithredol Archwilio Mewnol 2014/15 ac wyth o Gynllun Gweithredol 2015/16.

3.4.5 Aseswyd dau o'r archwiliadau cynlluniedig a gwblhawyd yn ystod y chwarter diwethaf fel rhai nad oeddynt yn darparu lefelau cadarnhaol o sicrwydd. Yn ystod y cyfnod rhwng 1 Tachwedd 2015 a 31 Rhagfyr 2015, aseswyd yr archwiliadau mewn perthynas â Thai Fforddiadwy, Troi Tai'n Gartrefi, y Cynllun Benthyciad Pontio ac Ysgol Cemaes fel rhai a oedd yn rhoddi lefel Gyfyngedig o Sicrwydd. Ceir manylion am yr archwiliadau hyn yn **Atodiad E.**

**3.5 Dilyn i fyny ar Archwiliadau a Thracio Argymhellion**

3.5.1 Mae Safonau Archwilio Mewnol y DU yn gofyn i'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol ddilyn y cynnydd a wneir gyda chamau gweithredu a gymerir gan reolwyr sy'n codi o'r aseiniadau. Y rheolwyr sy'n gyfrifol am weithredu argymhellion archwilio y cytunwyd arnynt ac nid Archwilio Mewnol. Cyfrifoldeb Archwilio Mewnol yw adrodd ar y statws.

3.5.2 Mae'r Broses Dilyn i Fyny a Monitro a amlinellir mewn adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant ar 8 Rhagfyr wedi cael ei chyflwyno er mwyn gwella trefniadau monitro ac adrodd ar gynnydd mewn perthynas â gweithredu argymhellion y cytunwyd arnynt. Mae archwiliad dilyn i fyny ynghylch Credydwyr wrthi'n cael ei gynnal ar hyn o bryd.


3.5.3 Cyn Rhagfyr 2015, roedd y data'n cael ei gasglu o hunanasesiad gan y gwasanaethau perthnasol yn unig ac nid oedd yn cael ei gadarnhau gan Archwilio Mewnol hyd oni fyddai archwiliad dilynol wedi cael ei gynnal yn yr un maes. Mae **Tabl 1** isod yn crynhoi statws gweithredu'r argymhellion ar 31 Rhagfyr Tachwedd 2015:

| **Tabl 1 – Statws argymhellion y cytunwyd arnynt ar 31-12-2015** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Statws** | **Uchel** | **Canolig** | **Cyfanswm** | **%** |
| Cwblhawyd | 27 | 92 | 119 | 59 |
| Yn weddill | 6 | 78 | 84 | 41 |
| Cyfanswm | 33 | 170 | 203 | 100 |

3.5.4 Mae'r argymhellion ar hyn o bryd wedi eu categoreiddio fel rhai uchel, canolig neu isel yn unol â'r risg ganfyddedig fel yr amlinellir yn **Atodiad D.** Nid yw Archwilio Mewnol yn mynd ar ôl yr argymhellion isel yn ffurfiol ac felly nid ydynt wedi eu cynnwys yn y dadansoddiad hwn. Roedd canran y gyfradd weithredu ar 31 Rhagfyr 2015 yn 59% ar gyfer cofnodi a gweithredu argymhellion 'uchel' a 'chanolig'. Gwelwyd gwelliant bychan o 1% o ran gweithredu ers 9 Tachwedd 2015.

3.5.5 Mae **Tabl 2** isod yn cynnwys graff sy'n dangos gweithrediad yr argymhellion gan bob Gwasanaeth:

Tabl 2




3.5.6 Mae copi o'r holl argymhellion Uchel a Chanolig sy'n parhau i fod angen sylw ynghlwm yn **Atodiad F**.

3.6 **Cyfeiriadau**

Yn ogystal â'r lefelau sicrwydd y cytunodd y gwasanaethau arnynt ac a ddarparwyd i gynorthwyo rheolwyr gwrdd ag amcanion yr Awdurdod, mae Archwilio Mewnol hefyd wedi ymgymryd ag ystod o gyfeiriadau/gwasanaethau ymgynghori sy'n cynnwys:

- Cyngor a chanllawiau i reolwyr ar amryw o faterion, gan gynnwys gweithredu'r system, cydymffurfio â pholisïau, rheoliadau a gweithdrefnau a gofynion rheolaethau mewnol.
- Hyfforddiant
- Ymchwiliadau arbennig gan gynnwys gwaith yn gysylltiedig â thwyll.

3.5.2 Cynlluniwyd y bydd 205 o ddyddiau yn cael eu neilltuo ar gyfer cyfeiriadau/ymgynghori yn ystod y flwyddyn ac roedd 140.97 o ddyddiau wedi cael eu treulio ar y gwaith hwn hyd at ddiwedd mis Rhagfyr 2015.

3.5.3 Mae crynodeb o ymchwiliadau arbennig a wnaed gan Archwilio Mewnol yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2015 hyd at 31 Rhagfyr 2015 wedi'i gynnwys yn **Atodiad G** ac mae'n gyfanswm o 50.34 diwrnod.

**3.6 Absenoldeb Salwch**

3.6.1 Mae'r Gwasanaeth yn rheoli absenoldeb salwch yn unol â Pholisi Absenoldeb Salwch yr Awdurdod. Cafwyd 101 diwrnod o absenoldeb salwch yn ystod y cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2015 yn erbyn targed blynyddol o 45 diwrnod. Roedd hyn yn bennaf oherwydd

absenoldeb salwch tymor hir 2 swyddog yn y chwarter cyntaf, ac un swyddog yn y trydydd chwarter a oedd yn cyfrif am 86.22 o ddyddiau salwch.

## 4. BLAENRAGLEN WAITH ARCHWILIO MEWNOL

| Teitl yr Adolygiad a Drefnwyd | Maes Gwasanaeth | Statws Cyfredol |
|---|---|---|
| Partneriaethau - Llywodraethiant a Pherfformiad | Corfforaethol | Drafft wedi'i adolygu |
| Rheoli Fflyd | Datblygu Cynaliadwy | Drafft wedi'i adolygu |
| Adnoddau Dynol – Polisïau ac Arferion ar gyfer Rheoli'r Gweithlu | Trawsnewid | Drafft wedi'i adolygu |
| Ysgol Talwrn | Dysgu Gydol Oes | Gwaith yn mynd rhagddo |
| Ysgol Gynradd Bodedern | Dysgu Gydol Oes | Gwaith yn mynd rhagddo |
| Ysgol Gynradd Amlwch | Dysgu Gydol Oes | Gwaith yn mynd rhagddo |
| Strategaeth Dai | Cymuned | Gwaith yn mynd rhagddo |
| NDR a'r Dreth Gyngor | Adnoddau | Gwaith yn mynd rhagddo |
| Gorchmynion Llys Gofal Plant | Gwasanaethau Plant | Gwaith yn mynd rhagddo |
| Prif System Gyfrifo | Adnoddau | Gwaith yn mynd rhagddo |
| Dilyn i Fyny Credydwyr | Adnoddau | Gwaith yn mynd rhagddo |

## 5. CASGLIAD

5.1 Mae dadansoddiad o berfformiad y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn y cyfnod 1 Ebrill 2015 hyd at 31 Rhagfyr 2015 yn dangos bod y lefelau perfformiad fwy neu lai ar darged. Fodd bynnag, bydd gallu'r gwasanaeth i gyflawni Cynllun Gweithredol 2015/16 yn dibynnu ar lefel y galw am adnoddau archwilio yng nghyswllt cyfeiriadau, gwaith heb ei gynllunio cyn diwedd y flwyddyn a lefelau absenoldeb salwch.

## TARGEDAU PERFFORMIAD ARCHWILIO MEWNOL 2015-16

**ATODIAD A**

| **Disgrifiad** | **CSYM Gwirioneddol ar 2013/14** | **CSYM Gwirioneddol ar 31/3/15** | **CSYM Targed 2015/16** | **CSYM Gwirioneddol ar 31/12/15** | **Cyfartaledd Cymru 2014/15** |
|---|---|---|---|---|---|
| **1.** % yr Archwiliadau Cynlluniedig a Gwblhawyd | 81% | 92% | 80% | 38.71% | 83% |
| **2.** Nifer yr Archwiliadau | 51 | 46 | 60 | 25 | 106 |
| **3.** % Ymatebion 'Boddhaol' gan Gleientiaid | 100% | 100% | 100% | 100% | 98% |
| **4.** % yr Argymhellion a dderbyniwyd | 100% | 100% | 100% | 98% | 99% |
| **5.** % Gweithredu Argymhellion Lefel Uchel a Chanolig mewn archwiliadau Dilyn-i-fyny | 46% | 49% | 85% | 59% | D/B |
| **6.** % yr Archwiliadau a gwblhawyd o fewn yr amser a gynlluniwyd | D/B | D/B | 90% | 79.17% | 69% |
| **7.** % yr amser y codir amdano'n uniongyrchol yn erbyn y cyfanswm sydd ar gael | D/B | D/B | 70% | 73.30% | 65% |
| **8.** Nifer y dyddiadau ar gyfartaledd o'r cyfarfod cau i gyhoeddi'r adroddiad drafft | D/B | D/B | 6 diwrnod | 10.9 diwrnod | 7.6 diwrnod |
| **9.** Nifer y dyddiau ar gyfartaledd rhwng yr ymateb i'r adroddiad drafft a chyhoeddi'r adroddiad terfynol | D/B | D/B | 2 ddiwrnod | 3.3 diwrnod | 1.8 diwrnod |
| **10.** Y gost wirioneddol fesul diwrnod archwilio y codir amdano'n uniongyrchol | £245 | £238 | £250 | £250 | £249 |
| **11.** Nifer staff Archwilio | 5.5 | 5.6 | 5.68 | 5.68 | 8.2 |
| **12.** % y staff a adawodd | 0 | 0 | 0 | 0 | 12% |

**ATODIAD B**

**ARCHWILIO MEWNOL**
**CYNGOR SIR YNYS MÔN**

**DADANSODDIAD O WAITH YCHWANEGOL NAD OEDD WEDI EI GYNLLUNIO A WNAED YN YSTOD 1 EBRILL 2015 I 31 RHAGFYR 2015**

| | MAES | NATUR Y GWAITH | DYDDIAU ARCHWILIO |
|---|---|---|---|
| **1** | Bryn Trewan | Gofynnodd y Pwyllgor Archwilio i'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol edrych ar y gwaith papur gwreiddiol mewn perthynas â chodi ar 60 eiddo yn Bryn Trewan, Caergeiliog am gostau carthffosiaeth. | 2.20 |
| **2** | Ardystio Grantiau – Y Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd | Ardystiad Terfynol | 4.30 |
| **3** | Grant Amddifadedd Disgyblion LlC | Cafodd Archwilio Mewnol wybod ym mis Medi 2015 bod rhaid cyflwyno'r Dystysgrif Dyraniad Grant Amddifadedd Disgyblion i Awdurdodau ac Adroddiad Archwilio Mewnol i LlC erbyn 31 Hydref 2015. | 4.80 |
| **4** | Grant Cymraeg Mewn Addysg LlC 2014/15 | Cafodd Archwilio Mewnol wybod ym mis Awst 2015 bod rhaid cyflwyno Tystysgrif Dyraniad WEG i Awdurdodau ac Adroddiad Archwilio Mewnol i LlC erbyn 31 Hydref 2015. | 2.70 |
| **5** | Grant Llwybrau Dysgu 14-19 LlC 2014/15 | Cafodd Archwilio Mewnol wybod ym mis Medi 2015 Awst bod rhaid cyflwyno Tystysgrif Dyraniad Grant Llwybrau Dysgu 14-19 i Awdurdodau ac Adroddiad Archwilio Mewnol i LlC erbyn 31 Hydref 2015. | 13.18 |
| **6** | Grant Effeithiolrwydd Ysgolion LlC 2014/15 | Cafodd Archwilio Mewnol wybod ym mis Awst 2015 bod rhaid cyflwyno Tystysgrif Dyraniad SEG i Awdurdodau ac Adroddiad Archwilio Mewnol i LlC erbyn 31 Hydref 2015. | 9.05 |
| | **CYFANSWM NIFER Y DYDDIAU** | | **36.20** |

...........................

**CYNGOR SIR YNYS MÔN**
**ARCHWILIO MEWNOL**
**LLITHRIAD 1-4-15 I 31-12-15**

| TASGAU | RHESWM | DYDDIAD | SGÔR RISG |
|---|---|---|---|
| **CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD**<br>Gwasanaethau Rheoli Adeiladu | Cytunwyd gyda'r rheolwyr i gario hwn ymlaen i gynllun blynyddol 2016/17 oherwydd problemau staffio yn yr Adain Rheoli Adeiladu | 10 | Anhysbys – y maes wedi cael ei archwilio cyn 2012/13. |
| **CYFANSWM Y LLITHRIAD** | | **10** | |

Ni fydd y meysydd uchod y bwriadwyd eu harchwilio yn ystod 2015/16 yn cael eu harchwilio am y rhesymau a nodwyd. Lle mae hynny'n briodol, bydd yr archwiliadau na chawsant eu cynnal yn ystod 2015/16 yn cael blaenoriaeth yn 2016/17.

# ARGYMHELLION ARCHWILIO A'R FARN ARCHWILIO

## 1. DIFFINIADAU O'R LEFELAU SICRWYDD

Mae diffiniadau newydd o lefelau sicrwydd ar gyfer 2015/16 yn gliriach ac yn fwy cywir yn nodi'r flaenoriaeth y dylid ei rhoddi i'r argymhellion a wnaed. Gweler isod:

| LEFEL SICRWYDD | DIFFINIAD |
|---|---|
| SICRWYDD SYLWEDDOL | Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth fewnol yn dda.<br>Dim angen i'r rheolwyr gymryd unrhyw gamau gweithredu neu angen iddynt gymryd camau lefel isel yn unig.<br>**Dim argymhellion lefel uchel a hyd at 2 o argymhellion blaenoriaeth ganolig yn cael eu gwneud.** |
| SICRWYDD RHESYMOL | Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethiant, rheoli risg ac/neu reolaeth fewnol yn rhesymol.<br>Mae angen i'r rheolwyr gymryd camau lefel ganolig i uchel.<br>**Ni wneir unrhyw argymhellion blaenoriaeth lefel uchel.** |
| SICRWYDD CYFYNGEDIG | Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethiant, rheoli risg ac/neu reolaeth fewnol yn gyfyngedig.<br>Mae angen i'r rheolwyr gymryd camau lefel ganolig i isel.<br>**Gwneir nifer o argymhellion blaenoriaeth uchel/neu ganolig** |
| SICRWYDD LLEIAF | Mae diffygion sylweddol yn y trefniadau ar gyfer llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth fewnol.<br>Mae angen i'r rheolwyr gymryd camau lefel uchel mewn nifer o feysydd.<br>**Gwneir nifer sylweddol o argymhellion blaenoriaeth uchel.** |

## 2. Diffiniadau o Flaenoriaethau ar gyfer Argymhellion

Mae diffiniadau o'r blaenoriaethau a ddefnyddiwyd ar gyfer yr argymhellion wedi cael eu llunio er mwyn gwella cysondeb yn y tîm archwilio a helpu'r lefel o ddealltwriaeth gan y sawl sy'n derbyn yr adroddiad. Gweler isod:

| BLAENORIAETH YR ARGYMHELLIAD | DIFFINIAD |
|---|---|
| UCHEL | Mae angen cymryd camau sylweddol oherwydd absenoldeb neu ddiffyg cydymffurfiaeth gyda phrosesau rheoli sylfaenol sy'n arwain at y potensial na fydd problemau llywodraethiant sylweddol, cam-ymarfer, risg neu gamgymeriad yn cael eu darganfod |
| CANOLIG | Mae angen cymryd camau pwysig i ddod â'r system reolaeth fewnol i fyny i safon dderbyniol neu i wneud i ffwrdd â lefel annerbyniol o ddiffyg cydymffurfiaeth gyda phroses rheoli gyfredol. |
| ISEL | Camau a allai wella'r rheolaeth fewnol yn gyffredinol ond nad yw'n hanfodol i'r system reolaeth gyffredinol. |

## Crynodeb o Argymhellion a Lefelau Sicrwydd 1-4-15 hyd at 31-8-15 ATODIAD E

| | Teitl yr Adroddiad | Dyddiad | Gwasanaeth | Cyfanswm Argymhellion yr Archwiliad | Negeseuon Allweddol | Lefel Sicrwydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | System Derbynebau Arian WIP 2014/15 | Ebrill 15 | Adnoddau | 4 | Cynhaliwyd archwiliad o'r System Derbynebau Arian fel rhan o'r cynllun archwilio mewnol cyfnodol a gymeradwywyd ar gyfer 2014/15.<br>Mae'r drefn derbynebau ar gyfer symiau arian yn digwydd ar hyn o bryd trwy eu rhoi i mewn â llaw i'r system Derbynebau Arian o ddatganiadau banc.<br>Roedd argymhelliad oedd wedi ei gynnwys yn yr adroddiad Derbynebau Arian 2013/14 yn ymwneud â gweithredu system 'auto feeder' datganiadau banc yn 2015/16 i gynorthwyo a sicrhau y gellir cysoni'r symiau yn y banc yn brydlon o ddiwedd y cyfnod. Nid yw'r argymhelliad hwn a'r tri argymhelliad arall yn Adroddiad Terfynol y Derbynnydd Arian 2013/14 wedi cael eu gweithredu.<br><br>**Barn:** Gan roi ystyriaeth i'r materion a nodwyd, gellir rhoi sicrwydd sylweddol i'r Cyngor bod y rheolaethau y mae'r sefydliad yn dibynnu arnynt i reoli'r risg hon wedi'u dylunio'n addas a'u gweithredu'n gyson. | Sylweddol |
| 2 | Dyledwyr<br>WIP 2014/15 | Ebrill 15 | Adnoddau | 22 | Cynhaliwyd archwiliad o Fân Ddyledwyr fel rhan o'r cynllun archwilio mewnol cyfnodol a gymeradwywyd ar gyfer 2014/15.<br>Yn 2013/14 roedd nifer yr anfonebau a godwyd yn 20,287 ac roeddent yn werth £16.3m. Roedd gwerth yr anfonebau a ganslwyd ynghyd â nodiadau credyd a godwyd yn ystod y cyfnod yn £462k. Yn ôl Adroddiad Crynodeb ar Hen Ddyledion | Cyfyngedig |

| | Teitl yr Adroddiad | Dyddiad | Gwasanaeth | Cyfanswm Argymhellion yr Archwiliad | Negeseuon Allweddol | Lefel Sicrwydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | dyddiedig 14 Ionawr 2015 roedd cyfanswm y mân ddyledion oedd dal yn weddill yn £3,192,488.54.<br><br>Cyflwynodd y Cyngor system ariannol newydd CIVICA ym mis Ebrill 2013 sy'n cynnwys y modiwl Mân Ddyledwyr a ddefnyddir fel prif gofnod y Cyngor o ddyledwyr.<br><br>Roedd yr adolygiad Mân Ddyledwyr ar gyfer 2013/14 yn cynnwys chwe argymhelliad yn y categori Canolig ac un ar ddeg argymhelliad yn y categori Isel. Roedd archwiliad 2014/15 yn dangos nad yw'r chwe argymhelliad categori Canolig wedi cael eu gweithredu. Mae'r rhain yn ymwneud ag adennill dyledion sy'n weddill mewn modd prydlon ac effeithiol, adolygu hen anfonebau yn rheolaidd, adolygu'n rheolaidd ddyledion sydd wedi'u dileu, dyledion sydd wedi'u gohirio, cysoni'r lejer ariannol gyda'r system Mân Ddyledwyr a chyfrifoldebau sy'n ymwneud ag enwebu swyddogion i roi anfonebau a manylion dyledwr i mewn i'r system a'u hawdurdodi.<br><br>Mae dau o'r argymhellion categori Isel wedi cael eu gweithredu. Mae'r naw argymhelliad categori Isel sy'n weddill yn cael eu hailadrodd. Mae'r rhain yn ymwneud ag adolygu hawliau mynediad i'r system, dogfennaeth gefnogol ar gyfer anfonebau dyledwyr, adolygu ffioedd a thaliadau, dyblygu manylion dyledwyr, dyledion wedi'u canslo, debyd codau cost pan fo'n amlwg na fydd modd adfer dyledion, adroddiadau dangosyddion perfformiad dyledwyr ac adrodd ar berfformiad mewn perthynas â thargedau.<br><br>**Barn:** Gan roi ystyriaeth i'r materion a nodwyd, er y gellir rhoi peth sicrwydd i'r Cyngor bod y rheolaethau y mae'r sefydliad yn dibynnu arnynt i reoli'r risg hon wedi eu dylunio'n addas ac yn cael eu gweithredu'n gyson, mae angen gweithredu i sicrhau | |

| | Teitl yr Adroddiad | Dyddiad | Gwasanaeth | Cyfanswm Argymhellion yr Archwiliad | Negeseuon Allweddol | Lefel Sicrwydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | bod y maes hwn yn cael ei reoli. | |
| 3 | Y Dreth Gyngor WIP 2014/15 | Ebrill 2015 | Adnoddau | 8 | Cynhaliwyd archwiliad ar y Dreth Gyngor fel rhan o'r cynllun archwilio mewnol cyfnodol a gymeradwywyd ar gyfer 2014/15. Caiff y Dreth Gyngor ei gweinyddu gan y Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau. Roedd 34,553 o eiddo (ac eithrio eiddo nad ydynt mewn band) ym mis Mawrth 2013.<br><br>Roedd cyfanswm y debyd a gasglwyd ar gyfer y Dreth Gyngor yn 2013/14 (net ar ôl eithriadau, gollyngiadau a budd-daliadau'r dreth gyngor) yn £30.8m a llwyddwyd i gasglu 97.1% o'r cyfanswm hwn o fewn y flwyddyn.<br><br>Roedd yr adroddiad Treth Gyngor ar gyfer 2013/14 yn cynnwys un argymhelliad categori Canolig a chwe argymhelliad categori Isel. Roedd archwiliad 2014/15 wedi canfod bod yr argymhellion Canolig sy'n ymwneud â chysoni gyda'r Cofnod Postio heb gael eu gweithredu.<br><br>Aseswyd bod pedwar o argymhellion Isel heb eu gweithredu a gwelwyd bod un argymhelliad Isel wedi cael ei weithredu'n rhannol. Mae'r argymhellion yn ymwneud â disgownt i bobl sengl, gweithdrefnau adennill dyledion, cyfrifon sy'n disgwyl am statws 'dyled wedi'i dileu', adolygu cyfrifon lle mae dyledion wedi'u gohirio, ac ymweliadau ag eiddo gwag.<br><br>**Barn:** Gan roi ystyriaeth i'r materion a nodwyd, gellir rhoi sicrwydd rhesymol i'r Cyngor bod y rheolaethau y mae'r sefydliad yn dibynnu arnynt i reoli'r risgiau hyn wedi eu dylunio'n addas, yn cael eu gweithredu'n gyson, ac yn effeithiol.<br><br>Fodd bynnag, rydym wedi adnabod materion sy'n cynyddu'r | Rhesymol |

| | Teitl yr Adroddiad | Dyddiad | Gwasanaeth | Cyfanswm Argymhellion yr Archwiliad | Negeseuon Allweddol | Lefel Sicrwydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | tebygolrwydd y bydd y risgiau'n dod yn rhai gwirioneddol os na fyddant yn derbyn sylw. | |
| 4 | NNDR<br>WIP 2014/15 | Ebrill 2015 | Adnoddau | 8 | Cynhaliwyd archwiliad NNDR fel rhan o'r cynllun archwilio mewnol cyfnodol a gymeradwywyd ar gyfer 2014/15.<br><br>Roedd cyfanswm yr eiddo (ac eithrio eiddo nad ydynt mewn band) ar 31 Mawrth 2014 yn 2,707.<br><br>Roedd cyfanswm y debyd a gasglwyd ar gyfer NNDR yn 2013/14 (net ar ôl ad-daliadau) yn £13.6m a llwyddwyd i gasglu 97.9% o'r cyfanswm hwn o fewn y flwyddyn. Adroddwyd bod cyfartaledd y gyfradd casglu trethi ar gyfer yr holl Awdurdodau Unedol yng Nghymru yn 97.1%.<br><br>Roedd yr adroddiad NNDR ar gyfer 2013/14 yn cynnwys dau argymhelliad categori Canolig ac wyth argymhelliad categori Isel. Mae ein gwaith dilynol yn 2014/15 wedi canfod nad yw'r argymhellion Canolig sy'n ymwneud â chysoni cyfanswm gwerth biliau gyda nifer yr etifeddiannau y gellir eu trethu a chlirio dyledion sydd wedi'u dileu ac sydd wedi bod ar y system am fwy na deuddeng mis, wedi cael eu gweithredu.<br><br>Gweithredwyd un argymhelliad categori Isel ac mae dau wedi cael eu disodli. Aseswyd nad yw'r pum argymhelliad categori Isel sy'n weddill wedi cael eu gweithredu. Mae'r argymhellion hyn yn ymwneud â phrosesu dyledion i'w dileu ar y system yn brydlon, cynnal ymweliadau ag eiddo sydd wedi'u heithrio, defnyddio gweithdrefnau adfer mewn modd cyson, cyfeirio dyledion yn brydlon at Asiantau Gorfodi ac adolygu cyfrifon lle mae dyledion wedi'u gohirio.<br><br>**Barn:** Gan roi ystyriaeth i'r materion a nodwyd, gellir rhoi sicrwydd | Rhesymol |

| | Teitl yr Adroddiad | Dyddiad | Gwasanaeth | Cyfanswm Argymhellion yr Archwiliad | Negeseuon Allweddol | Lefel Sicrwydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | rhesymol i'r Cyngor bod y rheolaethau y mae'r sefydliad yn dibynnu arnynt i reoli'r risgiau hyn wedi eu dylunio'n addas, yn cael eu gweithredu'n gyson, ac yn effeithiol.<br><br>Fodd bynnag, rydym wedi adnabod materion sy'n cynyddu'r tebygolrwydd y bydd y risgiau'n dod yn rhai gwirioneddol os na fyddant yn derbyn sylw. | |
| 5 | Budd-daliadau Tai WIP 2014/15 | Ebrill 2015 | Adnoddau | 11 | Cynhaliwyd archwiliad o'r Rheolaethau Allweddol – Budd-daliadau Tai fel rhan o'r cynllun archwilio mewnol cyfnodol a gymeradwywyd ar gyfer 2014/15. Roedd cyfanswm y Budd-daliadau Tai a dalwyd yn 2014/15 am y cyfnod 01/04/2014 hyd at 11/02/2015 yng nghyswllt tenantiaid preifat oddeutu £8.5 miliwn ac ar gyfer tenantiaid yr ALI yn £7m. Roedd y cyfanswm a ddyfarnwyd dan y cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor oddeutu £5m.<br><br>Roedd y llwyth achosion a gofnodwyd hyd at Ionawr 2015 ar gyfer Hawliadau Budd-dal Tai yn 49,230 ac roedd yn 65,638 ar gyfer Hawliadau Gostyngiad y Dreth Gyngor.<br><br>Mae'r Gwasanaeth Budd-daliadau o fewn ei darged o ran yr amser a gymerir i brosesu newid mewn amgylchiadau, ar ôl derbyn yr holl wybodaeth sydd ei hangen i wneud penderfyniad o fewn 14 diwrnod o hawliad newydd ac o ran gwiriadau cywirdeb a wnaed yn y cyfnod. Fodd bynnag, nid yw'r Gwasanaeth wedi cyrraedd targedau a osodwyd mewn perthynas â phrosesu ceisiadau newydd ac adnabod achosion lle mae'r budd-dal sy'n ddyledus wedi cael ei gyfrifo'n anghywir.<br><br>Y maes mwyaf arwyddocaol lle mae'r Gwasanaeth wedi bod yn aneffeithiol yn y cyfnod hwn yw adennil gordaliadau budd-dal | Rhesymol |

| | Teitl yr Adroddiad | Dyddiad | Gwasanaeth | Cyfanswm Argymhellion yr Archwiliad | Negeseuon Allweddol | Lefel Sicrwydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | sydd wedi cynyddu yn ystod y cyfnod.<br><br>Roedd yr adroddiad Archwilio Mewnol ar Fudd-daliadau Tai 2013/14 yn cynnwys 5 argymhelliad categori Canolig a 6 argymhelliad categori Isel. Fe wnaeth gwaith dilynol yn 2014/15 gafod, ar adeg yr adolygiad, fod 4 o argymhellion blaenoriaeth Ganolig a 5 o argymhellion blaenoriaeth Isel wedi cael eu gweithredu.<br><br>Mae'r 2 argymhelliad a aseswyd fel rhai sydd heb eu gweithredu yn ymwneud â chysoni a dileu dyledion nad oes modd eu hadennill a gwahanu dyletswyddau rhwng rolau dyrannu ac adfer.<br><br>**Barn:** Gan roi ystyriaeth i'r materion a nodwyd, gellir rhoi sicrwydd sylweddol i'r Cyngor bod y rheolaethau y mae'r sefydliad yn dibynnu arnynt i reoli'r risg hon wedi eu dylunio'n addas, yn cael eu gweithredu'n gyson, ac yn effeithiol. | |
| 6 | Rhenti Tai<br>WIP 2014/15 | Ebrill 2015 | Adnoddau | 4 | Cynhaliwyd archwiliad o Renti Tai fel rhan o'r cynllun archwilio mewnol cyfnodol a gymeradwywyd ar gyfer 2014/15. Ar adeg adrodd roedd Gwasanaeth Tai'r Cyngor yn rheoli 3798 o anheddau, 767 o fodurdai a 12 o eiddo ar les ar draws y Sir. Adroddwyd fod yr incwm rhent a amcangyfrifwyd ar gyfer 2014/15 yn £13.8M.<br><br>**Barn:** Gan roi ystyriaeth i'r materion a nodwyd, gellir rhoi sicrwydd sylweddol i'r Cyngor bod y rheolaethau y mae'r sefydliad yn dibynnu arnynt i reoli'r risg hon wedi eu dylunio'n addas, yn cael eu gweithredu'n gyson, ac yn effeithiol. | Sylweddol |
| 7 | Gwiriad Stoc DLO | Mai 2015 | Tai | D/B | Cynhaliwyd gwiriad stoc flynyddol gan Wasanaeth Archwilio | Sylweddol |

| | Teitl yr Adroddiad | Dyddiad | Gwasanaeth | Cyfanswm Argymhellion yr Archwiliad | Negeseuon Allweddol | Lefel Sicrwydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | WIP 2014/15 | | | | Mewnol yr Awdurdod yn y Depo BMU ar 28 Mawrth 2015. Nodwyd fod cyfanswm gwerth y stoc wrth gau'r cyfrifon ym mis Ebrill 2015 yn £157,493.13.<br><br>**Barn:** Mae'r cofnodion stoc a gedwir yn y depo yn ddigon cywir ac yn darparu cofnod dibynadwy o'r lefelau stoc ar ddiwedd y flwyddyn. | |
| 8 | Rheolaeth Trysorlys WIP 2014/15 | Mai 2015 | Adnoddau | 2 | Cynhaliwyd archwiliad o Reolaeth Trysorlys fel rhan o'r cynllun archwilio mewnol cyfnodol a gymeradwywyd yn 2014/15. Mae'r swyddogaeth Rheolaeth Trysorlys yn gweithredu oddi mewn i'r Strategaeth Rheoli Trysorlys a gymeradwywyd a'r Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol sy'n cael ei chymeradwyo gan y Cyngor llawn bob blwyddyn. Adroddwyd ar y sefyllfa bresennol o ran Rheoli Trysorlys (ar gyfer chwarter 3) i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Chwefror 2015.<br><br>O ganlyniad i'r adolygiad Rheolaeth Trysorlys yn 2013/14 rhoddwyd barn archwilio Gwyrdd a gwnaed tri o argymhellion categori canolig. Mae gwaith dilynol a wnaed fel rhan o'r adolygiad eleni wedi canfod nad yw argymhellion blaenorol wedi cael eu gweithredu'n llawn eto. Mae'r argymhellion blaenorol yn ymwneud â:<br><br>• Hawliau mynediad o fewn system net HSBC a dileu unrhyw ddefnyddwyr nad oes arnynt angen mynediad mwyach;<br>• Sicrhau bod dau lofnodwr awdurdodedig (gwahanu dyletswyddau) yna rwydo er mwyn trosglwyddo arian o fewn yr Awdurdod;<br>• I gynnal trywydd archwilio ac i ddarparu sicrwydd ynghylch gwahanu dyletswyddau dylai llofnodion ar gyfer gwirio | Sylweddol |

| | Teitl yr Adroddiad | Dyddiad | Gwasanaeth | Cyfanswm Argymhellion yr Archwiliad | Negeseuon Allweddol | Lefel Sicrwydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | tystiolaeth neu ar gyfer awdurdodi neu gymeradwyo taliadau fod yn enw’r sawl sy’n cymryd y cam perthnasol ac ni ddylid eu harwyddo ar ran swyddog sy’n absennol. Dylid cofnodi prosesau a gweithdrefnau Rheoli Trysorlys yn llawn ac yn eglur a rhoi’r dyddiad arnynt er mwyn nodi pwy fedr gymeradwyo'r dogfennau sydd raid wrthynt a gwahanu dyletswyddau.<br><br>**Barn:** O ystyried y materion a nodwyd, gellir rhoi sicrwydd reesymol i’r Cyngor fod y rheolaethau y mae’r sefydliad yn dibynnu arnynt i reoli’r risg hon wedi eu dylunio’n addas, eu gweithredu’n gyson a’u bod yn effeithiol. | |
| 9 | Rheolaethau Allweddol y Gyflogres WIP 2014/15 | Mai 2015 | Adnoddau | 6 | Cynhaliwyd archwiliad o’r system Gyflogres – Rheolaethau Allweddol fel rhan o’r cynllun archwilio mewnol cyfnodol a gymeradwywyd ar gyfer 2014/15.<br><br>Y system Gyflogau a ddefnyddir ar hyn o bryd yw Resourcelink a ddarperir gan Northgate ac mae’n system integredig ar gyfer Adnoddau Dynol a‘r Gyflogres.<br><br>Roedd 3,850 o gofnodion cyflogres byw ar ddiwedd mis Mawrth 2015 a 2,333 o gofnodion taledig yn y mis. Proseswyd 415 o ddechreuwyr newydd a 444 o adawyr ar y system Gyflogres yn ystod blwyddyn ariannol 2014/15.<br><br>Roedd y casgliadau allweddol o’r adolygiad yn dwyn sylw at ddiffyg gweithdrefnau ffurfiol ysgrifenedig a materion mewn perthynas â chadw cofnodion cyflogres yn ddiogel. Nid yw rheolaethau mynediad yn gorfodi gwahanu dyletswyddau rhwng swyddogaethau AD a swyddogaethau cyflogres. Mae’r diffyg rheolaethau gwahanu dyletswyddau wedi ei amlygu eisioes mewn | Rhesymol |

| | Teitl yr Adroddiad | Dyddiad | Gwasanaeth | Cyfanswm Argymhellion yr Archwiliad | Negeseuon Allweddol | Lefel Sicrwydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | adroddiad a wnaed yn flaenorol ar y system gyflogres ac mewn adolygiad ar wahân o drefniadau Gwahanu Dyletswyddau a Mynediad Rhesymegol.<br><br>**Barn:** O ystyried y materion a nodwyd, gellir rhoi sicrwydd rhesymol i'r Cyngor fod y rheolaethau y mae'r sefydliad yn dibynnu arnynt i reoli'r risgiau hyn wedi eu dylunio'n addas, eu gweithredu'n gyson a'u bod yn effeithiol.<br><br>Fodd bynnag, nodwyd rhai materion a fyddai'n cynyddu'r tebygolrwydd y bydd risgiau'n digwydd. | |
| 10 | Y Brif System Gyfrifo WIP 2014/15 | Mehefin 2015 | Adnoddau | 6 | Cynhaliwyd archwiliad o Brif System Gyfrifo'r Cyngor – CIVICA fel rhan o gynllun archwilio mewnol a gymeradwywyd ar gyfer 2014/15.<br><br>Ar adeg cynnal yr archwiliad roedd y tîm CIVICA wrthi'n ail-lansio'r system. Penderfynwyd ail-lansio'r system oherwydd nifer o wendidau canfyddedig yn y ffordd y cafodd y system ei chyflwyno a sut y defnyddiwyd hi wedyn gan y gwasanaethau. Roedd y trefniadau gweinyddiaeth ar gyfer y system hefyd yn ddiffygiol, yn bennaf oherwydd dogfenaeth wael o ran gweithdrefnau.<br><br>Rhagwelir y bydd y system CIVICA wedi cael ei hail-lansio i bob pwrpas erbyn diwedd eleni ac y bydd yr holl faterion sydd wedi codi yn yr archwiliad wedi cael sylw fel rhan o hynny.<br><br>**Barn:** Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethiant, rheoli risg a / neu rheolaeth fewnol yn rhesymol. Arweiniodd yr adolygiad at farn | Rhesymol |

| | Teitl yr Adroddiad | Dyddiad | Gwasanaeth | Cyfanswm Argymhellion yr Archwiliad | Negeseuon Allweddol | Lefel Sicrwydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | archwilio Sicrwydd Rhesymol gyda phedwar o argymhellion categori Canolig a dau argymhelliad categori Isel yn cael eu cytuno gyda'r rheolwyr. | |
| 11 | Adfer Gwasanaethau TGCh ar ôl Trychineb | Gorffennaf 2015 | Adnoddau | 13 | Cynhaliwyd yr archwiliad hwn fel rhan o'r cynllun Archwilio Mewnol a gymeradwywyd ar gyfer 2015/16.<br><br>Cynhaliodd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol adolygiad yn 2012/13 o'r trefniadau rheoli ar gyfer Parhad Busnes ac Adfer Gwasanaethau TGCh ar ôl Trychineb.<br><br>Barn y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar y pryd oedd na allai'r Cyngor gymryd sicrwydd bod y rheolaethau y mae'n dibynnu arnynt i reoli'r meysydd hyn wedi eu dylunio'n addas ac yn cael eu gweithredu'n gyson ac yn effeithiol (lefel sicrwydd ISEL IAWN). Cytunwyd ar argymhellion ar gyfer gweithredu ond mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi cael gwybod mai ychydig a wnaed ers hynny. Nid yw'r adroddiad archwilio 2015/16 ond yn delio â chynlluniau Adfer Gwasanaethau TGCh ar ôl Trychineb. Paratowyd adroddiad ar wahân ar faterion Parhad Busnes.<br><br>Roedd y prif gasgliadau yn adroddiad 2015/16 yn dangos:<br><br>• Nid oes gan y Cyngor Gynllun ffurfiol ar gyfer Adfer Gwasnaethau TGCh ar ôl Trychineb<br>• Nid oes gan y Cyngor gyfleuster pwrpasol sydd wedi ei leoli i ffwrdd o'r Ystfelloedd TGCh i adfer gwasanaethau TG ar ôl trychineb<br>• Mae angen i wasanaethau gwblhau cynlluniau busnes diweddar i fwydo i mewn i Gynlluniau Adfer Gwasanaethau TGCh ar ôl Trychineb yn y dyfodol | Isel iawn |

| | Teitl yr Adroddiad | Dyddiad | Gwasanaeth | Cyfanswm Argymhellion yr Archwiliad | Negeseuon Allweddol | Lefel Sicrwydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | • Nid yw'r system a'r data wrth gefn yn cael eu hadfer yn rheolaidd<br>• Nid yw'r system yn cael ei hadfer yn rheolaidd mewn amgylchedd byw ac amgylchedd prawf i sicrhau y gellir defnyddio'r trefniadau wrth gefn i adfer gwasanaeth yn brydlon ac yn ddibynadwy os cyfyd trychineb<br>• Nid yw'r trefniadau ar gyfer pwy sy'n gyfrifol am gynnal rheolaeth amgylcheddol a sysytemau atal tân yn cael eu cofnodi'n ffurfiol a'u monitro gan TGCh<br>• Nid yw'r UPS cyfredol yn addas i'w bwrpas, ac felly nid oes gan y Cyngor UPS y gallai ei ddefnyddio pe bai toriad i'r cyflenwad trydan.<br>**Barn:** Mae diffyg sylweddol yn y trefniadau ar gyfer llwyodraethaint, rheoli risg a rheolaeth fewnol. Mae angen cymryd camau rheoli effaith fawr mewn nifer o feysydd.<br>**Mae'r argymhellion yn rhai blaenoriaeth uchaf yn bennaf** | |
| 12 | Gweinyddiaeth y Marchnadoedd ac Incwm Rhent | Gorffennaf 2015 | Gwarchod y Cyhoedd a Chynllunio | 4 | Cynhaliwyd archwiliad o Weinyddiaeth y Marchnadoedd ac Incwm Rhent fel rhan o'r cynllun archwilio mewnol diwygiedig ar gyfer 2015/16. Nid yw'r maes gwasanaeth hwn wedi bod yn destun adolygiad archwilio ers 2006.<br>Dangosodd y casgliadau allweddol o'r archwiliad nad oedd y gweithdrefnau wedi cael eu hadolygu a'u diweddaru i adlewyrchu newidiadau diweddar yng ngweithredoedd y farchnad a'r trefniadau bancio.<br>Roedd yn amlwg hefyd nad oedd system fonitro i sicrhau bod yr holl fasnachwyr yn cynnal ac yn darparu tystiolaeth o ddiogelwch | Rhesymol |

| | Teitl yr Adroddiad | Dyddiad | Gwasanaeth | Cyfanswm Argymhellion yr Archwiliad | Negeseuon Allweddol | Lefel Sicrwydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | yswiriant atebolrwydd cyhoeddus digonol.<br><br>**Barn:** Arweiniodd yr adolygiad at farn archwilio Sicrwydd Rhesymol gyda thri o argymhellion categori Canolig ac un argymhelliad categori Isel yn cael eu cytuno gyda'r rheolwyr. | |
| 13 | Parhad Busnes | Gorffennaf 2015 | Corfforaethol | 7 | Cynhaliwyd archwiliad o drefniadau Parhad Busnes fel rhan o'r cynllun archwilio mewnol cyfnodol a gymeradwywyd ar gyfer 2015/16.<br><br>Mae Rheoli Parhad Busnes yn ddyletswydd statudol i awdurdodau lleol ac yn rhan allweddol o'r prosesau llywodraethaint. Yn unol â Deddf Argyfyngau Sifil Posib 2004 rhaid paratoi a gweithredu cynlluniau i sicrhau bod gwasanaethau, yn arbennig gwasanaethau statudol, yn medru parhau.<br><br>Prif gasgliadau'r adolygiad ar y Cynllun Parhad Busnes Dros Dro yw nad yw, yn ei ffurf gyfredol, yn ddigon cyflawn i sicrhau bod modd adfer data a phrosesau'r Cyngor yn effeithlon ac yn effeithiol pe bai trychineb yn digwydd.<br><br>Nid yw cyfrifoldebau'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Penaethiaid Gwasanaeth mewn perthynas â Pharhad Busnes wedi eu datgan yn eglur o fewn y Cynllun Parhad Busnes ac nid yw materion Parhad Busnes yn cael eu hadrodd a'u rheoli ar y lefel uchaf.<br><br>Dylai'r gwaith i sefydlu Gweithgor Rheoli Parhad Busnes a Chynllunio Argyfwng barhau a dylai'r Cynllun Parhad Busnes | Cyfyngedig |

| | Teitl yr Adroddiad | Dyddiad | Gwasanaeth | Cyfanswm Argymhellion yr Archwiliad | Negeseuon Allweddol | Lefel Sicrwydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Corfforaethol cynhwysfawr ymgorffori trefniadau Rheoaleth Adfer Adeiladau.<br><br>**Barn:** Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethiant, rheoli risgiau a rheolaeth fewnol yn gyfyngedig. Arweiniodd yr adolygiadau at Farn Archwilio Sicrwydd Cyfyngedig gyda phump o argymhellion categori Uchel a dau argymhelliad categori Canolig yn cael eu cytuno gyda'r rheolwyr. | |
| 14 | Fframwaith Rheoli Risg a'r 5 Prif Risg | Medi 2015 | Corfforaethol | 3 | Cynhaliwyd yr archwiliad hwn fel rhan o'r cynllun cyfnodol Archwilio Mewnol a gymeradwywyd ar gyfer 2015/16.<br><br>Comisiynodd yr UDA adolygiad o'r modd y defnyddir y Fframwaith Rheoli Risg yn haf 2014 a chanfuwyd:<br>• Bod y modd y defnyddir y fframwaith risg ar draws y Cyngor yn anghyson<br>• Nid yw'r berthynas rhwng cofrestrau risg y gwasanaethau a'r gofrestr gorfforaethol yn glir<br>• Diffyg eglurder ynghylch y broses ar gyfer uwchgyfeirio neu atborth; a<br>• Nid yw risg wedi ei halinio'n dda gyda'r broses gynllunio a rheoli perfformiad.<br><br>Mae'r Polisi a'r Prosesau wedi cael eu hadolygu ac mae uwch swyddogion a staff wedi cael hyfforddiant. Mae Cofrestrau Risg y Gwasanaethau wrthi'n cael eu hadolygu a'u hymgorffori i'r Broses cynllunio Busnes ac roedd Cofrestr Risg Gorfforaethol | Rhesymol |

| | Teitl yr Adroddiad | Dyddiad | Gwasanaeth | Cyfanswm Argymhellion yr Archwiliad | Negeseuon Allweddol | Lefel Sicrwydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | ddiwygiedig wedi cael ei sefydlu erbyn diwedd Chwarter 1 yn 2015.<br><br>Ym mhrif ganfyddiadau'r adolygiad, nodwyd nad yw Cynlluniau Darparu Gwasanaeth bob amser yn cael eu cyflwyno'n brydlon ac o fewn amserlen gyda'r holl adrannau wedi eu cwblhau gan gynnwys y cysylltiadau i'r Cofrestrau Risg.<br><br>Nid oedd tystiolaeth o'r rheoliadau cyfredol mewn perthynas â'r Gofrestr Risg Gorfforaethol bob amser ar gael.<br><br>**Barn**: Cafwyd barn archwilio Sicrwydd Rhesymol yn dilyn yr adolygiadau gyda dau o argymhellion categori Canolig ac un argymhelliad categori Isel yn cael eu cytuno gyda'r rheolwyr. | |
| 15 | Llywodraethu Gwybodaeth – Adolygiad Blynyddol o Gydymffurfiaeth | Hydref 2015 | Corfforaethol | 7 | Cynhaliwyd archwiliad o Lywodraethu Gwybodaeth - Adolygiad Blynyddol o Gydymffurfiaeth fel rhan o'r cynllun cyfnodol Archwilio Mewnol a gymeradwywyd ar gyfer 2015/16.<br><br>Y canfyddiadau allweddol o'r adolygiad yw:<br><br>• Nid yw contractwyr trydydd parti sy'n prosesu data personol ar ran y Cyngor wedi cael eu nodi er mwyn sicrhau bod Cytundeb Prosesu Data priodol wedi cael ei weithredu ac nid yw Cytundebau Prosesu Data ar gael ar gyfer pob Contract 'Categori 1'.<br><br>• Nid oes unrhyw systemau, prosiectau neu brosesau wedi cael eu gweithredu yn ystod yr adolygiad archwilio ac o'r herwydd nid oedd unrhyw dystiolaeth o Asesiadau o'r Effaith ar Breifatrwydd a gynhaliwyd ar gael i'w hadolygu gan yr archwiliwr.<br><br>• Nid oedd yr holl Berchenogion Asedau Data (PAD) yn | Rhesymol |

| | Teitl yr Adroddiad | Dyddiad | Gwasanaeth | Cyfanswm Argymhellion yr Archwiliad | Negeseuon Allweddol | Lefel Sicrwydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
|  | | | | | gallu rhoi sicrwydd bod mesurau priodol yn eu lle i storio, symud, cadw a chael gwared ar gofnodiadau'n ddiogel mewn sefydliadau y tu allan i'r Pencadlys.<br>• Nid oes gan y Cyngor weithdrefnau ar gyfer rheoli cofnodiadau electronig sy'n cynnwys data cyfrinachol.<br>• Ni fedrir rhoi sicrwydd ynghylch a yw asesiad wedi ei gynnal o ddata personol a rennir ar hap oherwydd nid oedd y data ar gael i roi prawf arno.<br>• Nid yw'r holl staff yn cydymffurfio gyda'r Polisi Deg Glir a weithredwyd gan Reolwyr.<br>• Nid yw rhybuddion preifatrwydd y Cyngor a gyhoeddwyd gan bob gwasanaeth yn glir, yn gyson ac ar gael i gasglu, prosesu a rhannu data.<br>• Nid oes unrhyw gofnod canolog o'r holl rybuddion preifatrwydd ac nid oedd unrhyw dystiolaeth fod rhybuddion preifatrwydd wedi cael eu trosglwyddo i'r templed corfforaethol ar gyfer rhybuddion preifatrwydd.<br>• Nid oedd unrhyw adroddiad ysgrifenedig wedi cael ei gyflwyno i'r UDA ynghylch digwyddiadau'n ymwneud â diogelwch data, achos y rheiny ac effeithiolrwydd yr ymateb yn unol â'r Polisi ar gyfer Digwyddiadau Diogelwch Data. Cydnabuwyd bod yr UDA wedi bod yn cael gwybod ar lafar am unrhyw ddigwyddiadau.<br><br>**Barn**: Cafwyd barn archwilio Sicrwydd Rhesymol yn dilyn yr adolygiadau gyda phump o argymhellion categori Canolig a dau | |

| | Teitl yr Adroddiad | Dyddiad | Gwasanaeth | Cyfanswm Argymhellion yr Archwiliad | Negeseuon Allweddol | Lefel Sicrwydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | argymhelliad categori Isel yn cael eu cytuno gyda'r rheolwyr. | |
| 16 | Ysgol Brynsiencyn | Rhagfyr 2015 | Dysgu Gydol Oes | 7 | Cynhaliwyd archwiliad o Ysgol Brynsiencyn fel rhan o'r cynllun Archwilio Mewnol cyfnodol a gymeradwywyd ar gyfer 2015/16.<br>Canfyddiadau allweddol yr adolygiad yw:<br>• Mae'r cofnod o brydau ysgol yn cael ei gynnal i safon uchel yn yr ysgol.<br>• Mae gan y Corff Llywodraethol drefniadau priodol ar waith i ddiffinio hawliau pennaeth i awdurdodi gwariant a throsglwyddo arian rhwng penawdau ariannol.<br>• Defnyddir dogfennau priodol yn yr ysgol i fonitro perfformiad athrawon (blynyddol) ac amcanion perfformiad y pennaeth.<br>• Mae cyfrifon cronfa'r ysgol yn cael eu cynnal i safon briodol ac yn cael eu harchwilio'n annibynnol yn flynyddol. Dylai'r ddogfen "Cofnod o'r Archwiliad o Gronfa'r Ysgol" gael ei chyflwyno i'r Corff Llywodraethol yn flynyddol.<br>• Mae cyfansoddiad y Corff Llywodraethol yn cydymffurfio â'r gofynion statudol.<br>• Mae gan yr ysgol bolisïau statudol priodol.<br>• Mae'r ysgol yn cydymffurfio â Pholisi Fflyd a Gyrwyr yr Awdurdod.<br>• Canfuwyd rhai gwendidau mewn perthynas ag archebu | Rhesymol |

| | Teitl yr Adroddiad | Dyddiad | Gwasanaeth | Cyfanswm Argymhellion yr Archwiliad | Negeseuon Allweddol | Lefel Sicrwydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | gwaith, nwyddau a gwasanaethau. Roedd yr holl wariant wedi'i awdurdodi'n briodol ac roedd cyfrif cywir ohono.<br><br>**CAMAU ALLWEDDOL A GYTUNWYD**<br><br>• Dylai archebion prynu gael eu cwblhau ymlaen llaw.<br>• Dylai cofrestr gyflawn o fuddiannau busnes y Llywodraethwyr, y Pennaeth a'u teulu agosaf gael ei chadw'n unol â Chynllun Ariannu Teg y Gwasanaeth Addysg.<br>• Dylai'r Pennaeth nodi manylion pob athro llanw a ddefnyddir gan yr ysgol yn y dyddiadur electronig.<br>• Dylai'r "Cofnod o'r Archwiliad o Gronfa'r Ysgol" gael ei gyflwyno i Fwrdd y Llywodraethwyr yn flynyddol.<br>• Dylid cynnal gwiriad ffisegol o asedau'r ysgol ac yn ogystal, eu marcio gydag inc parhaol neu ysgrifbin uwch-fioled.<br>• Dylid sicrhau cysondeb rhwng y gofrestr brecwast am ddim a'r "Cynllun Brecwast" (Atodiad C).<br>• Dylai'r ysgol fabwysiadu polisi CCTV.<br><br>**Barn:** Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a / neu reolaeth fewnol yn rhesymol. | |

| | Teitl yr Adroddiad | Dyddiad | Gwasanaeth | Cyfanswm Argymhellion yr Archwiliad | Negeseuon Allweddol | Lefel Sicrwydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Mae angen cymryd camau rheoli ar lefel gymedrol i isel. | |
| 17 | Ysgol Cemaes | Rhagfyr 2015 | Dysgu Gydol Oes | 14 | Cynhaliwyd archwiliad o Ysgol Cemaes fel rhan o'r cynllun Archwilio Mewnol cyfnodol a gymeradwywyd ar gyfer 2015/16.<br>Canfyddiadau allweddol o'r adolygiad yw:<br>• Mae gan y Corff Llywodraethol drefniadau priodol ar waith i ddiffinio hawliau pennaeth i awdurdodi gwariant a throsglwyddo arian rhwng penawdau ariannol.<br>• Mae incwm yr ysgol yn cael ei gasglu, ei gofnodi a'i fancio yn unol â chyfarwyddiadau’r Adran Addysg.<br>• Cafodd dogfennau priodol i fonitro perfformiad y pennaeth eu cwblhau ar gyfer 2014/15.<br>• Mae nifer y disgyblion yn y "Cyfrifiad Ystadegol" yn cyfateb i gofnodiadau’r ysgol.<br>• Roedd cyfrif cronfa'r ysgol yn foddhaol a chynhyrchir crynodeb gweithgaredd bob blwyddyn ar gyfer rhieni.<br>• Mae cyfansoddiad y Corff Llywodraethol yn cydymffurfio â'r gofynion statudol.<br>• Mae gan yr ysgol rai polisïau statudol.<br>• Canfuwyd rhai gwendidau mewn perthynas ag archebu gwaith, nwyddau a gwasanaethau. Roedd yr holl wariant a brofwyd wedi’i awdurdodi’n briodol ac roedd cyfrif cywir ohono. | Cyfyngedig |

| | Teitl yr Adroddiad | Dyddiad | Gwasanaeth | Cyfanswm Argymhellion yr Archwiliad | Negeseuon Allweddol | Lefel Sicrwydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | **CAMAU ALLWEDDOL A GYTUNWYD**<br>• Dylai incwm prydau ysgol gael ei gofnodi'n gywir a dylai fod cysondeb rhwng y ffurflenni PY7, CT182a a CT183a.<br>• Dylai archebion gael eu cwblhau cyn derbyn nwyddau.<br>• Dylai trefniadau gosod yr ysgol gael eu gweinyddu yn unol â chanllawiau'r Awdurdod.<br>• Dylai cronfa'r ysgol gael ei harchwilio yn flynyddol.<br>• Dylai asedau'r ysgol gael eu marcio gydag inc parhaol neu ysgrifbin uwch-fioled.<br>• Dylai'r gofrestr brecwast am ddim gyd-fynd â'r "Cynllun Brecwast" (Atodiad C).<br>**Barn:** Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol yn gyfyngedig.<br>Mae angen cymryd camau rheoli ar lefel uchel i gymedrol. | |
| 18 | Tai Fforddiadwy, Troi Tai'n Gartrefi a'r Cynllun Benthyciadau Pontio | Rhagfyr 2015 | Tai | 24 | Cynhaliwyd yr archwiliad fel rhan o'r cynllun Archwilio Mewnol a gymeradwywyd ar gyfer 2015/16. Yn yr archwiliad, edrychwyd ar Themâu 1 a 2 y Strategaeth Dai Leol a oedd yn ymwneud â mynd i'r afael a mater tai fforddiadwy a chartrefi gwag dan y Rhaglen Datblygu Tai Fforddiadwy, gan ddarparu cymorth o ran y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, cyllido Tai Gwag a rhoi cymorth i adnewyddu tai yn y sector preifat.<br>Dyma oedd y canfyddiadau allweddol yn dilyn yr adolygiad hwn: | Cyfyngedig |

| | Teitl yr Adroddiad | Dyddiad | Gwasanaeth | Cyfanswm Argymhellion yr Archwiliad | Negeseuon Allweddol | Lefel Sicrwydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | • Ni fedr yr Adran Dai gael gafael ar wybodaeth ariannol am ffioedd refeniw ac incwm ar gyfer monitro cynlluniau a'u rheolaeth ariannol.<br>• Nid yw'r Adran Dai yn ymwybodol bod gwybodaeth ariannol ynghylch derbyniadau cyfalaf ar gael ac yn cael eu monitro gan y Tîm Cyfalaf yn fisol.<br>• Nid yw'r Adran Dai yn cysoni'r wybodaeth am y cynlluniau a ledjer ariannol y Cyngor.<br>• Nid oes unrhyw weithdrefnau sy'n amlinellu'r modd y mae'r broses o adennill benthyciadau pontio sy'n ddyledus yn cael ei gweithredu a'i monitro.<br>• Mae gwybodaeth a ddarparwyd gan Adran y Dreth Gyngor i nodi eiddo gwag yn anghyflawn ac yn anghywir ac yn cael effaith ar effeithlonrwydd y Swyddog Cartrefi Gwag a'r modd y mae'n monitro perfformiad.<br>• Mae'n bosib y bydd diffyg gallu i wahaniaethu rhwng cartrefi gwag ac ail gartrefi'n effeithio ar ddisgresiwn yr Awdurdod Lleol wrth weithredu premiwm treth gyngor o hyd at 100% o'r dreth gyngor safonol ar ail gartrefi, ( Deddf Tai (Cymru) 2014 - Treth Gyngor ar gyfer cartrefi gwag ac ail gartrefi).<br><br>**Barn:** Barn archwilio Sicrwydd Cyfyngedig yn gyffredinol o ganlyniad i'r adolygiadau gyda thri o argymhellion categori Uchel ac un ar ddeg o argymhellion categori Canolig yn cael eu cytuno gyda rheolwyr. | |

## ATODIAD F

**Argymhellion Blaenoriaeth Uchel gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol sydd heb gael sylw ar 22/02/2016**

| Cyf | Adroddiad | Argymhelliad | Dyddiad yr argymhelliad | Dyddiad gweithredu y cytunwyd arno | Swyddog Cyfrifol | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Corfforaethol** | | | | | | |
| 1961. 14/15 | Rheolaethau System - Mynediad Rhesymegol a Gwahanu Dyletswyddau | Dylai'r Cyngor sicrhau ei fod yn cadw cofnod ar gyfer yr holl ddefnyddwyr i dystio eu bod wedi gweld, darllen, deall a chytuno i lynu wrth yr holl bolisïau TGCh allweddol gan gynnwys y Polisi Diogelwch TGCh (ar ôl ei gymeradwyo) a'r Polisi Defnydd Derbyniol. | 07/10/2014 | 31/03/2015 Newidiwyd y dyddiad i 30/09/2015 | Swyddog Busnes a Monitro'r Cyngor | SIRO a Swyddog Adran 151 - Gofynnwyd am wybodaeth gan awdurdodau eraill yng Nghymru mewn perthynas â'r datrysiadau a oedd yn cael eu defnyddio ganddynt. Yn seiliedig ar yr ymatebion a dderbyniwyd, rhoddwyd arddangosiadau cychwynnol dan ddarpar gyflenwyr ym mis Ionawr 2015. Yna, paratowyd dogfen manyleb tendr a chyhoeddwyd rhybudd tendr (GwerthwchiGymru) ar 8 Ebrill 2015 - y dyddiad cau ar gyfer derbyn tendrau oedd 8 Mai 2015. Derbyniwyd pump o dendrau.<br><br>Cyflwynwyd adroddiad yn gofyn am gyllid i gyfarfod anffurfiol o'r Pwyllgor Gwaith ar 1 Mehefin. Nid oedd y Pwyllgor Gwaith yn barod i gefnogi'r prosiect (oherwydd gwrthwynebiad y Swyddog Adran 151) a chafodd yr eitem ei thynnu oddi ar raglen cyfarfod ffurfiol y Pwyllgor Gwaith 15 Mehefin.<br><br>Yn unol â chyfarwyddyd yr Uwch Swyddog Cyfrifol, bydd y dasg yn parhau hyd at, ond nid yn cynnwys, gosod y contract – cynhelir cyfarfod ar 18 Mehefin i roi trefn derfynol ar y canlyniadau o'r broses gwerthuso |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | tendrau a rhoi atborth i'r cyflenwyr.<br><br>Gwaith yn mynd rhagddo. Adroddwyd arno yn y Bwrdd Llywodraethu Gwybodaeth Corfforaethol ar 13/10/2015 |
| 1961. 14/15 | Rheolaethau System - Mynediad Rhesymegol a Gwahanu Dyletswyddau | Dylid sefydlu gweithdrefn sy'n sicrhau nad yw dechreuwyr sydd angen mynediad i rwydwaith, data a systemau'r Cyngor yn cael mynediad o'r fath hyd nes y bydd TGCh wedi cael tystiolaeth bod y defnyddiwr wedi cadarnhau ei fod wedi gweld, darllen, deall a chytuno i lynu wrth y Polisïau Diogelwch a Diogelwch Data. Os yw defnyddwyr wedi cael mynediad ond yna'n methu â darparu tystiolaeth o'r fath fel sy'n ofynnol uchod, tynnir y cyflester oddi arno hyd nes y bydd y dystiolaeth wedi ei darparu. | 07/102014 | 31/03/2015 Newidiwyd y dyddiad i 30/12/2015 | Rheolwr Trawsnewid Busnes TGCh | TGCh - Unwaith y bydd y feddalwedd cydymffurfio â pholisi yn ei lle, rhoddir pythefnos i staff newydd gymeradwyo'r polisïau.<br><br>Ar ôl gweithredu'r feddalwedd cydymffurfio â pholisi, cynigir bod y system yn cael ei gosod fel ei bod yn agor ar yr holl gyfrifiaduron personol pan fydd y defnyddiwr yn mewngofnodi - bydd hyn yn parhau pob tro y byddant yn mewngofnodi nes bod y polisïau wedi cael eu derbyn. Byddai TGCh hefyd yn ymchwilio i'r posibilrwydd yn y tymor hwy bod mynediad i'r Rhyngrwyd yn cael ei dynnu'n oddi wrth ddefnyddwyr newydd yn otomatig a dim ond ei roi yn ôl wedi derbyn tystiolaeth eu bod wedi ymrwymo i lynu wrth bolisïau TGCh allweddol.<br><br>Adolygiad SIRO & Swyddog Adran 151 - Ymchwilio i gyflwyno sgrîn mewngofnod sy'n cynnwys datganiad i ddefnyddwyr ei gymerdwyo yn tystio eu bod wedi darllen, deall a chytuno i lynu wrth Bolisïau TGCh allweddol.<br><br>Ar ôl gweithredu'r feddalwedd cydymffurfiaeth polisi, bydd dechreuwyr newydd yn cael pythefnos i ymrwymo i bolisïau a bydd y neges yn ymddangos ar eu cyfrifiadur hyd nes y bydd y polisïau wedi eu derbyn a bydd defnydd o'r rhyngrwyd yn cael ei |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | dynnu oddi arnynt os nad ydynt wedi derbyn y polisïau allweddol. Fodd bynnag, mae gweithrediad y feddalwedd cydymffurfieth polisi yn cael ei adolygu ar hyn o bryd gan grŵp corfforaethol sy'n cael ei gadeirio gan y SIRO - gweler uchod.<br><br>Mae prosiect sy'n cael ei arwain gan y Swyddog / Monitro SIRO wedi cael y dasg o weithredu system rheoli / derbyn polisïau - mae hyn yn dal i fynd rhagddo.<br><br>Unwaith y bydd datrysiad wedi ei sefydlu bydd hyn yn fodd i GCh gyflawni'r argymhelliad hwn. |
| 1736.11/12 | Sicrwydd Trydydd Parti | Adolygu a gweithredu'r argymhellion yn yr adroddiad Sicrwydd Trydydd Parti. | 7/10/2014 | 31/12/2014 | Rheolwr Cynllunio Busnes a Rhaglennu | |
| **Gwasanaethau Cymdeithasol** | | | | | | |
| 1953. 14/15 | Cynllun y Trydydd Sector | Cynhyrchu canllawiau a gweithdrefnau ffurfiol ar ofynion y Côd Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector a sut i gydymffurfio â hwy sydd ar gael i'r holl staff perthnasol. | 2014/07/10 | 30/10/2015 | Dirprwy Prif Weithredwr | Mae'r Côd Ymarfer yn awr wedi ei gytuno gyda'r Trydydd Sector (Gorffennaf 2015). Lansio'r Côd Ymarfer diwygiedig a drefnwyd yn wreiddiol ar gyfer 09/02/ 2015. Oherwydd argaeledd staff, mae hyn bellach wedi ei aildrefnu ar gyfer 01/10/2015. Yn y cyfamser mae'r tîm cyllid yn cefnogi gwasanaethau gyda disgwyliadau ymarfer.<br><br>Derbyniwyd ymateb yn datgan y cynhaliwyd Sesiwn ar y Cyd gyda'r Trydydd Sector ym mis Medi a bod y sylwadau wedi cael eu derbyn gan Fwrdd Medrwn Môn ym mis Hydref i gadarnhau'r Côd Ymarfer. Cynhaliwyd sesiwn ar gyfer swyddogion mewnol ar 4/11/2015 yn unol â'r cynllun a bydd |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | adroddiad / adolygiad o'r cynllun yn cael ei gyflwyno i'r UDA erbyn diwedd mis Rhagfyr. |
| 1953. 14/15 | Cynllun y Trydydd Sector | Dylid cadw rhestr gorfforaethol o bob Grant Trydydd Sector i sicrhau eu bod oll wedi eu nodi a'u cynnwys yn y trefniadau monitro. | 07/10/2014 | 30/10/2015 | Dirprwy Prif Weithredwr | Y Swyddog arweiniol yw'r Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifeg, Cyllid. Gwnaed gwaith monitro ariannol yn chwarterol i ddiweddaru gwybodaeth am fuddsoddiad yn y sector |
| 1953. 14/15 | Cynllun y Trydydd Sector | Dylai gwasanaethau adolygu sut y gweinyddir eu Grantiau Trydydd Sector a'u gwaith papur er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Cod. | 07/10/2014 | 30/10/2015 | Dirprwy Prif Weithredwr | Mae'r Swyddog Adran 151 wedi cadarnhau y bydd y dasg hon yn cael ei gwneud gan yr Adran Gyllid. Gofynnwyd am sicrwydd y bydd hyn yn cael ei amlygu fel gweithgaredd angenrheidiol pan fydd y Swyddog Adran 151 newydd yn dechrau yn ei swydd. |

**Argymhellion Blaenoriaeth Ganolig gan Archwilio Mewnol sydd heb gael sylw ar 31/12/2015**

| Cyf | Adroddiad | Argymhelliad | Dyddiad yr argymhelliad | Dyddiad gweithredu y cytunwyd arno | Swyddog Cyfrifol | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Corfforaethol** | | | | | | |
| 1940.14/15 | Staff Asiantaeth | Dylai unrhyw ddefnydd newydd o weithwyr asiantaeth fod yn unol â Pholisi CSYM a dylid trafod dewisiadau eraill yn lle defnyddio Gweithwyr Asiantaeth gyda Swyddogion Adnoddau Dynol. Mae'r Polisi Gweithwyr Asiantaeth diwygiedig yn awr yn ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau gwblhau Atodiad 1 - RHESWM DROS GYFLOGI i GWEITHIWR ASIANTAETH – a'i ddychwelyd i AD cyn i unrhyw weithwyr asiantaeth gael eu cyflogi. | 13/08/2014 | 31/07/2014 | Prif Weithredwr | Gofyn i Benaethiaid Gwasanaeth gyfarwyddo staff perthnasol i gydymffurfio â'r Polisi Gweithwyr Asiantaeth diwygiedig o ran y gofyniad i gwblhau ffurflen yn Atodiad A a'i hanfon at Adnoddau Dynol cyn cyflogi unrhyw staff asiantaeth, contract, hunangyflogedig ac ymgynghorwyr. |
| 1961.14/15 | Rheolaethau System - Mynediad Rhesymegol a Gwahanu Dyletswyddau | Dylai'r Polisi Diogelwch TGCh gynnwys cyfrifoldebau a gweithdrefnau diffiniedig. Dylid cofnodi'n ffurfiol pwy yw'r gweinyddwyr system adrannol a dylid gofyn iddynt gadarnhau eu bod yn derbyn yr holl gyfrifoldebau diffiniedig. Dylai pob gweinyddwyr system adrannol ymgyfarwyddo â'r Polisi | 2014/07/10 | 31/03/2015 | Rheolwr Gwasanaethau Technegol | Bydd y polisi Diogelwch TGCh yn cael ei ddiwygio i gynnwys y gofyniad hwn a dygir y polisi i sylw perchnogion asedau gwybodaeth yn y gwasanaethau . Unwaith y bydd y feddalwedd cydymffurfiaeth polisi wedi ei sefydlu bydd raid i'r swyddogion priodol adolygu / cymeradwyo polisïau TGCh allweddol. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Diogelwch TGCh a gweithredu'r polisi lle bo angen. | | | | |
| 009.15/16 | Llywodraethu Gwybodaeth | Dylai'r Adran Gaffael sicrhau bod Cytundebau Prosesu Data yn cael eu cynnwys yn y cyfnod tendro / dyfynbrisiau a'u cynnwys fel atodiad ar wahân gyda phob contract perthnasol newydd. | 02/11/2015 | 30/11/2015 | Swyddog Caffael | Cynhaliwyd cyfarfod ar 22/2/2016 i drafod mesurau diogelwch o ran data personol wrth gaffael. Bydd y Swyddogaeth Gwybodaeth Corfforaethol yn creu cynllun gweithredu yn manylu ar yr hyn y dylid ei gynnwys yn y contractau a'i anfon i'r UDA yn yr ychydig wythnosau nesaf. |
| 009.15/16 | Llywodraethu Gwybodaeth | Dylai rheolwyr adolygu sut rhedir contractau lle mae contractwr trydydd parti yn prosesu data personol ar ran y Cyngor i benderfynu a gorfodi Cytundeb Prosesu Data ar y contract. | 09/11/2015 | 30/09/2015 | Swyddog Gwybodaeth Corfforaethol | Mae gwaith wedi cychwyn ar y mater hwn, fodd bynnag, o ran argymhellion Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ynghylch caffael gwasanaethau, bydd angen adolygiad ehangach o'r mesurau diogelu data wrth gaffael gwasanaethau sy'n ymwneud â gwybodaeth bersonol. Mae amser yn ffactor o ran yr adolygiad y gofynnwyd amdano gan SCG oherwydd rhaid gwneud hyn cyn y gellir cwblhau'r argymhelliad. Dylid diwygio'r dyddiad targed. |
| 009.15/16 | Llywodraethu Gwybodaeth | Dylai'r SIRO sicrhau bod yr holl gontractau 'Categori 1' a weithredir gan y Cyngor yn cael eu cynnwys mewn Cytundebau DP yn unol ag argymhellion Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. | 2015/09/11 | 30/09/2015 | Swyddog Busnes a Monitro'r Cyngor | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 009.15/16 | Llywodraethu Gwybodaeth | Dylid cyflwyno adroddiad ysgrifenedig i'r UDA fel tystiolaeth bod achos pob digwyddiad diogelwch data yn cael ei adolygu a bod effeithiolrwydd yr ymateb hefyd yn cael ei asesu yn unol ag Adran 8.1 y Polisi Diogelwch Data - Fersiwn 2.0 (Mehefin 2015). | 09/11/2015 | 15/11/2015 | Swyddog Busnes a Monitro'r Cyngor | |
| **Dysgu Gydol Oes** | | | | | | |
| 1959.14/15 | Ysgol Henblas | Dylid sicrhau fod y gofrestr Athrawon Llanw yn gyflawn ac yn cael ei chysoni i adroddiadau cyllidol y Cyngor i sicrhau cywirdeb y cyfrifon. | 07/10/2014 | 31/10/2014 | Swyddog Mynediad ac Ystadegau | |
| 1959.14/15 | Ysgol Henblas | Dylai'r Corff Llywodraethu benodi'n ffurfiol archwiliwr cronfa'r ysgol. | 07/10/2014 | 31/12/2014 | Swyddog Mynediad ac Ystadegau | |
| 1959.14/15 | Ysgol Henblas | Dylai'r ysgol sicrhau cydymffurfiaeth lawn gyda Gweithdrefnau Rheoli Fflyd a Gyrwyr yr Awdurdod. | 07/10/2014 | 20/09/2014 | Swyddog Mynediad ac Ystadegau | |
| 1960 2014/15 | Ysgol Pentraeth | Gan edrych i'r dyfodol, ac yn unol â'r Cynllun Datblygu, dylai'r ysgol gytuno ar strategaeth benodol ar gyfer rheolaeth effeithiol, monitro ac ymgynghoriaeth rheolaidd mewn perthynas â chyllid yr ysgol (gan gynnwys arian | 11/12/2014 | 31/01/2015 | Swyddog Mynediad ac Ystadegau | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | wrth gefn). Dylai'r strategaeth gynnwys amlder, lefel manylder a fformat gyffredinol y wybodaeth ariannol ddylai gael ei ddarparu ar gyfer y Llywodraethwyr. | | | | |
| 1960.2014/15 | Ysgol Pentraeth | Dylai'r Pennaeth gyflawni gwiriadau goruchwyliol ar incwm prydau ysgol, yn wythnosol, misol a dirybudd yn unol â chanllawiau'r Gwasanaeth Addysg. Dylai'r Pennaeth arwyddo'r datganiad misol CT182a ar ôl y bancio diwethaf ar gyfer y mis i dystiolaethu bod y gwiriadau priodol wedi'u cyflawni'n foddhaol a'r wybodaeth yn gywir. | 11/12/2014 | 31/12/2014 | Swyddog Mynediad ac Ystadegau | |
| 1960 2014/15 | Ysgol Pentraeth | Dylid bancio incwm prydau ysgol yn rheolaidd ac yn brydlon, yn unol â chyfarwyddiadau'r Gwasanaeth Addysg. | 11/12/2014 | 01/09/2015 | Swyddog Mynediad ac Ystadegau | |
| 1960 2014/15 | Ysgol Pentraeth | I gynnal y trywydd archwilio, dylid cofnodi dyddiad y bancio gyferbyn â'r swm briodol ar y datganiad misol CT182a ar bob achlysur. | 11/12/2014 | 31/12/2014 | Swyddog Mynediad ac Ystadegau | |
| 1960 2014/15 | Ysgol Pentraeth | Dylai'r ysgol gwblhau'r ffurflen hysbysu archeb o flaen llaw ym mhob achos, nid ar ôl derbyn yr anfoneb neu'r nwyddau. Mewn achos o argyfwng gellir | 11/12/2014 | 01/09/2015 | Swyddog Mynediad ac Ystadegau | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | rhoddi archeb ar lafar a rhyddhau archeb ysgrifenedig yn ystod y diwrnod gwaith nesaf. | | | | |
| 1960 2014/15 | Ysgol Pentraeth | I gadw rheolaeth ar eiddo'r ysgol dylid cynnal gwiriadau ffisegol ar yr eitemau a restrir yn y cofnodiadau eiddo ar sail blynyddol ac os oes anghysonderau, cymryd camau priodol. | 11/12/2014 | 31/03/15 | Swyddog Mynediad ac Ystadegau | |
| 1960 2014/15 | Ysgol Pentraeth | Dylai'r ysgol gynnal cofrestr ddyddiol o'r disgyblion sydd yn derbyn brecwast am ddim i gynnal trywydd archwilio ar gyfer y datganiad misol o'r nifer o ddisgyblion sy'n derbyn brecwast am ddim yn yr ysgol (Atodiad C) ddychwelir i'r Gwasanaeth Addysg fel rhan o broses gweinyddu grant Brecwast am Ddim Llywodraeth Cymru. | 11/12/2014 | 31/12/2014 | Swyddog Mynediad ac Ystadegau | |
| 1960 2014/15 | Ysgol Pentraeth | Dylid sicrhau bod cyfansoddiad y Corff Llywodraethu yn bodloni gofynion yr Offerynnau Statudol perthnasol. | 11/12/2014 | 31/12/2014 | Swyddog Mynediad ac Ystadegau | |
| 1960 2014/15 | Ysgol Pentraeth | Dylai'r ysgol gytuno ar bolisi priodol, wedi ei gymeradwyo gan y Corff Llywodraethu, ar gyfer defnyddio'r system Teledu | 11/12/2014 | 30/04/2015 | Swyddog Mynediad ac Ystadegau | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Cylch Cyfyng. | | | | |
| 1978.14/15 | Ysgol Llangoed | Dylai Cadeirydd cyfarfod nesaf y pwyllgor lofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol (yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth y pwyllgor) yn unol â rheoliadau perthnasol. | 22/12/2014 | 31/10/2015 | Swyddog Mynediad ac Ystadegau | |
| 1978.14/15 | Ysgol Llangoed | Dylai’r ysgol sicrhau cydymffurfiaeth lawn gyda Gweithdrefnau Rheoli Fflyd Gyrwyr yr Awdurdod. | 22/12/2014 | 31/07/15 | Swyddog Mynediad ac Ystadegau | |
| **Cyllid** | | | | | | |
| 1921.13/14 | Y Dreth Gyngor | Dylai cyfrifon a ataliwyd gael eu hadolygu’n rheolaidd a chdaw tystiolaeth o adolygiad ar y ffeil. | 13/05/2014 | 30/09/2015 | Rheolwr Gweithrediadau | Mae ataliadau gyda "dyddiad gorffen" yn cael eu dileu’n otomatig gan y system. Mae'r rheini sydd yn dal i fod ar agor yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd. |
| 1960.14/15 | Ysgol Pentraeth | Dylai'r Adain Incwm wneud ymholiadau i sicrhau fod yr arian a fanciwyd gan yr Ysgol (Sef £ 302.70) mis Ionawr 2014 yn y Swyddfa Bost wedi ei gyfrifo amdano'n gyflawn a chywir yng ngyfriflyfr the Council | 2014/11/12 | 30/06/2015 | Swyddog Incwm | Gofynnwyd am gopi o’r adroddiad 22/06/2015. Targed cwblhau tasg 30/06/2015. |
| 1982.14/15 | Mân - ddyledwyr | Dylid cyflwyno’r gweithdrefnau canlynol er mwyn darparu rheolaethau ychwanegol dros atal cyfrifon: | 14/04/2015 | 31/08/2015 | Swyddog Incwm | Mae gan yr holl ataliadau newydd ddyddiad gorffen. Mae rhestrau wedi cael eu llunio ar gyfer yr holl ataliadau eraill ac mae gwaith arnynt yn |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | - Dylid defnyddio'r cyfleuster yn CIVICA i osod terfynau amser priodol ar ataliadau ym mhob achos.<br><br>- Dylid cofnodi'r rheswm dros atal camau adennill yn y cyfleuster nodiadau ar y system.<br><br>- Dylai adroddiad ar yr holl ataliadau gael ei adolygu gan swyddog perthnasol yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod yr holl resymau dros ataliadau yn parhau i fod yn ddilys.<br><br>Dylid cadw dogfennaeth sy'n cefnogi ataliadau ar ffeil gan roi rheswm dros y penderfyniad i atal, gan gynnwys enw a llofnod y swyddog sy'n awdurdodi'r ataliad. | | | | parhau naill ai i gael gwared ar yr ataliad, canslo anfonebau ac ati. Angen adolygu'r dyddiad targed oherwydd maint y gwaith. |
| 1983.14/15 | Rheoli'r Trysorlys | Dylai prosesau a gweithdrefnau Rheoli'r Trysorlys gael eu cofnodi'n llawn ac yn eglur a rhoi'r dyddiad arnynt er mwyn nodi pwy fedr gymeradwyo'r dogfennau gofynnol ac i wahanu dyletswyddau. | 13/05/2014 | 31/07/2015 | Cyfrifydd Cyfalaf | Ailadroddwyd yn Adroddiad Rheoli'r Trysorlys 1932.13 / 14 1.8 |
| 1985.14/15 | Derbynebu Arian | Dylid cysoni a chymharu'r ffigyrau yn y system derbyn arian a chofnodion y banc o'r | 14/04/2015 | 31/03/2015 | Swyddog Incwm | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | incwm a dderbyniwyd yn ddi-oed ar ôl diwedd y cyfnod. Dylai cysoniadau o'r fath gael eu gwirio gan ail swyddog a'u llofnodi a'u dyddio fel tystiolaeth. Cafodd yr un manylion eu cynnwys yn ein hargymhelliad o ganlyniad i brofion archwilio ar gyfer y flwyddyn 2013/2014. | | | | |
| 1988.14/15 | Trethi Cenedlaethol Annomestig | Dylai dyledion sydd heb eu hadennill ar ôl cwblhau'r broses adennill dyledion gael eu hanfon ymlaen at feilïaid / swyddogion gorfodaeth y Cyngor yn brydlon. | 13/05/2014 | 31/07/2015 | Rheolwr Gweithrediadau | Yn ddiweddar, cyfeiriwyd achosion at Asiantau Gorfodi yn fwy amserol. Mae adolygiad yn cael ei gynnal i leihau'r cyfnod cyn-gorfodi drwy gyfuno dau lythyr yn un. |
| 1988.14/15 | Trethi Cenedlaethol Annomestig | Dylai cyfrifon sydd wedi eu hatal gael eu hadolygu'n rheolaidd a dylid cadw tystiolaeth o'r adolygiad ar ffeil. | 13/05/2014 | 31/07/2015 | Rheolwr Gweithrediadau | Mae'r ataliadau gyda "dyddiad gorffen" yn cael eu dileu yn otomatig gan y system. Bydd y rheini sy'n dal i fod ar "agor" yn cael eu hadolygu erbyn diwedd mis Gorffennaf. |
| 1993.14/15 | Bryn Trewan | Dylid cyhoeddi anfonebau ar gyfer y flwyddyn gyfredol i'r rheini sy'n gyfrifol am dalu yn ôl chwiliad o'r gofrestrfa tir (ATODIAD B) | 05/06/2015 | 31/07/2015 | Swyddog Incwm | Gwnaed chwiliadau trwy'r Gofrestrfa Tir. Trefnir cyfarfod yn y Gwasanaeth Cyllid i gytuno ar ffordd ymlaen. |
| 1997.14/15 | Budd-daliadau Tai | Rhaid i'r dystiolaeth fod yn gyflawn a rhaid ei rhoi ar y ffeil i gefnogi pob cais cymwys a wneir. Dylai'r holl ddogfennau fod ar gael yn rhwydd gan gynnwys gohebiaeth | 14/04/2015 | 30/09/2015 | Goruchwyliwr Budd-daliadau | PARHAUS |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | a anfonwyd at hawlwyr yn rhoi gwybod iddynt am ganlyniad yr asesiad. | | | | |
| 1997.14/15 | Budd-daliadau Tai | Fel y bwriadwyd, dylid cymryd camau i sicrhau bod y perfformiad o ran cywirdeb yn cyrraedd y targed a osodwyd o 99%. | 14/04/2015 | 30/06/2015 | Rheolwr Gweithrediadau | |
| **Tai** | | | | | | |
| 1868.14/15 | Digartrefedd | Mae angen gwella agweddau allweddol ar weithdrefnau Digartrefedd er mwyn adlewyrchu'r pwyslais cynyddol ar atal digartrefedd.<br><br>Mae angen gwella Gweithdrefnau i:<br><br>- Adlewyrchu newidiadau gweinyddol gan gynnwys cyflwyno'r ffurflen asesu cyfunol newydd a System Orchard;<br><br>- Y defnydd o'r system ariannol CIVICA newydd;<br><br>- Cynnwys mwy o fanylion, ee gweinyddiaeth y Gronfa Atal Digartrefedd, gwarchod eiddo pobl ddigartref. | 28/01/2015 | 30/10/2015 | Prif Swyddog Tai | |
| 1868.14/15 | Digartrefedd | Dylid ailddyrannu'n ffurfiol ddyletswyddau allweddol y Swyddog Llety gan gynnwys | 28/01/2015 | 30/10/2015 | Prif Swyddog Tai | Fel rhan o Amodau Trwyddedu, archwilir llety Gwely a Brecwast gan yr Adran Iechyd yr Amgylchedd. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | trefnu arolygiadau blynyddol o adeiladau a ddefnyddir i ddarparu Gwely a Brecwast neu lety brys ar gyfer ymgeiswyr digartref. | | | | Gohiriwyd y weithred hon nes bod y Tîm Opsiynau Tai newydd wedi ei sefydlu - dyddiad cychwyn 10/08/2015 – mae'r weithred hon yn dod o fewn cylch gwaith y Swyddogion Datrysiadau (dal angen penodi i 1 swydd). Mae swyddogion yn derbyn hyfforddiant ar hyn o bryd.<br><br>Bydd y defnydd o lety Gwely a Brecwast yn awr yn cael ei ddylanwadu gan y meini prawf 'addasrwydd' fel y cyfeirir atynt yn Neddf Tai Cymru 2014, a ddaeth i rym 27/04/2015.<br><br>Mae'r gweithdrefnau a roddir ar waith gyda'r Rheolwr Opsiynau Tai i sicrhau cydymffurfiaeth yn cynnwys:<br><br>- Ffurfioli'r weithdrefn arolygu (arolygiadau blynyddol ac arferol)<br><br>- Creu cronfa ddata o'r holl lety Gwely a Brecwast a ddefnyddir i gynnwys disgrifiad o'r eiddo a'r ystafell a'r mwynderau a'r cyfleusterau sydd ar gael ym mhob llety. |
| 1868.14/15 | Digartrefedd | Dyliai rheolwyr ailgyflwyno gwiriadau ffurfiol i sicrhau bod pobl y dal i fyw mewn llety Gwely a Brecwast y telir amdano er mwyn sicrhau mai dim ond taliadau | 28/01/2015 | 30/10/2015 | Prif Swyddog Tai | Mae'n cynnwys archwiliadau rheolaidd o lety Gwely a Brecwast.<br><br>Nid yw'r agwedd hon ar reoli llety Gwely a Brecwast wedi cael sylw oherwydd pwysau |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | dilys a wneir. | | | | staffio yn y tîm digartrefedd (fel yr oedd) a pharatoi ar gyfer gweithredu Deddf Tai (Cymru) 2014.<br><br>Mae'r weithred hon yn rhan o rôl y Tîm Opsiynau Tai sydd newydd gael ei alstrwythuro a bydd y dyletswyddau hyn yn cael eu rhoi i'r Swyddogion Datrysiadau o fewn y tîm. |
| 1868.14/15 | Digartrefedd | Dylid neilltuo'n ffurfiol y cyfrifoldeb am gynnal gwiriad systematig (a chymryd camau cywiro fel y bo angen) o'r holl daliadau Budd-dal Tai a wnaed i gyfrif daliannol y Cyngor drwy gyfeirio at y rhestr wythnosol o daliadau ac edrych ar y gronfa ddata o leoliadau Gwely a Brecwast.<br>Gellid cynnwys colofnau ychwanegol yn y gronfa ddata i gadw cofnod o ddyddiad cychwyn yr hawliad Budd-dâl Tai, swm y budd-dal a ddyfarnwyd, cost y llety, a'r dyddiad yr hysbyswyd yr Adain Budd-daliadau Tai bod y cleient wedi gadael y llety. | 28/01/2015 | 30/10/2015 | Prif Swyddog Tai | Cytunwyd y byddai hyn yn cael ei weithredu gan y Tîm Opsiynau Tai.<br><br>Heb ei weithredu. |
| 1993.2014/15 | Bryn Trewan | Dylai'r Gwasanaeth adolygu'r cyfraddau cyfredol a phenderfynu a ddylid cynyddu'r cyfraddau a ailgodir yn unol â gwariant bob | 05/06/2015 | 30/10/2015 | Rheolwr Gwasanaethau Technegol | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | blwyddyn. | | | | |
| **TGCh** | | | | | | |
| 2004/2015/16 | Adfer TGCh ar ôl Trychineb. | Dylai'r rheolwyr sicrhau bod unrhyw fethiant yn isadeiledd TGCh y Cyngor y gwyddys amdano neu a nodwyd yn cael ei gofnodi a'i adolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod y risgiau wedi eu cofnodi a bod strategaethau i liniaru'r risg wedi eu gweithredu lle bo angen. | 10/08/2015 | 31/10/2015 | Rheolwr Gwasanaethau Technegol | Derbyniwyd.<br><br>Sefydlir Desg Gymorth TGCh i gychwyn ym Mis Hydref a bydd yn monitro elfennau isadeiledd mewn amser gwirioneddol. Bydd unrhyw ddiffygion yn cael eu cofnodi yn y system TrackIT ar gyfer ymchwiliad ail linell pellach (gan y tîm Isadeiledd) neu ymchwiliad trydedd llinell (partneriaid cymorth). |

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ADAIN ARCHWILIO MEWNOL

**CRYNODEB O YMCHWILIADAU ARBENNIG – 1 EBRILL 2015 I 31 HYDREF 2015**

| Rhif y Dasg | Math o Ddigwyddiad | Nifer y Dyddiau | Sylwadau / Canlyniad |
|---|---|---|---|
| 1955.14/15 | Ysgol – honiad ynghylch anghysonderau ariannol | 4.70 | Gwnaed argymhellion i roi sylw i arferion gwael o ran cadw cofnodiadau ariannol. |
| 2006.14/15 | Uned Ailgylchu | 0.34 | Ystyrir bod y mesurau sydd ar gael i atal lladrad o'r safle yn ddigonol ac mae darpariaeth dda o ran camerâu goruchwylio. Ni fedrir cymryd unrhyw gamau pellach mewn perthynas â'r honiad dienw hwn. |
| 005 | £100 o arian parod ar goll | 4.53 | Mae ymchwiliad yr Heddlu i'r digwyddiad bellach wedi cau. Nodwyd gwendidau gan y rheolwyr a gweithredwyd ar unwaith ar fesurau i gryfhau'r gweithdrefnau. |
| 010 | Ysgol – Dwyn Arian | 7.03 | Y troseddwr wedi ymddiswyddo a'r ymchwiliad wedi'i gau. |
| 014 | Depo - Dwyn Diesel | 3.11 | Ymchwiliad yr Heddlu'n parhau. |
| 017 | Cyfeiriad gan LIC – Lwfans i Fyfyriwr Anabl – Taliadau Anghymwys | 5.36 | Dim argymhellion wedi eu gwneud mewn perthynas â'r cyfeiriad hwn oherwydd nid yr Awdurdod Lleol sydd mwyach yn gweinyddu'r Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl. |
| 022 | Agor atyniad i ymwelwyr heb ganiatâd a materion ariannol | 20.61 | Dim digon o dystiolaeth i gyfeirio'r mater i'r Heddlu. Cyhoeddwyd adroddiad yn amlinellu argymhellion i gryfhau rheolaeth fewnol. |
| 031 | Gweithiwr yn gwneud gwaith cyflogedig pan oedd i ffwrdd yn sâl | 0.20 | Dim digon o wybodaeth i gyfiawnhau ymchwiliad pellach. Cyfeiriad ebost yn unig oedd yr unig dystiolaeth o gyflogaeth ychwanegol. |
| 032 | Dwyn arian personol o ystafell ddosbarth mewn ysgol | 2.64 | Ymchwiliad yr Heddlu'n parhau. CCFP yn ymgynghori gyda'r Heddlu ynghylch camau pellach. |
| 035 | Achos posibl o dorri rheolau data – post a ddanfonwyd â llaw | 1.82 | CCFO yn ymgynghori gyda'r Swyddog Gwybodaeth Gorfforaethol a Staff y Dderbynfa ynghylch mabwysiadu rhyw ddull o gofnodi post preifat/cyfrinachol a ddanfonir â llaw |
| **CYFANSWM NIFER Y DYDDIAU** | | 50.34 | |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R** | **PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHIANT** |
| **DYDDIAD** | **15 MAWRTH, 2016** |
| **PWNC** | **CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL STRATEGOL 2016/17 – 2018/19 A CHYNLLUN BLYNYDDOL 2016/17** |
| **SWYDDOG ARWEINIOL** | **PENNAETH ARCHWILIO MEWNOL – MIKE HALSTEAD** |
| **SWYDDOG CYSWLLT** | **RHEOLWR ARCHWILIO – SIONED PARRY** |

**Natur a rheswm dros adrodd –** Mae'r ddogfen sydd ynghlwm yn amlinellu Strategaeth Archwilio Mewnol a Chynllun Blynyddol Cyngor Sir Ynys Môn (CSYM) ar gyfer y flwyddyn 2016/17. Mae'r Strategaeth a'r Cynllun Blynyddol yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant i'w hystyried a'u cymeradwyo yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus a ddaeth i rym ar 1/4/13 ac a gynhyrchwyd gan CIPFA a chyrff eraill sy'n gosod safonau.

## 1. GWYBODAETH GEFNDIR

### 1.1 Strategaeth Archwilio Mewnol a Chynllun Blynyddol 2016/17

**1.1.1** Mae angen i'r Pennaeth Archwilio Mewnol ddatblygu a chynnal strategaeth **(Atodiad A)** ar gyfer darparu'r gwasanaeth Archwilio Mewnol yn unol â'i Siarter Archwilio Mewnol a'i Gylch Gorchwyl a gafodd eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant ar 27 Ebrill 2015 a 9 Chwefror, 2015, yn eu trefn. Mae'r Strategaeth Archwilio Mewnol yn ddatganiad lefel uchel o sut bydd y gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cael ei ddarparu a'i ddatblygu ac fe'i cefnogir gan Gynllun Blynyddol manwl yn **Atodiad B.**

**1.1.2** Diben y strategaeth yw sefydlu ymagwedd sy'n golygu y gellir rheoli gwasanaeth Archwilio Mewnol CSYM mewn ffordd a fydd yn hwyluso:

- Sut mae'r Gwasanaeth yn cael ei ddarparu i roi sicrwydd parhaus i reolwyr ar gadernid, effeithiolrwydd a gweithrediad system rheolaeth fewnol CSYM.
- Cyflawni'r Cynllun Blynyddol.
- Cynnig barn bob blwyddyn ar drefniadau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethiant y Cyngor i gefnogi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2015/16.
- Hunanasesiad blynyddol i werthuso cydymffurfiaeth â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus ac effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ac adnabod cyfleoedd ar gyfer gwelliant.
- Proses sy'n sicrhau bod ymatebion rheolwyr i argymhelion y gwasanaeth archwilio'n cael eu rhoi ar waith.

- System ddigonol ac effeithiol ar gyfer archwilio'n fewnol y cofnodion cyfrifyddu a'r systemau rheolaeth fewnol yn unol ag arferion archwilio mewnol priodol.
- Nodi adnoddau archwilio sydd eu hangen i ddarparu gwasanaeth archwilio sy'n cwrdd â safonau proffesiynol gofynnol;
- Dyrannu adnoddau rhwng gwasanaethau sicrwydd, gwasanaethau sy'n gysylltiedig â thwyll a gwasanaethau ymgynghori a ddarperir gan y gwasanaeth.

**1.1.4** Cefnogir y Strategaeth Archwilio Mewnol a'r Cynllun Blynyddol **yn Atodiad A** gan Atodiadau B i E sy'n ymhelaethu ar y Cynllun Blynyddol ar gyfer 2016/17, Cynllun Strategol 3 blynedd ar gyfer y cyfnod 2016-2019, a dadansoddiad o adnoddau Archwilio Mewnol a thargedau perfformiad mewn perthynas â 2016/17.

## 1.2 Y Broses o Asesu Anghenion Archwilio

**1.2.1** Mabwysiadodd y Cyngor Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus yn 2013 ac mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn glynu wrthynt. Mae Safon 2010 yn ymwneud â chynllunio gwaith archwilio ac mae'n nodi: '*rhaid i'r prif swyddog archwilio sefydlu cynlluniau sy'n seiliedig ar risg i bennu blaenoriaethau'r gweithgareddau archwilio mewnol, yn gyson â nodau'r sefydliad'.*

**1.2.2** Er mwyn adnabod y meysydd y mae angen i'r gwasanaeth archwilio mewnol roi sylw iddynt, mae angen deall y risgiau y mae'r sefydliad yn eu hwynebu. Cynhaliwyd asesiad o'r anghenion archwilio ar gyfer 2016/17 gan ddefnyddio'r prosesau canlynol:

- Cadarnhau amcanion craidd y sefydliad a'r risgiau allweddol penodol sy'n gysylltiedig â chyflawni'r amcanion hynny drwy adolygu'r Cynllun Busnes Corfforaethol ar gyfer 2013/17 a thrwy gysylltu â rheolwyr y Cyngor

- Gwybodaeth a gasglwyd am y Sefydliad yn sgil gwaith archwilio mewnol a wnaed eisoes i adnabod meysydd a fyddai'n elwa o gael sylw gan y gwasanaeth archwilio mewnol. Roedd hyn yn golygu ymgorffori barn am drefniadau rheoli mewnol, llywodraethiant a rheoli risg y Cyngor yn Adroddiad Blynyddol y Prif Swyddog Archwilio ar gyfer 15/16.

- Yn ogystal, nododd yr asesiad o Anghenion Archwilio rai meysydd nad ydynt yn ymddangos fel risg blaenoriaeth uchel ond lle gall sylw gan y gwasanaeth archwilio mewnol ddarparu mewnbwn o ran sicrwydd, er enghraifft:

    - Gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus a Chôd Ymarfer CIPFA ar gyfer Archwilio Mewnol

- Gwaith y mae angen ei wneud fel y gall archwilwyr allanol ddibynnu ar waith Archwilio Mewnol ar systemau ariannol craidd yn unol â'r cysyniad o archwiliadau a reolir
- Meysydd sy’n achosi pryder y tynnwyd sylw atynt gan reolwyr neu gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant
- Materion sy'n dod i'r amlwg
- Yr angen am sicrwydd parhaus mewn perthynas ag agweddau allweddol ar reoli risg, llywodraethu a rheolaethau mewnol

**1.2.3** Roedd dogfennau eraill yr edrychwyd arnynt wrth ddatblygu'r cynllun yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i: Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2014/15; Archwiliad PwC o Ddatganiadau Cyfrifyddu; Dogfen Gyflawni Flynyddol (Cynllun Gwella) 2015/16; a chysylltu â’r Archwilwyr Allanol (PwC) a sgriwtini o’u cynlluniau gwaith ar gyfer 2016/17.

**1.2.4** Mae dull o weithio’r Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn rhoi sylw i risgiau ac mae’n defnyddio Cofrestr Risg Gorfforaethol y Cyngor i yrru Cynlluniau Strategol a Gweithredol y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ac i ddefnyddio ein hadnoddau cyfyngedig i roi sicrwydd ynghylch y risgiau mwyaf i'r Cyngor pan fo hynny'n bosib ac yn briodol. Yna adroddir ar sicrwydd ynghylch risgiau sy’n gyfarwydd i reolwyr ac Aelodau'r Cyngor trwy eu gwybodaeth am risgiau corfforaethol.

**1.2.5** Gwnaed defnydd ychwanegol o gyfarfodydd gydag uwch reolwyr ac adolygwyd dogfennau corfforaethol i asesu’r risgiau ac anghenion archwilio. Mae'r dadansoddiad hefyd yn cynnwys gwybodaeth a gafwyd yn sgil archwiliadau a gynhaliwyd yn flaenorol, ynghyd â phrofiad o weithrediadau, amcanion a risgiau’r Cyngor.

**1.2.6** Mae adolygiad o'r Fframwaith Rheoli Risg ac o effeithiolrwydd y camau gweithredu i liniaru’r risgiau mwyaf i’r Cyngor wedi cael ei gynnwys yng Nghynllun Blynyddol y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2016/17.

## 1.3 Y Cynllun Archwilio Mewnol Blynyddol

**1.3.1** Cynhyrchir y Cynllun Gweithredol Blynyddol i ddarparu rhaglen waith ar gyfer y Gwasanaeth Archwilio Mewnol am y flwyddyn. Adolygir yr asesiad o anghenion archwilio a gofynnir am fewnbwn gan Gyfarwyddwyr, Penaethiaid Swyddogaeth a’r Penaethiaid Gwasanaeth i nodi unrhyw risgiau nad ydynt yn cael sylw ar hyn o bryd. Defnyddir yr asesiad diwygiedig o anghenion archwilio i gyfeirio adnoddau Archwilio Mewnol at yr agweddau hynny a aseswyd fel rhai sy’n peri’r risg fwyaf o ran cyflawni'r amcanion sydd gan y Sefydliad.

**1.3.2** Fel rhan o'r broses o ddatblygu Cynllun Gweithredol 2016/17, mae’r Rheolwr Archwilio wedi ymgynghori gyda'r Prif Weithredwyr Cynorthwyol, y Swyddog

Adran 151 ac wedi cysylltu gyda'r Penaethiaid Swyddogaeth a Phenaethiaid Gwasanaeth i drafod eu hanghenion. Ymghynghorwyd hefyd gyda'r Archwiliwr Allanol (PwC) ar y Cynllun Gweithredol arfaethedig ar gyfer 2016/17.

**1.3.3** Mae'r Cynllun Gweithredu arfaethedig ar gyfer Archwilio Mewnol a welir yn **Atodiad B** yn adlewyrchu canlyniadau'r adolygiad a gynhaliwyd eleni o'r Dadansoddiad o'r Asesiad Anghenion Archwilio ar gyfer 2016/17.

## 1.4 Adnoddau

**1.4.1** Darperir y gwasanaeth Archwilio Mewnol gan dîm mewnol o 5 swyddog a chyfrifydd dan hyfforddiant ar secondiad am gyfnod o 6 mis o fis Ionawr 2016. Rheolir y gwasanaeth yn allanol ar hyn o bryd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, ac mae ynddo 5.93 o swyddogion cyfwerth ag amser llawn fel y nodwyd yn **Atodiad D.**

**1.4.2** Mae sgiliau ac arbenigedd digonol o fewn y gwasanaeth i ddarparu'r rhan fwyaf o'r ystod lawn o archwiliadau sydd yn y Cynllun Blynyddol, i reoli'r gwasanaeth yn effeithlon ac yn effeithiol ac i roi sicrwydd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant ar ddigonolrwydd y rheolaeth fewnol, y trefniadau rheoli risg a'r prosesau llywodraethu corfforaethol. Efallai y bydd angen allanoli rhai elfennau o arbenigedd mewn perthynas ag archwiliadau TG.

## 1.5 Rheoli Perfformiad

**1.5.1** Mae'r gwasanaeth yn parhau i ganolbwyntio ar ffyrdd i wneud y gorau o'r adnoddau archwilio a gwella perfformiad, tra'n cynnal gwasanaeth o safon a sicrhau cydymffurfiaeth â safonau proffesiynol. Cyflawnir hyn drwy brosesau sicrhau ansawdd cadarn a thrwy osod amcanion yn y Cynllun Gwasanaeth Blynyddol. Mae cynnydd o ran cyflawni amcanion yn cael ei fonitro drwy adolygiadau perfformiad gwasanaeth chwarterol ac adroddir ar berfformiad y gwasanaeth i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant yn chwarterol. Mae targedau perfformiad ar gyfer 2016/17 ynghlwm yn **Atodiad E** i'w hystyried a'u cymeradwyo. Mae'r dangosydd ynghylch gweithredu argymhellion lefel uchel a chanolig yn rhoi tystiolaeth o'r canlyniadau ac o faint o ddylanwad sydd gan y gwasanaeth o ran gyrru gwelliant a hyrwyddo rheoli risg.

## 2. ARGYMHELLION

**2.1** Bod Aelodau yn ystyried ac yn cymeradwyo'r Strategaeth a Chynllun Blynyddol y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2016/17.

**2.2** Bod Aelodau'n ystyried a chymeradwyo targedau perfformiad y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2016/17.

**ATODIAD A**

# Strategaeth a Chynllun Blynyddol Archwilio Mewnol

# 2016-17

**Cyflwynwyd i:**

**UDA: 26 Ionawr 2016**

**Pwyllgor Archwilio: 15 Mawrth 2016**

**Mike Halstead**

**Pennaeth Archwilio Mewnol**

## Cynnwys Tudalen

**Cyflwyniad a Throsolwg** ………………………………………….. **- 1 -**

**Cyflawniadau Allweddol Craidd** ………………………………… **- 2 -**

**Rôl a Phwrpas Archwilio Mewnol** ………………………………. **- 2 -**

**Protocol ar gyfer Adolygiadau Archwilio** ……………………… **- 3 -**

**Meysydd blaenoriaeth ar gyfer 2016/17** .................................. **- 3 -**

**Rheoli perfformiad y Gwasanaeth Archwilio Mewnol** .............. **- 5 -**

**Darparu Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2016/17** **- 5 -**

**Datblygu'r Cynllun Archwilio Blynyddol Mewnol** ……………… **- 6 -**

**Crynodeb o'r Cynllun Archwilio Mewnol 2016/17** ……………… **- 7 -**

**Adrodd** ……………………………………………………………… **- 8 -**

**Atodiadau**

**Cynllun Archwilio Mewnol Blynyddol 2016-17 Atodiad B**

**Cynllun Strategol 2016-19 Atodiad C**

**Adnoddau Archwilio Mewnol Atodiad D**

**Targedau Perfformiad y Gwasanaeth 2016 -17 Atodiad E**

# Cyflwyniad a Throsolwg

## Datganiad Strategaeth

1. Strategaeth gyffredinol Archwilio Mewnol yw darparu cynllun archwilio yn seiliedig ar risg mewn modd proffesiynol, annibynnol ac yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus 2013, er mwyn rhoi i'r sefydliad sicrwydd gwrthrychol ac ymgymryd â gweithgareddau ymgynghori sydd wedi eu dylunio i ychwanegu gwerth ac i wella gweithrediadau'r Awdurdod. Bydd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cynorthwyo'r Awdurdod i gyflawni ei amcanion drwy gyflwyno dull systematig, disgybledig o werthuso a gwella effeithiolrwydd prosesau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethiant.

## Diben y Strategaeth a’r Cynllun Blynyddol

2. Diben y Strategaeth a'r Cynllun Archwilio Mewnol yw:

- Darparu sicrwydd cyffredinol annibynnol a gwrthrychol i Aelodau ac uwch reolwyr ynghylch effeithiolrwydd amgylchedd rheoli Cyngor Sir Ynys Môn (CSYM), gan gynnwys llywodraethiant a rheoli risg a gwneud argymhellion priodol ar gyfer gwella;
- Nodi'r risgiau allweddol sy'n wynebu CSYM o ran cyflawni ei amcanion a phennu lefel gyfatebol o adnoddau archwilio;
- Ychwanegu gwerth a chefnogi uwch reolwyr i ddarparu rheolaeth effeithiol a nodi cyfleoedd i wella gwerth am arian;
- Cefnogi'r Swyddog Adran 151 i gyflawni cyfrifoldebau ariannol statudol;
- Darparu gwasanaeth archwilio mewnol sy'n bodloni gofynion y Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio ac sy’n cydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus 2013;
- Gwneud y defnydd gorau o’r adnoddau archwilio sydd ar gael a darparu gwasanaeth effeithiol.

## Rhoi Sicrwydd

3. Dan delerau'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio, mae gofyn i'r Cyngor gynnal adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd ei system rheolaeth fewnol. Mae Archwilio Mewnol yn rhan annatod o'r system honno, ac mae'n cyfrannu'n sylweddol at y gwaith o baratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol (DLlB). Prif nod y Strategaeth a’r Cynllun Archwilio Mewnol **(Atodiad B)** yw darparu sicrwydd parhaus a blynyddol i CSYM o effeithiolrwydd y systemau rheolaeth fewnol sydd ar waith, gan gynnwys rheoli risg a llywodraethu a rhoi hyder i'w budd-ddeiliaid. Fel y gall y Gwasanaeth Archwilio Mewnol fedru darparu'r sicrwydd angenrheidiol, mae mecanweithiau corfforaethol ar gyfer cynhyrchu a choladu’r dystiolaeth wedi cael eu datblygu a'u gweithredu gyda chefnogaeth lawn y Prif

Weithredwr a'r Arweinydd, gyda chefnogaeth yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth sydd, yn y pen draw, yn gyfrifol am sicrhau bod y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn gywir ac y gellir ei wirio.

### Cyflawniadau Craidd Allweddol ar gyfer 2016/17

4. Ystyrir mai'r canlynol yw'r pethau allweddol y mae'n rhaid i ni eu cyflawni:

- Rhoi sicrwydd parhaus i reolwyr ar gyfanrwydd, effeithiolrwydd a gweithrediad system rheolaeth fewnol CSYM.
- Cyflawni Cynllun Archwilio Blynyddol.
- Cynhyrchu dull cydlynol yn seiliedig ar risg ar gyfer archwilio systemau busnes / gweithredol ar draws yr Awdurdod.
- Cydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus 2013.
- Cynnal hunanasesiad blynyddol i werthuso cydymffurfiad â'r safonau, i asesu effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y gweithgaredd archwilio mewnol a nodi cyfleoedd i wella.
- Sicrhau y gweithredir ar yr ymatebion i argymhellion archwilio y cytunwyd arnynt gan reolwyr.
- Cydymffurfio â gofynion statudol i ddarparu system ddigonol ac effeithiol i gynnal archwiliad mewnol o'r cofnodion cyfrifyddu a'r systemau rheolaeth fewnol yn unol ag arferion archwilio mewnol priodol.
- I adlewyrchuFframwaith Rhyngwladol: Llywodraethu Da o fewn y Sector Gyhoeddus a fydd yn bwydo i mewn i'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.
- Datblygu ein rôl a gweithio'n agos gyda'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant.

## Rôl a Diben y Gwasanaeth Archwilio Mewnol

5. Ceir manylion am y sail statudol ar gyfer y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 (diwygiwyd yn 2011) sy'n datgan bod *rhaid i awdurdodau lleol gynnal system archwilio mewnol sy'n ddigonol ac effeithiol ar gyfer archwilio ei gofnodion cyfrifyddu a'i system o reolaeth fewnol yn unol ag arferion priodol.* Mae CSYM yn cydnabod y gofyniad statudol hwn yn ei Reoliadau Ariannol.

6. Yn ogystal â'r uchod, mae gan y Prif Swyddog Cyllid ddyletswydd statudol dan Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972 i sefydlu fframwaith clir ar gyfer gweinyddu busnes yr awdurdod mewn modd priodol. Er mwyn cyflawni'r ddyletswydd honno, mae'r Swyddog Adran 151 yn dibynnu, ymhlith pethau eraill, ar y gwaith y mae Archwilio Mewnol yn ei wneud i adolygu systemau rheolaeth fewnol, rheolaeth ariannol a phrosesau sicrwydd eraill.

7. Mae'r safonau ar gyfer "arferion priodol" mewn perthynas ag archwilio mewnol yn cael eu nodi yn Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus 2013 a gynhyrchwyd gan CIPFA a chyrff eraill sy’n gosod safonau. Mae'r gwasanaeth archwilio mewnol yn sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau hyn a adlewyrchir yn ein Siarter Archwilio Mewnol a’n Cylch Gorchwyl.

8. Caiff safon ac ansawdd ein gwasanaeth ei sgriwtineiddio mewn pum ffordd yn bennaf:

- Sgriwtini gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant
- Adolygiad gan Archwilwyr Allanol
- Adborth a chanfyddiadau cwsmeriaid
- Defnyddio pecyn cymorth hunanasesu CIPFA bob blwyddyn.
- Adolygiadau Perfformiad Gwasanaeth

## Protocol ar gyfer Adolygiadau Archwilio

9. Penodir archwilydd arweiniol ar gyfer pob adolygiad archwilio i gynorthwyo i ddatblygu sgôp pob archwiliad a sicrhau bod ffocws priodol ar risgiau allweddol canfyddedig, gan ddarparu sicrwydd a sicrhau’r gwerth ychwanegol mwyaf posibl. Bydd cylch gorchwyl yn cael ei gynhyrchu ar gyfer pob adolygiad archwilio a cheir trafodaeth gyda rheolwyr i sicrhau bod sgôp, amcanion a dulliau yn cael eu deall a'u cytuno.

10. Caiff adroddiadau archwilio mewnol drafft eu cyhoeddi ar gyfer trafodaeth gyda rheolwyr priodol.

11. Caiff adroddiadau archwilio mewnol terfynol eu cyhoeddi ar ôl cytuno ar yr adroddiadau drafft a byddant yn cynnwys cynlluniau gweithredu cyflawn sy'n nodi pwy sy'n gyfrifol am weithredu a’r amserlenni gofynnol.

12. Caiff argymhellion y cytunwyd arnynt a'r camau gweithredu cysylltiedig eu dilyn i fyny ymhen chwe mis o gyhoeddi'r adroddiad archwilio neu’n gynt os ystyrir bod angen a hynny mewn trafodaeth ag uwch reolwyr.

## Meysydd Blaenoriaeth ar gyfer 2016/17

13. Gan ystyried proffil risg presennol CSYM, nodwyd y meysydd canlynol fel materion allweddol a rhai y dylid rhoi blaenoriaeth iddynt yn ein gwaith ar gyfer 2017/16:

### Systemau Ariannol Allweddol

14. Mae effeithiolrwydd rheolaethau a rheoli risgiau mewn systemau ariannol allweddol yn parhau i fod yn rhan greiddiol o'n gwaith archwilio. Mae'r gwaith hwn

yn bwysig wrth roi sicrwydd blynyddol i CSYM ac i gefnogi gwaith archwilwyr allanol yr Awdurdod.

**Trefniadau Llywodraethu Corfforaethol**

15. Mae fframwaith llywodraethu corfforaethol yr Awdurdod yn berthnasol i bob agwedd ar ei fusnes, gan gynnwys rheoli risg, rheolaeth fewnol a safonau moesegol. Rydym yn cyflawni rôl allweddol o ran cefnogi ac adolygu'r fframwaith a rhoi sicrwydd ei fod yn gweithredu'n effeithiol ac yn unol ag arfer orau trwy gynnal adolygiadau archwilio.

**Rheoli Risg**

16. Mae gennym rôl bwysig i hyrwyddo rheoli risg yn effeithiol ar draws yr Awdurdod ac i asesu cydymffurfiaeth ag arferion rheoli risg da a digonolrwydd y rheolaethau a roddwyd ar waith gan y rheolwyr i liniaru risgiau yn eu meysydd gwasanaeth.

**Grantiau**

17. Byddwn yn cynnal adolygiadau o'r grantiau yr ydym yn eu derbyn ac yn eu talu mewn meysydd lle nad yw sicrwydd archwilio allanol yn cael ei ddarparu neu pan fo pryderon ynghylch gweithrediad yr amgylchedd rheoli mewnol. Byddwn yn darparu sicrwydd o ran cydymffurfio â thelerau ac amodau grant ac o ran y systemau rheolaeth sydd ar waith.

**Archwiliad o Wasanaethau a Systemau Eraill**

18. Byddwn yn adolygu gwasanaethau, systemau a phrosesau eraill yn unol ag asesiad o risg ac anghenion y busnes. Gall hyn gynnwys systemau ariannol, gweinyddol neu weithredol.

**Gwasanaethau Ymgynghori**

19. Yn ychwanegol at y gwasanaethau sicrwydd y cytunwyd arnynt ac a ddarperir i gynorthwyo rheolwyr i gwrdd ag amcanion yr Awdurdod, bydd Archwilio Mewnol hefyd yn darparu ystod o wasanaethau ymgynghorol sy'n cynnwys:

- Cyngor ac arweiniad i reolwyr mewn perthynas ag amrediad o faterion, gan gynnwys gweithredu systemau, cydymffurfio â rheoliadau, gweithdrefnau a pholisïau a gofynion rheolaeth fewnol;
- Hyfforddiant;
- Atgyfeiriadau gan gynnwys gwaith sy'n ymwneud â thwyll.

20. Mae Archwilio Mewnol yn gweithredu mewn rôl ymgynghorol wrth gynghori rheolwyr mewn perthynas â materion o fewn ei gylch gwaith, megis gweithredu'r rheolaethau priodol o ran prosiectau, datblygiadau a systemau newydd. Caiff union ddyraniad yr adnoddau o ran gwaith ymgynghorol ei bennu yn y cynllun archwilio. Caniateir dyraniadau amser ar wahân ar gyfer gweithgareddau ymgynghorol, gwaith sy'n ymwneud â thwyll ac archwiliadau dilynol.

**Gwaith Atal Twyll**

21. Byddwn yn adolygu ac yn ceisio sicrhau cadernid trefniadau'r Awdurdod ac yn adolygu'r fframwaith atal twyll ac yn nodi meysydd lle mae risg o dwyll. Byddwn yn parhau i gymryd rhan yn y Fenter Genedlaethol i Atal Twyll. Mae Archwilydd Cyffredinol Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnal y Fenter hon (NFI) bob dwy flynedd i gynorthwyo cyrff cyhoeddus yn eu brwydr yn erbyn twyll. Mae'r Fenter yn cyfatebu data ar draws sefydliadau a systemau er mwyn helpu cyrff cyhoeddus i nodi hawliadau a thrafodion a allai fod yn dwyllodrus neu'n wallus. Mae'r Fenter wedi bod yn offeryn effeithiol iawn i ganfod twyll a gordaliadau ac wedi sicrhau arbedion i bwrs y wlad ers ei sefydlu yn 1996.

**Cefnogaeth i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant**

22. Byddwn yn gweithio'n agos gydag Aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant i ddatblygu ei rôl mewn perthynas ag arfer orau ac i gyfrannu tuag at lywodraethiant corfforaethol effeithiol yr awdurdod.

## Rheoli Perfformiad y Gwasanaeth Archwilio Mewnol

23. Er mwyn gwneud y gwaith a gynlluniwyd, darparu safon uchel o wasanaeth i gwsmeriaid a dangos bod y gwasanaeth yn effeithiol, rydym wedi sefydlu targedau perfformiad yn seiliedig ar yr arferion proffesiynol gorau sy'n cael eu defnyddio i bwrpas cymharu ar sail Cymru gyfan. Mae'r dangosyddion perfformiad yn dangos ansawdd ac effeithiolrwydd perfformiad y gwasanaeth yn erbyn targedau a osodwyd.

24. Nodir y dangosyddion perfformiad a'r targedau ar gyfer chwe agwedd ar ein gwasanaeth yn **Atodiad E**.

- Cost ac ansawdd y mewnbwn
- Cynhyrchiant ac effeithlonrwydd y broses
- Ansawdd y cynnyrch
- Cydymffurfiaeth â safonau proffesiynol
- Canlyniadau a maint y dylanwad
- Staff

## Darparu'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn 2016/17

25. Bydd y gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cael ei ddarparu gan dîm mewnol o 5 o swyddogion, ynghyd â rheolwr allanol o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, sydd gyda'i gilydd yn cyfateb i 5.68 o aelodau cyfwerth ag amser llawn. Mae sgiliau ac arbenigedd digonol yn y gwasanaeth i ddarparu'r ystod lawn o archwiliadau ac sydd wedi eu cynnwys yn y Cynllun Blynyddol, i reoli'r gwasanaeth yn effeithlon ac yn effeithiol ac i roi sicrwydd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant ar ddigonolrwydd y rheolaeth fewnol a'r prosesau rheoli risg a llywodraethiant corfforaethol sydd wedi cael eu sefydlu.

## Datblygu'r Cynllun Archwilio Mewnol Blynyddol

26. Mae'r fethodoleg a ddefnyddir ar gyfer datblygu'r Cynllun Archwilio Mewnol Blynyddol yn canolbwyntio ar feintioli'r risgiau sy'n gysylltiedig ag amcanion CSYM mewn ymgynghoriad â swyddogion allweddol.

27. Bydd nifer o archwiliadau a gynlluniwyd yn cael eu cynnal bob blwyddyn, yn enwedig y rhai dan y pennawd Systemau Ariannol Allweddol, fel rhan o ofynion statudol Archwilio Mewnol i ddarparu sicrwydd i'r Swyddog Adran 151 ar effeithiolrwydd y rheolaethau mewnol sy'n cael eu gweithredu yn yr Awdurdod.

28. Mae'r broses asesu risg yn cymryd i ystyriaeth ystod o risgiau strategol, corfforaethol, gwasanaeth a gweithredol, gan gynnwys y rhai a nodwyd drwy'r broses Rheoli Risg a gan yr archwilydd allanol a barn yr uwch reolwyr ar y materion hyn. Os yw'r Pennaeth Archwilio Mewnol o'r farn nad yw'r adnoddau sydd ar gael yn ddigonol i fedru darparu barn o'r fath, bydd adroddiad ar hynny'n cael ei gyflwyno i'r sefydliad trwy'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant.

29. Bydd gwaith archwilio yn cyfrannu tuag at y cyngor a'r cymorth y byddwn yn eu rhoddi mewn perthynas â'r gwaith o baratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Byddir yn ymddiried yng ngwaith archwilwyr allanol lle ystyrir ei bod yn briodol gwneud hynny.

30. Mae'r Cynllun yn cydbwyso'r gofynion canlynol:

- Yr angen i sicrhau bod y Cynllun Archwilio yn cael ei gyflwyno i'r lefelau targed a sefydlwyd gan ddangosyddion perfformiad yr adain.
- Sicrhau bod systemau ariannol craidd yn cael eu hadolygu'n ddigonol i roi sicrwydd bod gan reolwyr drefniadau priodol ar gyfer rheolaeth ariannol y bydd yr Archwilwyr Allanol yn gallu dibynnu arnynt.
- Adolygu trefniadau strategol a gweithredol eraill mewn modd priodol.

- Bod amser sydd heb ei ymrwymo ar gael i ymdrin â materion nad ydynt wedi eu cynllunio ac y bydd angen efallai eu hadolygu neu ymchwilio iddynt.
- Rhannu adnoddau’n gymharol rhwng darparu sicrwydd, gwasanaethau sy'n gysylltiedig â thwyll a gwasanaethau ymgynghori a ddarperir gan Archwilio Mewnol.
- Darparu mewnbwn cadarnhaol ac amserol i gynorthwyo datblygiadau corfforaethol a gwasanaeth.

31. Rhoi braslun yn unig mae’r Cynllun Archwilio Mewnol Blynyddol ac mae'n bosibl y bydd y newidiadau yn cael eu gwneud yn ystod y flwyddyn wrth i broffil risg CSYM newid neu mewn ymateb i geisiadau gan reolwyr. Bydd hyn yn cael ei gyflawni trwy adolygu a diwygio parhaus, mewn ymgynghoriad â'r swyddogion perthnasol. Bydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant yn cael gwybod am y cynnydd yn erbyn y Cynllun Archwilio Blynyddol ac yn cytuno ar unrhyw newidiadau sylweddol yn ystod y flwyddyn.

## Crynodeb o'r Cynllun Archwilio Mewnol 2016/17

32. Mae’r Cynllun Archwilio Mewnol Blynyddol wedi cael ei lunio ar sail asesiad risg o bob maes archwilio. Caiff risgiau eu categoreiddio fel uchel, canolig neu isel a hynny sy’n penderfynu lefel sicrwydd a roddir i bob maes archwilio a pha mor aml y cynhelir pob archwiliad.

**Tabl 1 - Crynodeb o Gynllun Archwilio Mewnol Blynyddol 2016/17**

| Meysydd Thematig | Dyddiau Archwilio |
|---|---|
| Systemau Ariannol Allweddol | 85 |
| Llywodraethiant Corfforaethol | 170 |
| Systemau / Swyddogaethau eraill | 266 |
| Ymchwiliadau Arbennig | 150 |
| Gwaith ymgynghorol gan gynnwys cefnogi’r Pwyllgor Archwilio | 30 |
| Grantiau | 35 |
| Archwiliad Cyfrifiadur | 40 |
| Gwaith archwilio dilynol | 25 |
| Dyletswyddau nad ydynt yn rhai Archwilio | 23 |
| Gorbenion | 598 |

| | |
|---|---:|
| Darpariaeth Wrth Gefn ar gyfer Archwilio | 120 |
| **CYFANSWM** | **1,542** |

33. Mae'r Cynllun Strategol 3 blynedd **(Atodiad C)** yn cofnodi anghenion archwilio'r Awdurdod ac yn manylu ar y sgôr sicrwydd risg a roddir i bob maes fydd yn cael ei archwilio. Caiff y graddfeydd sicrwydd eu diffinio fel Sylweddol, Rhesymol, Cyfyngedig a Lleiaf.

34. Bydd cynnydd yn erbyn y Cynllun Archwilio blynyddol yn cael ei adolygu gan y Pennaeth Archwilio Mewnol a thrwy fonitro datblygiadau corfforaethol a gwasanaeth. Bydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant yn cael gwybod am berfformiad yn erbyn y Cynllun Blynyddol a'r dangosyddion perthnasol dan y fframwaith rheoli perfformiad.

## Adrodd

35 Mae dull adrodd ar gyfer Archwilio Mewnol yn cael ei nodi yn y Siarter Archwilio Mewnol a’r Cylch Gorchwyl a gymeradwywyd a bydd Archwilio Mewnol yn cydymffurfio â'r dull hwn fel y ffordd fwyaf effeithlon o gyflawni canlyniadau ei waith.

**........................ ..**

CYNGOR SIR YNYS MÔN

# CYNLLUN GWEITHREDU ARCHWILIO MEWNOL - 2016-17 ATODIAD B

| Cyf | Gwasanaeth | Teitl | Ffynhonnell | Nifer dyddiau Archiwlio a gynlluniwyd |
|---|---|---|---|---|
| | | | | 1542 |
| | | **ADOLYGIADAU AWDURDOD GYFAN (CORFFORAETHOL)** | | |
| 1 | Corfforaethol | Parhad Busnes | Risg Gorfforaethol YM10 | 10 |
| 2 | Corfforaethol | Archwilio Contract - Gwariant Cyfalaf | Archwilio Mewnol Cylchol | 15 |
| 3 | Corfforaethol | Llywodraethiant Corfforaethol | Risg a Aseswyd gan AM | 15 |
| 4 | Corfforaethol | Fframwaith Caffael Corfforaethol | Risg a Aseswyd gan AM | 10 |
| 5 | Corfforaethol | Diogelu Data a Llywodraethu Gwybodaeth | Risg Gorfforaethol YM13 Adroddiad ICO | 15 |
| 7 | Corfforaethol | Adfer TGCh ar ôl Trychineb | Risg Gorfforaethol YM10 | 10 |
| 8 | Corfforaethol | Partneriaethau - Llywodraethiant a Pherfformiad | Risg Gorfforaethol YM1 | 15 |
| 9 | Corfforaethol | Rheoli Risg | AM Cylchol | 10 |
| 10 | Corfforaethol | Diogelu | Risg Gorfforaethol YM12 | 15 |
| 11 | Corfforaethol | Trefniadau Wrth Gefn | Astudiaeth Gwerth am Arian | 10 |
| 13 | Corfforaethol | Rhaglen Drawsnewid - Gweithio'n Gallach | Ar gais y Swyddog Adran 151 | 15 |
| 14 | Corfforaethol | Diwylliant Moesegol | Gofyniad PSIAS | 15 |
| 15 | Corfforaethol | Gweithredu Statws Sengl | Ar gais y Swyddog Adran 151 | 15 |
| | Corfforaethol | Darpariaeth dilyn-i-fyny | | 8 |
| | | **PENNAETH SWYDDOGAETH ADNDDAU A SWYDDOG ADRAN 151** | | |
| 16 | Adnoddau | Taliadau Credydwyr | System Ariannol Allweddol | 10 |
| 17 | Adnoddau | Rheoliadau Lefel Uchel ar gyfer Systemau Ariannol Allweddol | System Ariannol Allweddol | 10 |
| 18 | Adnoddau | Budd-daliadau Tai a'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor | System Ariannol Allweddol | 15 |
| 19 | Adnoddau | Yswiriant | Risg a Aseswyd gan AM | 8 |
| 20 | Adnoddau | Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn | AM Cylchol | 10 |
| 21 | Adnoddau | Prif System Gyfrifo | System Ariannol Allweddol | 10 |
| 22 | Adnoddau | Incwm - CHIP & PIN, Taliadau Cardiau Credyd | System Ariannol Allweddol | 10 |
| 23 | Adnoddau | Mân-ddyledwyr | System Ariannol Allweddol | 10 |
| | Adnoddau | Darpariaeth dilyn-i-fyny | | 5 |
| | | **PENNAETH SWYDDOGAETH - BUSNES Y CYNGOR A SWYDDOG MONITRO** | | |
| 24 | Busnes | Democrataidd a Gwasanaethau i Aelodau | Gwasanaeth heb ei archwilio ers cryn amser | 8 |
| | Busnes | Darpariaeth dilyn-i-fyny | | 0 |
| | | **PENNAETH SWYDDOGAETH - Trawsnewid** | | |
| 25 | Trawsnewid | Dilysu Cyfrineiriau - Polisïau a Rheolaeth | Yn sylfaenol i weithgareddau'r Cyngor | 10 |
| | Trawsnewid | Cadernid Systemau Busnes Critigol | Yn sylfaenol i weithgareddau'r Cyngor | 10 |
| | Trawsnewid | Cyfleuster Cynhyrchu - Sieciau | Yn sylfaenol i weithgareddau'r Cyngor | 10 |
| | Trawsnewid | Rheoli Cyfrfiaduron a Rhwydweithiau | Yn sylfaenol i weithgareddau'r Cyngor | 10 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 26 | Trawsnewid | Darpariaeth dilyn-i-fyny | | 2 |
| | | | | |
| **PENNAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD** | | | | |
| 27 | Cynllunio | Gwasanaethau Rheoli Adeiladu | Gwasanaeth heb ei archwilio ers cryn amser | 10 |
| 28 | Gwarchod y Cyhoedd | Gwasanaethau Iechyd yr Amgylchedd | Gwasanaeth heb ei archwilio ers cryn amser | 15 |
| 29 | Cynllunio | Gwasanaethau Cynllunio | Gwasanaeth heb ei archwilio ers cryn amser | 10 |
| 30 | Safonau Masnach | Gwasanaethau Safonau Masnach | Gwasanaeth heb ei archwilio ers cryn amser | 10 |
| | | Darpariaeth dilyn-i-fyny | | 1 |
| | | | | |
| **PENNAETH ADFYWIO ECONOMAIDD A CHYMUNEDOL** | | | | |
| 31 | Economaidd | Ynys Ynni | Adolygiad Newydd | 10 |
| 32 | Hamdden | Swyddogaeth a Pherfformiad Hamdden - Adolygu'r Rhaglen Newid ar gyfer Hamdden - Capasiti/gallu masnachol i yrru newid yn y dyfodol | AM Cylchol | 10 |
| 33 | Economaidd | Swyddfa Rheoli Prosiect | Ar gais y Pennaeth Gwasanaeth | 10 |
| | Economaidd | Darpariaeth dilyn-i-fyny | | 0 |
| | | | | |
| **PENNAETH PRIFFYRDD, GWASTRAFF A GWASANAETHAU EIDDO** | | | | |
| 34 | Eiddo | Gwasanaethau Dylunio a Chynnal Adeiladau | Gwasanaeth heb ei archwilio ers cryn amser | 10 |
| 35 | Priffyrdd | Gwasanaethau Peirianneg a Dylunio | Gwasanaeth heb ei archwilio ers cryn amser | 10 |
| 36 | Priffyrdd | Rheoli Llifogydd | Gwasanaeth heb ei archwilio ers cryn amser | 10 |
| | | Darpariaeth dilyn-i-fyny | | 2 |
| | | | | |
| **PENNAETH TAI** | | | | |
| 37 | Tai | Unedau Busnes a Llywodraethiant CRT - Polisïau a Gweithdrefnau perthnasol a'r Cynllun Busnes | Menter Newydd | 10 |
| 38 | Tai | Atal Digartrefedd, Gosod Tai, Opsiynau Tai a Chymorth Llety | Dogfen Gyflawni Flynyddol 2015/16 | 10 |
| 40 | Tai | Trwsio a Chynnal a Chadw | Gwasanaeth heb ei archwilio ers cryn amser | 15 |
| | Tai | Darpariaeth dilyn-i-fyny | | 3 |
| | | | | |
| **PENNAETH GWASANAETHAU OEDOLION** | | | | |
| 40 | Oedolion | Cynllun Tai Gofal Ychwanegol - Trefniadau Comisiynu | Ar gais y Pennaeth Gwasanaeth | 15 |
| 41 | Oedolion | Gwasanaethau ar gyfer yr Henoed - Adolygu'r Strategaeth | Ar gais y Pennaeth Gwasanaeth | 15 |
| | Oedolion | Darpariaeth dilyn-i-fyny | | 0 |
| | | | | |
| **PENNAETH GWASANAETHAU PLANT** | | | | |
| 42 | Plant | Strategaeth Rhiant Corfforaethol - Buddsoddi I Arbed Plant mewn Gofal -- Maethu | External Assurance | 15 |
| | Plant | Darpariaeth dilyn-i-fyny | | 2 |
| | | | | |
| **PENNAETH DYSGU** | | | | |
| 43 | Dysgu Gydol Oes | Cyllideb Ysgolion Cynradd >£1m 2 ysgol y flwyddyn - Llanfairpwll | | 5 |
| | Dysgu Gydol Oes | Cyllideb Ysgolion Cynradd >£1m 2 ysgol y flwyddyn - Y Graig | | 5 |
| | Dysgu Gydol Oes | Cyllideb Ysgolion Cynradd >£0.5m <£1.0m 4/5 ysgol y flwyddyn - Esceifiog | | 5 |
| | Dysgu Gydol Oes | Cyllideb Ysgolion Cynradd >£0.5m <£1.0m 4/5 ysgol y flwyddyn - Llannerchymedd | | 5 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Dysgu Gydol Oes | Cyllideb Ysgolion Cynradd >£0.5m <£1.0m 4/5 ysgol y flwyddyn - Y Tywyn | | 5 |
| | Dysgu Gydol Oes | Cyllideb Ysgolion Cynradd >£0.5m <£1.0m 4/5 ysgol y flwyddyn - Llandegfan | | 5 |
| | Dysgu Gydol Oes | Ysgolion Uwchradd ac Ysgolion Arbennig 3 ysgol y flwyddyn - Syr Thomas Jones | | 10 |
| | Dysgu Gydol Oes | Ysgolion Uwchradd ac Ysgolion Arbennig 3 ysgol y flwyddyn - Uwchradd Bodedern | | 10 |
| | Dysgu Gydol Oes | Ysgolion Uwchradd ac Ysgolion Arbennig 3 ysgol y flwyddyn - Uwchradd Caergybi | | 10 |
| | Dysgu Gydol Oes | Ysgolion Cynradd sy'n Weddill - Adolygiadau Thematig | | 10 |
| 44 | Dysgu Gydol Oes | Darpariaeth dilyn-i-fyny | | 2 |

| **DYDDIAU HEB EU CYNLLUNIO Y MAE MODD CODI AMDANYNT** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Gwaith Atal Twyll | | 150 |
| | | Cau Gwaith y flwyddyn flaenorol | | 20 |
| | | Ardystio Grantiau | | 35 |
| | | Ymgynghori gyda'r UDA, Cyfarwyddwyr, Penaethiaid Swyddogaeth, Penaethiaid Gwasanaeth | | 15 |
| | | Menter Twyll Genedlaethol | | 3 |
| | | Darpariaeth Wrth Gefn | | 120 |

| **DYDDIAD NA CHODIR AMDANYNT** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Gwyliau Blynyddol | | 180 |
| | | Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant | | 15 |
| | | Paratoi'r Cynllun Archwilio | | 20 |
| | | Gweinyddiaeth Gyffredinol | | 45 |
| | | Datblygiad ac Adolygiadau Personol | | 8 |
| | | Ymgynghori gydag Archwilio Allanol | | 5 |
| | | Monitro a Sicrhau Ansawdd | | 40 |
| | | Absenoldeb Salwch | | 45 |
| | | Absenoldeb Arbennig | | 5 |
| | | Absenoldeb Mamolaeth | | 195 |
| | | Gwyliau Statudol | | 48 |
| | | Hyfforddiant ar gyfer Staff | | 10 |
| | | Hyfforddiant Aelodau | | 2 |

## CYNGOR SIR YNYS MÔN - CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL STRATEGOL 2016/17 - 2018/19 ATODIAD C

| Maes i'w adolygu | Natur y gwaith | Rheswm am ei gynnwys | Amlder yr archwiliad | Archwiliwyd ddiwethaf | | Dyddiau a fwriedir | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Dyddiad | Lefel Sicrwydd | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 |
| **ADOLYGIADAU TRWY'R AWDURDOD CYFAN (CORFFORAETHOL)** | | | | | | | | |
| Parhad Busnes | Polisïau ac arferion ar gyfer delio â digwyddiad mawr | Risg gorfforaethol (RG) YM10 "Ni ellir darparu gwasanaethau allweddol yn dilyn digwyddiad mawr"<br>Sicrwydd cyfyngedig o ganlyniad i archwiliad a wnaed ym mis Awst 2015. | Bob blwyddyn | 2015/16 | Cyfyngedig | 10 | 10 | 10 |
| Archwiliad Contract - Gwariant Cyfalaf | Polisïau ac arferion ar gyfer dyfarnu a rheoli contractau cyfalaf - prosiectau penodol i'w dewis bob blwyddyn fel sy'n briodol | Heb gael ei archwilio'n ddiweddar. Gwariant sylweddol. | Bob blwyddyn | Anhysbys | Anhysbys | 15 | 15 | 15 |
| Llywodraethu Corfforaethol | Polisïau ac arferion ynghylch: atebolrwydd a pherchnogaeth penderfyniadau | Mater sy'n dal i beri pryder o ran archwilio, ac a adroddwyd i'r pwyllgor ym mis Medi 2014 gan y DBW | Bob blwyddyn | Cyn 2012/13 | Anhysbys | 15 | 15 | 15 |

Tudalen 136



Version 1 - 13 January 2016

| Maes i'w adolygu | Natur y gwaith | Rheswm am ei gynnwys | Amlder yr archwiliad | Archwiliwyd ddiwethaf | | Dyddiau a fwriedir | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Dyddiad | Lefel Sicrwydd | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 |
| Fframwaith Caffael Corfforaethol | Polisïau ac arferion ar gyfer caffael nwyddau a gwasanaethau | Mater sy'n dal i beri pryder o ran archwilio, ac a adroddwyd i'r pwyllgor ym mis Medi 2014 gan y DBW. Fe wnaeth gwiriad ffitrwydd cenedlaethol Llywodraeth Cymru a wnaed gan KPMG yn 2014 amlygu rhai problemau o bwys. YM22 | Bob blwyddyn | 2012/13 | Anhysbys | 10 | 10 | 10 |
| Diogelu Data a Llywodraethu Gwybodaeth | Polisïau ac arferion ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau a deddfwriaeth allanol | Mater sy'n dal i beri pryder o ran archwilio, ac a adroddwyd i'r pwyllgor ym mis Medi 2014 gan y DBW.<br>Ar gais y Pennaeth Swyddogaeth.<br>CR YM3 "Gwybodaeth gritigol, gyfrinachol neu bersonol yn cael ei cholli neu ei rhyddhau'n anghywir"<br>Adroddiad y Comisiynydd Gwybodaeth. Derbyniwyd Nodyn Gorfodaeth gan Swyddfa'r CG ar 1/10/15. | Bob blwyddyn | Hydref 2015 - llywodraethu gwybodaeth yn unig | Rhesymol | 15 | 15 | 15 |
| Adfer TGCh ar ôl Trychineb | Polisïau ac arferion ar gyfer delio â digwyddiad mawr | CR YM10 "Ni ellir darparu gwasanaethau allweddol yn dilyn digwyddiad mawr" | Bob blwyddyn | 2015/16 | Isel | 10 | 10 | 10 |

| Maes i'w adolygu | Natur y gwaith | Rheswm am ei gynnwys | Amlder yr archwiliad | Archwiliwyd ddiwethaf | | Dyddiau a fwriedir | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Dyddiad | Lefel Sicrwydd | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 |
| Partneriaethau | Llywodraethiant a pherfformiad | Mater sy'n dal i beri pryder o ran archwilio, ac a adroddwyd i'r pwyllgor ym mis Medi 2014 gan y DBW.<br>Ar gais y Pwyllgor Archwilio.<br>CR YM1 "Nid yw trefniadau atebolrwydd ynghylch trefniadau cydweithio'r Cyngor yn glir neu nid ydynt yn cael eu dilyn" | Bob blwyddyn | 2015/16 | Cyfyngedig | 15 | 15 | 15 |
| Fframwaith Rheoli Risg | Adnabod a rheoli risgiau sylweddol ar lefel gorfforaethol a lefel gwasanaeth | Mater sy'n dal i beri pryder o ran archwilio, ac a adroddwyd i'r pwyllgor ym mis Medi 2014 gan y DBW. | Bob blwyddyn | 2015/16 | Rhesymol | 10 | 10 | 10 |
| Diogelu | Polisïau ac arferion ar gyfer diogelu plant ac oedolion bregus | Ar gais yr UDA<br>CR YM12 "Gwall difrifol yn y maes diogelu yn arwain at, neu'n cyfrannu at, niwed difrifol" | Bob blwyddyn | Cyn 2012/13 | Anhysbys | 15 | 15 | 15 |
| Trefniadau wrth gefn | Pa mor gost-effeithiol yw trefniadau'r Cyngor a chysondeb y taliadau | Astudiaeth gwerth am arian | Adolygiad unwaith ac am byth | Adolygiad newydd | N/A | 10 | | |
| Chwythu'r Chwiban | Polisïau a gweithdrefnau i staff a chydranddeiliaid godi pryderon | Ar gais y Swyddog Monitro | Bob yn ail blwyddyn | Cyn 2012/13 | Anhysbys | | 5 | |

| Maes i'w adolygu | Natur y gwaith | Rheswm am ei gynnwys | Amlder yr archwiliad | Archwiliwyd ddiwethaf | | Dyddiau a fwriedir | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Dyddiad | Lefel Sicrwydd | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 |
| Y Rhaglen Drawsnewid | Gwerthuso effeithiolrwydd Gweithio'n Gallach - Lle Swyddfa a Gweithio'n Hyblyg | Ar gais y Swyddog 151 YM5 Risg y bydd y Cyngor yn methu darparu gwasanaethau effeithiol ac effeithlon. YM 7 Darpariaeth TGCh | Adolygiad unwaith ac am byth | Adolygiad newydd | Anhysbys | 15 | | |
| Diwylliant Moesegol | Gwerthuso dyluniad, gweithrediad ac effeithiolrwydd amcanion, rhaglenni a gweithgareddau sy'n gysylltiedig â moeseg | Gofyniad yn PSIAS 2110.A1 | Bob blwyddyn | Adolygiad newydd | Anhysbys | 15 | 15 | 15 |
| Gweithredu Statws Sengl | Adolygu statws cyfredol a chost-effeithiolrwydd trefniadau'r Cyngor | Ar gais y Swyddog 151 YM8 AS effaith negyddol ar ddarpariaeth gwasanaethau | Adolygiad unwaith ac am byth | Adolygiad newydd | Anhysbys | 15 | | |
| Darpariaeth Dilyn i Fyny | | | | | | 8 | 10 | 10 |
| **CYFANSWM Y DYDDIAU AR GYFER ADOLYGIADAU TRWY'R AWDURDOD CYFAN (CORFFORAETHOL)** | | | | | | **178** | **145** | **140** |

## CYNGOR SIR YNYS MÔN - CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL STRATEGOL 2016/17 - 2018/19 ATODIAD C

| Maes i'w adolygu | Natur y gwaith | Rheswm am ei gynnwys | Amlder yr archwiliad | Archwiliwyd ddiwethaf | | Dyddiau a fwriedir | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Dyddiad | Lefel Sicrwydd | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 |
| **PENNAETH SWYDDOGAETH - ADNODDAU A SWYDDOG ADRAN 151** | | | | | | | | |
| Y Dreth Gyngor ac NNDR | Codi a chasglu taliadau, dyrannu lwfansau a rhyddhad rhag gorfod talu a'u cysoni'n briodol | Systemau ariannol allweddol Sicrwydd archwilydd allanol | Bob yn ail blwyddyn | 2014/15 | Rhesymol | | 20 | |
| Taliadau Credydwyr | Archebu a thalu am nwyddau a gwasanaethau, a rheolaethau dros ddata sefydlog | System ariannol allweddol Sicrwydd archwilydd allanol | Bob yn ail blwyddyn | 2014/15 | Rhesymol | 10 | | 10 |
| Y Gofrestr Asedau Sefydlog a Chyfrifyddu Cyfalaf | Cofnodi, prynu/derbyn a chael gwared ar asedau sefydlog a chysoni gyda'r system gyfrifyddu | System ariannol allweddol Sicrwydd archwilydd allanol | Bob 3 blynedd | 2012/13 - gwaith dilysu yn unig | D/B | | 8 | |
| Rheolaethau Lefel Uchel ar gyfer Systemau Ariannol Allweddol | Rheolaethau lefel uchel ar gyfer systemau nad ydynt yn destun adolygiad archwilio llawn yn ystod y flwyddyn | Systemau ariannol allweddol Sicrwydd archwilydd allanol | Bob blwyddyn | 2014/15 | D/B | 10 | 10 | 10 |
| Budd-dal Tai a Chynllun Gostyngiad y Dreth Gyngor | Asesu a thalu budd-daliadau / lwfansau cysylltiedig a chysoni'n briodol | System ariannol allweddol Sicrwydd archwilydd allanol | Bob blwyddyn | 2014/15 | Rhesymol | 15 | 15 | 15 |
| Yswiriant | Trefnu polisi yswiriant digonol a gweinyddu hawliadau | Nid yw'r maes gwasanaeth wedi derbyn adolygiad archwilio ers peth amser | Bob 3 blynedd | Cyn 2012/13 | Anhysbys | 8 | | |

| Maes i'w adolygu | Natur y gwaith | Rheswm am ei gynnwys | Amlder yr archwiliad | Archwiliwyd ddiwethaf | | Dyddiau a fwriedir | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Dyddiad | Lefel Sicrwydd | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 |
| Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn | Trefniadau llywodraethiant, atebolrwydd a rheolaeth fewnol | Arian mawr ynghlwm ac mae enw da'r Cyngor yn y fantol | Bob yn ail blwyddyn | 2014/15 | Er cyngor yn unig - felly heb ddyfarnu statws CAG | 10 | | 10 |
| Y Brif System Gyfrifyddu | Cynnal a chadw a rheoli'r brif system gyfrifyddu a chysoni'n briodol | System ariannol allweddol Sicrwydd archwilydd allanol | Bob blwyddyn | 2014/15 | Rhesymol | 10 | 10 | 10 |
| Y Gyflogres | Rheoli gweithwyr sy'n cychwyn ac yn gadael, newidiadau i gyfraddau tâl, lwfansau a data sefydlog a chysoni'n briodol | System ariannol allweddol Sicrwydd archwilydd allanol | Bob yn ail blwyddyn | 2014/15 | Rhesymol | | 12 | |
| Derbynebu a Bancio Incwm | Derbyn incwm, bancio a chysoni'n briodol | System ariannol allweddol Sicrwydd archwilydd allanol | Bob yn ail blwyddyn | 2014/15 | Sylweddol | 10 | | 10 |
| Mân Ddyledwyr | Codi a chasglu incwm gan fân ddyledwyr, a chysoni'n briodol | System ariannol allweddol Sicrwydd archwilydd allanol | Bob blwyddyn | 2014/15 | Rhesymol | 10 | 10 | 10 |
| Rheoli Trysorlys | Rheoli benthyciadau a buddsoddiadau a chysoni'n briodol | System ariannol allweddol Sicrwydd archwilydd allanol | Bob 4 blynedd | 2014/15 | Sylweddol | | 5 | |
| Darpariaeth Dilyn i Fyny | | | | | | 5 | 5 | 5 |
| **CYFANSWM DYDDIAU AR GYFER Y PENNAETH SWYDDOGAETH - ADNODDAU A SWYDDOG ADRAN 151** | | | | | | **88** | **95** | **80** |

| Maes i'w adolygu | Natur y gwaith | Rheswm am ei gynnwys | Amlder yr archwiliad | Archwiliwyd ddiwethaf | | Dyddiau a fwriedir | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Dyddiad | Lefel Sicrwydd | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 |
| **PENNAETH SWYDDOGAETH - BUSNES Y CYNGOR A SWYDDOG MONITRO** | | | | | | | | |
| Gwasanaethau Democrataidd ac Aelodau | Rheolaethau dros wasanaethau aelodau, cyfieithu, gwasanaethau etholiadol a chynllunio argyfwng | Nid yw'r maes gwasanaeth wedi bod yn destun adolygiad archwilio ers cryn amser | Bob 3 blynedd | 2012/13 - lwfansau aelodau, dilyn i fyny'n unig | D/B | 8 | | |
| Gwasanaethau Cyfreithiol | Rheolaethau dros ddarpariaeth y gwasanaeth | Nid yw'r maes gwasanaeth wedi bod yn destun adolygiad archwilio ers cryn amser | Bob 3 blynedd | Cyn 2012/13 | Anhysbys | | 6 | |
| Darpariaeth Dilyn i Fyny | | | | | | 0 | 2 | 2 |
| **CYFANSWM DYDDIAU AR GYFER Y PENNAETH SWYDDOGAETH - BUSNES Y CYNGOR A SWYDDOG MONITR** | | | | | | **8** | **8** | **2** |
| **PENNAETH SWYDDOGAETH - TRAWSNEWID** | | | | | | | | |
| Adnoddau Dynol | Polisïau ac arferion ar gyfer rheoli'r gweithlu | Yn eithriadol o bwysig fel bod y Cyngor yn rhedeg yn llwyddiannus | Bob yn ail blwyddyn | 2015/16 | Cyfyngedig | | 20 | |
| Archwiliad TG | Angen asesiad anghenion gan arbenigwr TG er mwyn pennu meysydd blaenoriaeth i'w hastudio | Mae systemau a rheolaethau TG effeithiol yn greiddiol i weithrediadau'r Cyngor | Bob blwyddyn | 2014/15 | D/B | 40 | 40 | 40 |
| Darpariaeth Dilyn i Fyny | | | | | | 2 | 2 | 2 |
| **CYFANSWM DYDDIAU AR GYFER Y PENNAETH SWYDDOGAETH - TRAWSNEWID** | | | | | | **42** | **62** | **42** |

**PENNAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD**

Tudalen 142

## CYNGOR SIR YNYS MÔN - CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL STRATEGOL 2016/17 - 2018/19 ATODIAD C

| Maes i'w adolygu | Natur y gwaith | Rheswm am ei gynnwys | Amlder yr archwiliad | Archwiliwyd ddiwethaf | | Dyddiau a fwriedir | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Dyddiad | Lefel Sicrwydd | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 |
| Gwasanaethau Rheoli Adeiladu | Rheolaethau dros incwm o ffioedd a gweithdrefnau arolygu a gorfodaeth | Nid yw'r maes gwasanaeth wedi derbyn adolygiad archwilio ers cryn amser | Bob yn ail blwyddyn | Cyn 2012/13 | Anhysbys | 10 | | 10 |
| Cofrestru Sifil | Rheolaethau dros incwm o ffioedd | Nid yw'r maes gwasanaeth wedi derbyn adolygiad archwilio ers cryn amser | Bob 3 blynedd | Cyn 2012/13 | Anhysbys | | 10 | |
